



County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

PAPURAU ATODOL

Pwyllgor	PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC
Dyddiad ac amser y cyfarfod	DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018, 4.30 PM
Lleoliad	YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR
Aelodaeth	Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd) YCynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Morgan, Murphy, Phillips, Taylor a/ac Singh Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethw

Y papurau canlynol wedi'i farcio ' i ddilyn' ar yr agenda a ddosbarthwyd yn flaenorol

5 **Derbyniadau Ysgol - Adroddiad Drafft i'r Cabinet** (*Tudalennau 1 - 198*)

- (a) Bydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau) yn bresennol ac efallai y bydd hi am wneud datganiad;
- (b) Bydd Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a swyddogion addysg yn cyflwyno'r adroddiad ac ar gael i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau;
- (c) Cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor;
- (d) Ystyrir camau i'w cymryd ar gyfer yr eitem hon ar ddiwedd y cyfarfod.

Davina Fiore

Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Dyddiadd: Dydd Mercher, 7 Mawrth 2018

Cyswllt: Mandy Farnham, 02920 872618, Mandy.Farnham@caerdydd.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL**

CHILDREN & YOUNG PEOPLE SCRUTINY COMMITTEE

13 March 2018

**SCHOOL ADMISSIONS ARRANGEMENTS 2019 / 20 – DRAFT CABINET
REPORT**

Purpose of Report

1. To provide Members with the opportunity to consider and review the Draft Cabinet Report (copy attached at **Appendix A**). The report informs Cabinet of the recent consultation undertaken regarding school admissions criteria and proposed changes to Cardiff Council's school admissions arrangements.

Background

2. In accordance with Section 89 of the School Standards and Framework Act 1998 and the Education (Determination of Admission Arrangements) (Wales) Regulations 2006, Admission Authorities are required to review their School Admission Arrangements annually.
3. In order to comply, School Admission Arrangements for implementation in the 2019/2020 academic year (i.e. From September 2019) must be determined on or before 15 April 2018.
4. The Cabinet at its meeting on 16 March, 2017, considered a report on 'School Admission Arrangements 2018/2019 and Coordinated Secondary School Admissions 2018-2020'. This report informed the Cabinet of responses received regarding the Council's consultations on the following:
 - the Council's School Admission Arrangements 2018/19
 - the proposed implementation of Co-ordinated Secondary School Admission Arrangements for the period 2018-2020
5. The Council's draft School Admissions Policy 2019/20 and a consultation document setting out the proposed changes (see Appendix 1 and

Appendix 2 of the draft Cabinet Report) were issued for consultation on 12 December 2017 to all those the Council are required to consult with as set out in the Welsh Government's School Admissions Code (Headteachers, Governing Bodies, Diocesan Directors, neighbouring Local Education Authorities). The consultation closed on 30th January 2018.

Draft Cabinet Report

6. The Draft Cabinet report highlights a number of issues:

- A summary of the Council's Schools Admission Arrangements 2019/20 consultation (para 8 - 12);
- Responses received regarding the draft policy during the consultation period (Para 13 – 21)
- Summary of responses received and appraisal of views expressed (Para 22 – 255)
- Responses received from other consultees (Para 256 – 313)
- Response to Pupil Survey (Para 314 – 320)
- Additional changes proposed to Admissions Policy (para 321 – 326)
- Impact on the Welsh Language (Para 327 – 339)
- Summary Para 340 – 357)

7. The report also includes a number of appendices, copy attached at **Appendix 1 to 8.**

8. The Cabinet is recommended to:

- determine the attached Council's draft School Admission Arrangements 2019/2020 as set out in the Admission Policy 2019/2020.
- note that the School Admission Arrangements 2019/2020 implement Option A for admission to secondary education, as set out in the Admissions Arrangements Consultation Document (Appendix 2).
- note that Cabinet will receive a subsequent report on revisions to school catchment areas for 2020/2021.

Scope of Scrutiny

9. The scope of this scrutiny is for Members to:

- Consider and provide comments on the draft Cabinet report.

Way Forward

10. Councillor Sarah Merry (Deputy Leader and Cabinet Member for Education Employment, Skills), Nick Batchelar (Director of Education and Lifelong Learning), and Officers will present the report to the Committee, and be available to answer any questions Members may have.

11. This report will also enable Members to provide any comments, concerns or recommendations to the Cabinet Member prior to its consideration by Cabinet.

Legal Implications

12. The Scrutiny Committee is empowered to enquire, consider, review and recommend but not to make policy decisions. As the recommendations in this report are to consider and review matters there are no direct legal implications. However, legal implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications. Any report with recommendations for decision that goes to Cabinet/Council will set out any legal implications arising from those recommendations. All decisions taken by or on behalf of the Council must (a) be within the legal powers of the Council; (b) comply with any procedural requirement imposed by law; (c) be within the powers of the body or person exercising powers on behalf of the Council; (d) be undertaken in accordance with the procedural requirements imposed by the Council e.g. Scrutiny Procedure Rules; (e) be fully and properly informed; (f) be properly motivated; (g) be taken having regard to the Council's fiduciary duty to its taxpayers; and (h) be reasonable and proper in all the circumstances.

Financial Implications

13. There are no direct financial implications arising from this report. However, financial implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications.

RECOMMENDATIONS

The Committee is recommended to:

- a) Review and assess the information contained in the draft Cabinet Report, attached at **Appendix A**, together with any information provided at the meeting
- b) Provide any recommendations, comments or advice to the Cabinet Member and / or Director of Education and Lifelong Learning prior to the report's consideration by Cabinet.

Davina Fiore

Director of Governance and Legal Services

9 March 2018

RHAID I'R ADRODDIAD HWN FOD YNGHYD Â FFURFLEN AWDURDODI'R ADRODDIAD 4.C.214

**CYNGOR DINAS CAERDYDD
CYNGOR DINAS CAERDYDD**

CYFARFOD CABINET: 15 Mawrth 2018

TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2019/20

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG

EITEM AGENDA:

PORTFFOLIO: ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

Rhesymau dros yr Adroddiad hwn

1. Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, mae'n rhaid i'r Awdurdodau Derbyn adolygu eu Trefniadau Derbyn i Ysgolion bob blwyddyn.
2. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2019/20.

Cefndir

3. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod, mae'n rhaid penderfynu ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion a weithredir ym mlwyddyn academiaidd 2019/20 (h.y. o fis Medi 2019) ar neu cyn 15 Ebrill 2018.
4. Mae Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdodau derbyn ei dilyn wrth bennu trefniadau derbyn, gan gynnwys datgan bod angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac angen pennu'r trefniadau erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn ysgol sy'n cychwyn ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y gwneir y trefniadau ar ei chyfer.
5. Yng nghyfarfod y Cabinet ar 16 Mawrth 2017 ystyriodd yr aelodau adroddiad am Drefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2018/2019 a oedd yn amlinellu'r angen i asesu pa mor addas yw system y Cyngor o ran dyrannu lleoedd mewn ysgol ar adeg pan mae'r lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yn gostwng, ac wrth i nifer gynyddol o ysgolion gael mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, wrth i'r

cynnydd yn y boblogaeth o ddisgyblion ddechrau gamu ymlaen i addysg uwchradd. Yn dilyn ystyried ymatebion i ymgynghoriad, rhoddodd y Cabinet awdurdod i swyddogion ystyried trefniadau derbyn i ysgolion y Cyngor ymhellach, gan gynnwys ymchwilio'n ehangach i ddewisiadau eraill ac i'w heffeithiau, cyn ymgynghori ar Bolisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar gyfer 2019/20.

6. Yn dilyn hynny, pennwyd yr Athro Chris Taylor, o Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, gan y Cabinet i ymgymryd â'r ymchwil a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar dderbyniadau i ysgolion uwchradd, er y cafodd materion pwysig parthed ysgolion cynradd eu hystyried hefyd.
7. Ystyriodd y Cabinet adroddiad ymchwil y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2017 a threfnwyd ymgynghoriad ar y trefniadau er mwyn ceisio ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil drwy symleiddio'r meini prawf presennol, a gwahoddwyd sylwadau ar y dewisiadau eraill o ran derbyn i ysgolion uwchradd.

Materion

Crynodeb o Ymgynghoriad Trefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2019/20

8. Cyflwynwyd Polisi Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2019/20 a dogfen ymgynghori'n nodi'r newidiadau a gynigwyd (gweler Atodiad 1 ac Atodiad 2) ar gyfer ymgynghoriad ar 12 Rhagfyr 2017 gyda phawb y mae angen i'r Cyngor ymgynghori â nhw fel y nodir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (Penaethiaid, Cyrff Llywodraethu, Cyfarwyddwyr Esgobaethol, Awdurdodau Addysg Lleol cyfagos). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ionawr 2018.
9. Cyhoeddwyd y Polisi, y ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor, a roddodd gyfle i rieni a phartïon eraill â diddordeb gyflwyno sylwadau. Gofynnwyd am ddychwelyd ymatebion erbyn 30 Ionawr 2018.
10. Ceir y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd arfaethedig ar gyfer 2019/20 ar dudalennau 9 a 10 y ddogfen ymgynghori (Atodiad 2).
11. Cynhaliwyd deng sesiwn galw heibio yn rhan o'r ymgynghoriad, lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau.
12. Yn ogystal, cyflwynwyd arolwg disgyblion ar-lein i ysgolion ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd yn gofyn iddynt nodi beth sy'n bwysig ganddyn nhw wrth feddwl am fynd i'r ysgol.

Ymatebion a dderbyniwyd ynghylch y polisi drafft yn ystod y cyfnod ymgynghori.

13. Derbyniwyd cyfanswm o 1,202 ymateb i'r ymgynghoriad (gan gynnwys chwech ymateb a oedd yn dyblygu atebion eraill). O'r rhain, daeth 517 i law trwy'r ymgynghoriad ar-lein, roedd 413 yn ymatebion ar-lein gan ddisgyblion i arolwg disgyblion, a derbyniwyd y gweddill drwy e-bost neu ar ffurf copi caled o ffurflen ymateb yr ymgynghoriad.
14. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Fforwm Derbyniadau Caerdydd
 - Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd
 - Esgobaeth Llandaf
 - Esgobaeth Mynwy
 - Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol y Cyngor
 - Jenny Rathbone AC
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Birchgrove
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Howardian
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc y Rhath
 - Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica
 - Corff Llywodraethu Ysgol Hamadryad
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch
 - Pennaeth Ysgol Pencae
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd
 - Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
 - Cyfreithwyr Albany
 - Grŵp Gweithredu dros Blant Marlborough
 - Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
15. Gallwch weld copïau o'r ymatebion llawn yn Atodiad 3.
16. Roedd y farn a fynegwyd yn ymwneud yn bennaf â'r cynnig i waredu'r maen prawf cyfeirio brodyr a chwiorydd yn y meini prawf pan fo gormod o geisiadau am leoedd mewn ysgolion uwchradd, y cynnig i gynnwys maen prawf yn ymwneud â phresenoldeb mewn ysgol gynradd fwydo yn y meini prawf pan fo gormod o geisiadau am leoedd mewn ysgolion uwchradd, dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd a'r galw am leoedd/achosion pan fo mwy o geisiadau na lleoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd.
17. Dim ond rhai sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r newidiadau a gynigir i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran addysg feithrin ac addysg gynradd, a'r trefniadau derbyn eraill.
18. Ceir crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 4. Mae'r dadansoddiad yn nodi bod rhan fwyaf yr ymatebion o blaid, neu ddim yn mynegi barn ar, y newidiadau a gynigir i'r meini

prawf derbyn pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran addysg feithrin, cynradd ac uwchradd.

19. Roedd rhan fwyaf yr ymatebion o blaid Opsiwn B y meini prawf derbyn pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran addysg uwchradd.
20. Ceir crynodeb o'r dadansoddiad o'r 413 ymateb a dderbyniwyd i'r arolwg disgyblion yn Atodiad 5. Mae'r dadansoddiad yn nodi mai'r blaenoriaethau i ddisgyblion wrth ystyried beth sy'n bwysig ganddyn nhw wrth feddwl am fynd i'r ysgol, yn nhrefn pwysigrwydd, yw: agosrwydd at y cartref; mynychu'r un ysgol â brodyr a chwiorydd; mynd i'r ysgol gyda chyfoedion o'r ysgol gynradd a blaenoriaethu derbyn plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
21. Mae'r farn a fynegwyd yn rhan o'r ymgynghoriad wedi'i nodi mewn ffont *italig* isod ac mae'r ymatebion wedi'u grwpio yn ôl y materion a nodir lle bo'n briodol. Gallwch weld ymateb y Cyngor i bob pwynt a nodir isod, dan y pennawd "Dadansoddiad o'r farn a fynegwyd".

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a dadansoddiad o'r farn a fynegwyd

Ymateb gan Fforwm Derbyniadau Caerdydd

22. Rôl y Fforwm Derbyniadau yw rhoi dull i awdurdodau derbyn ac unrhyw bartion â diddordeb allweddol eraill drafod effeithiolrwydd y trefniadau derbyn lleol, ystyried sut y dylid ymdrin â materion derbyn anodd a rhoi cyngor i awdurdodau derbyn ar ffyrdd eraill y mae modd gwella eu trefniadau. Mae'r Fforwm Derbyniadau'n cynnwys cynrychiolwyr o Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, yr Esgobaeth Gatholig, Penaethiaid yn y gymuned, ysgolion sefydledig ac ysgolion ffydd, a chynrychiolydd sy'n rhiant-lywodraethwr.
23. Roedd ymateb y Fforwm Derbyniadau'n cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
24. *Roedd y Fforwm yn cefnogi'r newidiadau a gynigir i feini prawf y derbyniadau meithrin.*
25. *Roedd y Fforwm yn cefnogi'r newidiadau i'r meini prawf cynradd er mwyn sicrhau bod y meini prawf derbyn yn ystyried anghenion teuluoedd yn briodol ac yn deg o ystyried patrwm newidiol darpariaeth addysg nawr ac yn y dyfodol.*
26. *Gallai diddymu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd', o ystyried nifer uchel y newidiadau i ddalgylchoedd a/neu gynigion trefn ysgolion a pha mor aml y mae'r newidiadau'n digwydd, arwain at roi teuluoedd mewn ardaloedd newidiol iawn dan anfantais, yn benodol ar lefel gynradd pan fyddai'r her logistaidd o gludo brodyr a chwiorydd i ysgolion gwahanol yn peri'r anawsterau mwyaf. Yn ogystal, gallai'r polisi cenedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg arwain at newidiadau pellach ac mae'n bosibl yr effeithir ar*

y sector hwn yn fwy ar y cyfan oherwydd y newidiadau a ddisgwylir yn y dyfodol, yn ogystal â'r twf a ddisgwylir yn gysylltiedig â thai CDLI. Felly, mae'r Fforwm yn argymhell y dylid cadw'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar lefel cynradd, ac y dylid ychwanegu amrywiad i'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' (maen prawf 3b ar hyn o bryd) yn syth uwchben y maen prawf 'byw yn y dalgylch'.

27. *Mae'r Fforwm yn argymhell y dylid diddymu'r maen prawf cyfeirio brodyr a chwiorydd (meini prawf 3b) yn ôl y cynnig.*
28. *Mewn perthynas â derbyniadau i addysg uwchradd, mae'r Fforwm yn cydnabod mantais pontio gyda chyfoedion fel y nodir yn Opsiwn B fodd bynnag, gallai gweithredu Opsiwn B roi teuluoedd a oedd yn awyddus i roi addysg Gymraeg i'w plant ac a benderfynont wedyn nad fyddai'n addas ar eu cyfer plant dan anfantais pe dymument fynd yn ôl i ysgol Saesneg.*
29. *Mae llawer o blant sy'n mynd i ysgolion cynradd yr eglwys y methu â llwyddo i gael lle mewn ysgol uwchradd ffydd, a byddai Opsiwn B yn eu rhoi dan anfantais wrth wneud cais am le mewn ysgol uwchradd gymunedol.*
30. *Hefyd, gallai gweithredu Opsiwn B effeithio ar ardaloedd yn y ddinas lle mae llawer o fudo, gan roi plant a fyddai'n gorfod symud heb fod bai ar y teulu dan anfantais bellach o ystyried y gallai llawer ohonynt fod eisoes yn agored i niwed.*
31. *Roedd y Fforwm o blaid Opsiwn A.*
32. *Roedd y Fforwm yn croesawu symleiddio'r meini prawf i'w gwneud nhw'n haws i deuluoedd eu deall.*

Ymateb i farn Fforwm Derbyniadau Caerdydd

33. *Nodir cefnogaeth y Fforwm Derbyniadau i'r newidiadau arfaethedig i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd derbyn i addysg feithrin a chynradd.*
34. *Nodir cefnogaeth y Fforwm dros gadw'r 'maen prawf cyfeirio brodyr a chwiorydd' 3a ar gyfer derbyniadau i ysgol gynradd.*
35. *Cynigwyd gwaredu maen prawf 3a a 3b (cynradd) a 2a a 2b (uwchradd) i symleiddio a lleihau nifer y meini prawf. Mae'r meini prawf hyn yn rhoi blaenoriaeth i blant y cyfeiriwyd eu brodyr a chwiorydd at ysgol arall gan y Cyngor gan fod yr ysgol arall yn y dalgylch o'r blaen, ac i frodyr a chwiorydd na fu modd iddynt fynd i'r ysgol ddalgylch a gyfeiriwyd wedyn at ysgol arall.*
36. *Prin yw'r ceisiadau (0.06% o'r holl ddewisiadau ysgol) a gyflwynwyd am fynediad at ysgol yn 2017 a fyddai'n bodloni'r meini prawf hyn. Cafodd saith lle eu dyrannu dan y meini prawf hyn ar gyfer derbyn i*

ysgol yn 2017, byddai pedwar ohonynt wedi'u derbyn ar sail meini prawf eraill.

37. Nid oedd llawer o'r ymatebion ymgynghoriad a dderbyniwyd gan gynnwys ymatebion y Fforwm Addysg Gymraeg, Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Ysgol Pencae, RhAG a rhieni yn cefnogi'r cynnig i waredu maen prawf 3a (cynradd) a/neu 2a (uwchradd) gan fod hyn wedi rhoi sicrwydd i'r rhieni a gofrestrodd plant mewn ysgolion a all fod yn destun newidiadau i ffiniau dalgylch.
38. Mae rhaglen fuddsoddi Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, a gymeradwywyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys nifer o newidiadau i ddarpariaeth ysgol uwchradd Saesneg gan gynnwys cynyddu capasiti ysgolion. Er mwyn gallu sicrhau bod capasiti arfaethedig ysgolion yn cyfateb yn well â dalgylchoedd yr ysgolion cynradd, mae'n debygol y bydd angen gwneud llawer o newidiadau i'r dalgylchoedd hyn a dalgylchoedd ysgolion eraill.
39. Mae'r mater hwn yn berthnasol iawn i'r sector cyfrwng Cymraeg, y bu llawer o newidiadau i'w ddalgylchoedd yn y deng mlynedd diwethaf oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, a bu'n rhaid gwneud newidiadau o ran trefn.
40. Roedd ymateb ffurfiol y Fforwm Addysg Gymraeg hefyd yn awgrymu y dylai'r Cyngor gadw maen prawf 3a (cynradd) a ehangu hyn i gefnogi ysgolion newydd eu sefydlu ac sydd heb ddalgylch, er mwyn parhau i gynyddu yn nifer y disgyblion sy'n dewis addysg Gymraeg, ac felly i gynorthwyo'r Cyngor wrth weithredu ei Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog 5 mlynedd.
41. Felly, mae'r Cyngor yn cynnig y dylid ychwanegu'r maen prawf canlynol fel maen prawf â blaenoriaeth uchel yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer derbyn i addysg gynradd:
'Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol, a dderbyniwyd cyn y newid i'r dalgylch'.

Byddai'r Polisi Derbyn yn cynnwys gwybodaeth yn egluro hyn:

- a) Os yw brawd neu chwaer hyn wedi cael lle ac yn dal i fynychu ysgol a oedd yn ysgol y dalgylch, os yw'r rhiant yn dymuno, bydd y Cyngor yn derbyn brodyr a chwiorydd iau i'r ysgol ddalgylch flaenorol honno.
 - b) Os yw brawd neu chwaer hyn wedi cael lle ac yn dal i fynychu ysgol gymunedol newydd ei sefydlu sydd heb ddalgylch penodol, os yw'r rhiant yn dymuno, bydd y Cyngor yn derbyn brodyr a chwiorydd iau i'r ysgol honno.
42. Nodir cefnogaeth y Fforwm Derbyniadau dros Opsiwn A o ran derbyniadau i addysg uwchradd.

Ymateb gan y Fforwm Addysg Gymraeg (WEF)

43. Rôl y Fforwm Addysg Gymraeg yw cyfrannu at ddatblygu a gweithredu Cynllun Strategol Addysg Gymraeg; cyfrannu at gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg rhagweithiol; cyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at yr uchelgais o ran ymgorffori addysg Gymraeg yn Strategaeth Caerdydd Ddwieithog (2017-2022).
44. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr y blynyddoedd cynnar, Penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd, cynrychiolwyr addysg uwch ac addysg bellach ac aelodau sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, Rhieni dros Addysg Gymraeg, Menter Caerdydd a Menter Iaith.
45. Roedd ymateb y Fforwm Addysg Gymraeg yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
46. *Mae'r materion sy'n effeithio ar dderbyniadau i'r sector cyfrwng Cymraeg yn wahanol i'r materion sy'n effeithio ar ysgolion cyfrwng Saesneg a'r teuluoedd sy'n eu dewis.*
47. *Er bod digonolrwydd lleoedd addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn dal i beri pryder mewn rhai rhannau o'r ddinas, roedd y Fforwm yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig o ran y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd meithrin.*
48. *Roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r cynnig i waredu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chworydd', o ystyried nifer uchel y newidiadau i ddalgylchoedd a/neu gynigion o ran trefn ysgolion a pha mor aml y mae'r newidiadau'n digwydd a all arwain at deuluoedd yn cael eu rhoi dan anfantais mewn ardaloedd newidiol iawn, yn benodol ar lefel gynradd pan fyddai'r her logistaidd o gludo brodyr a chworydd i ysgolion gwahanol yn achosi'r anawsterau mwyaf. Yn ogystal, gallai'r polisi cenedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg arwain at newidiadau pellach ac mae'n bosibl yr effeithir ar y sector hwn yn fwy ar y cyfan oherwydd y newidiadau a ddisgwylir yn y dyfodol, yn ogystal â'r twf a ddisgwylir yn gysylltiedig â thai CDLI.*
49. *Felly, mae'r Fforwm yn argymhell y dylid cadw'r maen prawf yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd cynradd arfaethedig, ac y dylid ychwanegu amrywiad i'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chworydd' presennol (maen prawf 3a) yn syth uwchben y maen prawf 'byw yn y dalgylch'.*
50. *Cafwyd lled-gytundeb ynghylch y meini prawf arfaethedig fel y'i nodwyd yn Opsiynau A a B ar gyfer derbyn i addysg uwchradd. Roedd y Fforwm Addysg Gymraeg yn ffafrio Opsiwn B ar y cyfan, oherwydd ystyriwyd bod trosglwyddo disgyblion gyda'u cyfoedion o'r ysgol gynradd yn bwysig. Roedd aelodau'n cytuno bod anfanteision i rai fel y nodwyd yn y ddogfennaeth ategol ond, wrth bwysu a mesur,*

roeddent o'r farn bod y manteision yn fwy o ystyried yr effaith ar blant a theuluoedd sy'n ceisio cael mynediad at addysg Gymraeg yng nghyd-destun Caerdydd. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio ar gyfer cwricwlwm effeithiol ac effeithlon a chynnig proses bontio o safon. Credwyd y byddai maen prawf sy'n galluogi cyfoedion i symud gyda'i gilydd lle bo'n bosibl yn cefnogi hyn.

51. *Roedd y Fforwm Addysg Gymraeg yn cytuno y byddai gwaredu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' yn briodol yn y cyfnod uwchradd ac yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu lleoedd yn fwy effeithlon yn benodol o ystyried y newidiadau posibl allai effeithio ar y sector yn y blynyddoedd i ddod.*

Ymateb i farn y Fforwm Addysg Gymraeg (WEF)

52. Er bod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel cynradd ac uwchradd, ac y bu llawer o newidiadau yn nhrefn ysgolion a dalgylchoedd, nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y dylid ystyried anghenion ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wahanol nac ychwaith y byddai'n fanteisiol creu meini prawf eraill ar sail iaith yr addysgu.
53. Nodir cefnogaeth y Fforwm dros y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg feithrin.
54. Trafodir y pryderon a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig diddymu'r maen prawf cyfeirio brodyr a chwiorydd o ystyried y newidiadau yn y dyfodol yn deillio o bolisi cenedlaethol, gweithredu rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a sefydlu ysgolion newydd o ganlyniad i ddatblygu safleoedd CDLI ym mharagraffau 34 – 41.
55. Nodir cefnogaeth y Fforwm dros gadw'r 'maen prawf cyfeirio bodyr a chwiorydd' 3a ar gyfer derbyniadau i ysgol gynradd.
56. Nodir cefnogaeth y Fforwm dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd, a'r rhesymeg dros hyn.

Ymateb Esgobaeth Llandaf

57. Roedd ymateb Esgobaeth Llandaf yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3):
58. *Mae Esgobaeth Llandaf yn brif ddarparwr addysg, ac yn un hirdymor. Mae'n ceisio perthnasau agos a phwrpasol gyda'i holl bartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob plentyn.*
59. *Nid yw Opsiwn A yn cyfeirio at ysgolion bwydo fel un o'r meini prawf, ond mae'n cyfeirio at fyw mewn dalgylch diffiniedig. Fodd bynnag, mae Opsiwn B yn cyfeirio at blant sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol, un ai heb frawd neu chwaer neu gyda brawd neu chwaer sydd eisoes yn yr ysgol uwchradd, ac sy'n mynychu ysgol fwydo gysylltiedig.*

60. *Nid yw unrhyw ysgol yr Eglwys yng Nghymru wedi'i chynnwys yn y rhestr honno ac nid oes cydnabyddiaeth o'r ffaith bod cysylltiadau cryf ac ystyrlon eisoes ag ysgolion uwchradd lleol, yn aml yn fwy na'r partneriaethau anffurfiol sy'n diffinio ysgol fwydo. Mae'r Adran 7.7 y Polisi Derbyn i Ysgolion drafft yn benodol yn nodi bod gan y rhai sy'n mynychu ysgolion bwydo flaenoriaeth dros y rhai yn y dalgylch nad ydynt yn mynd i ysgol fwydo. Gan ddefnyddio diffiniad yr Awdurdod o ysgol fwydo fel un sydd â chysylltiadau anffurfiol, dylai'r rhain gynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.*
61. *Byddai cyflwyno Opsiwn B o ran meini prawf pan fo gormod o geisiadau na lleoedd yn anfanteisiol iawn i blant o ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru nad ydynt yn dymuno trosglwyddo i un o ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru neu sydd heb gael lle mewn un ohonynt.*
62. *Byddai plant o gefndir lleiafrif ethnig, yn enwedig y rhai sydd â rhieni â sgiliau llythrennedd neu Saesneg gwael, dan anfantis fawr gan eu bod nhw'n llai tebygol o allu fforddio'r drafnidiaeth i ac o ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru. Byddai defnyddio ysgolion bwydo fel maen prawf derbyn yn achosi hollt oherwydd byddai argraff rhieni o Ysgolion Eglwysig ac ysgolion cymunedol yn eu gwahaniaethu'n fwyfwy.*
63. *Mae'r Polisi Derbyn i Ysgolion presennol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru E.3. Mae hyn wedi bod yn amodol ar ddatganiad o'r effaith ar gydraddoldeb yr awdurdod sy'n nodi na chaiff awdurdod derbyn wahaniaethu ar sail anabledd, ailbennu rhywedd, hil ac ymhlith nodweddion eraill, crefydd na chred. Nid yw'n amlwg a fyddai Opsiwn B yn bodloni'r gofyn hwn neu'n ei dorri.*
64. *Rydym yn teimlo'n gryf iawn y byddai Opsiwn B fel cyfres o feini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer ysgolion uwchradd yn anfanteisiol iawn i blant o ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru. Mae ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru wedi bod â chysylltiadau pwrpasol ag ysgolion uwchradd lleol am nifer o flynyddoedd ac yn bodloni diffiniad yr awdurdod o ysgol fwydo.*
65. *Pe byddai Opsiwn B yn cael ei dderbyn, rydym yn credu'n gryf y dylid ystyried ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru yn ysgolion bwydo mewn unrhyw Bolisi Derbyn i Ysgolion i'r dyfodol i sicrhau cyfle cyfartal. Mae'r Esgobaeth yn argymhell Opsiwn A.*

Ymateb i farn Esgobaeth Llandaf

66. Nodir cefnogaeth Esgobaeth Llandaf dros Opsiwn A o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
67. Nodir y pryderon a fynegwyd ar gynnwys maen prawf 'ysgol fwydo' (Opsiwn B) ac effaith hyn ar blant sy'n mynd i ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru.

68. Mae dadansoddiad o'r data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2017) mwyaf diweddar (Atodiad 6) yn nodi nad oes llawer o ddilyniant rhwng niferoedd derbyn agrededig yr ysgolion cynradd cymunedol a'r ysgolion uwchradd y mae'r ysgolion cynradd hyn yn eu dalgylchoedd.
69. Cynhaliwyd ymarfer cymharu rhwng niferoedd y disgyblion sy'n mynd i ysgolion bwydo sydd hefyd yn byw yn y dalgylchoedd yn erbyn Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yr ysgol uwchradd gysylltiedig perthnasol, yn y garfan a fydd yn symud i addysg uwchradd yn y flwyddyn ysgol 2019/20. Dengys hyn fod gan 4 allan o'r 13 ysgol uwchradd (Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Llanisien) fwy o ddisgyblion yn byw yn eu dalgylchoedd a oedd yn mynd i ysgolion bwydo nag oedd o leoedd ar gael iddynt yn yr ysgolion uwchradd perthnasol.
70. Nid yw ychwanegu ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru fel ysgolion bwydo ar gyfer ysgolion uwchradd cymunedol wedi'i gynnig gan y byddai hyn, mewn llawer o ardaloedd yng Nghaerdydd, yn gwaethygu'r cydbwysedd rhwng nifer y disgyblion a'r lleoedd mewn ysgolion cynradd bwydo a nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cymunedol.
71. Byddai gweithredu meini prawf yn seiliedig ar ysgolion bwydo, fel y'i cyflwynir, yn atal y disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru rhag cael eu hystyried dan y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd uwch ar gyfer cael lle yn ysgol uwchradd gymunedol eu dalgylch. O ganlyniad, byddai'r plant sy'n mynd i ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf blaenoriaeth ar gyfer cael lle mewn ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru hefyd dan anfantais wrth wneud cais am lle mewn ysgolion uwchradd cymunedol.

Ymateb Ymddiriedaeth Esgobaeth Trefynwy

72. Roedd ymateb Ymddiriedaeth Esgobaeth Trefynwy yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3):
73. *Rydym yn deall bod prosesau derbyn i ysgolion yn gallu bod yn gymhleth iawn ac, ar adegau, yn ddadleuol ac rydym yn deall bod pobl am i ni ystyried prosesau eraill a fyddai o bosibl yn well i gymunedau Caerdydd. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw ddewisiadau eraill sicrhau eu bod nhw'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.*
74. *Ar gyfer derbyniadau i addysg uwchradd, cynigir dau ddewis arall – Opsiwn A ac Opsiwn B – a chynnwys maen prawf 'ysgol fwydo' yn Opsiwn B yw'r gwahaniaeth rhwng yr opsiynau. Mae Atodiad 2 y ddogfen bolisi drafft yn nodi manylion ysgolion bwydo sy'n berthnasol i Opsiwn B, fodd bynnag, nid yw ysgolion eglwysig wedi'u cynnwys er*

u bod wedi'u rhestru yn Atodiad 1. Felly, mae'r effaith y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf a nodir yn nhudalennau 11-13 o gymharu effaith Opsiwn A a B yn ddiffygiol, o ganlyniad i gyfresi data anghyflawn nad ydynt yn cynnwys yr effaith sylweddol ar blant o ysgolion bwydo eglwysig.

75. *Er bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r ddogfen ymgynghori yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gyfle cyfartal, drwy gyflwyno cynnig gyda maen prawf ysgol fwydo sy'n anwybyddu ysgolion eglwysig, mae'n amlwg bod effaith wahaniaethol negyddol iawn. Mae Adran 3.7 yn nodi eich bod yn ystyried na fydd effaith wahaniaethol ar bobl gyda chrefyddau gwahanol, credoau neu ddiffyg cred o ganlyniad i'r cynigion derbyn i ysgolion Rydym yn herio hyn yn awchus. Drwy gyflwyno cynnig gyda maen prawf ysgol fwydo sy'n anwybyddu ysgolion eglwysig, mae'n amlwg bod effaith wahaniaethol negyddol dros ben.*
76. *Does dim digon o leoedd mewn ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd i bawb sy'n gadael ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru. Mae llawer o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn sefydledig ac yn ysgolion bwydo sylweddol i ysgolion uwchradd cymunedol, ac mae ganddynt bartneriaethau cryf â nhw. Does dim ots os yw niferoedd y disgyblion yn llai na'r niferoedd sy'n dod o ysgolion eraill, mae hyn yn cynrychioli ymarfer gwahaniaethol.*
77. *Mae Opsiwn B yn amlwg yn gwahaniaethu yn erbyn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, fel cyd-ddarparwyr addysg, ac yn ddiffygiol iawn, gan ei gwneud yn opsiwn nad yw'n gymwys ei ystyried. Mae Esgobaeth Trefynwy'n argymhell y dylid derbyn Opsiwn A fel y mae'r cynnig ar hyn o bryd.*

Ymateb i farn Ymddiriedaeth Esgobaeth Trefynwy

78. Nodir cefnogaeth yr Esgobaeth dros Opsiwn A o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
79. Nodir y pryderon a fynegwyd dros gynnwys maen prawf 'ysgol fwydo' (Opsiwn B) ac effaith hyn ar blant sy'n mynd i ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru.
80. Trafodir materion yn ymwneud â chynnwys ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru fel ysgolion bwydo ym mharagraffau 68 - 71.
81. Nodir bod 240 lle yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ac mae 160 o'r lleoedd hynny'n cael eu pennu ar sail meini prawf ffydd, a 180 lle arall yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, a 150 o'r lleoedd hynny'n cael eu pennu yn ôl meini prawf ar sail ffydd, sy'n gwasanaethu disgyblion Caerdydd a'r Fro.
82. Mae 305 o leoedd fesul grŵp blwyddyn yn ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd.

83. Er bod digon o leoedd mewn ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd ar gyfer y disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru, byddai angen i Gyrrff Llywodraethu bob ysgol adolygu eu trefniadau derbyn er mwyn gwneud lle ar gyfer pob disgybl sy'n mynd i ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd.

Ymateb Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol y Cyngor

84. *Mae'r grŵp yn cefnogi'r newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg feithrin.*
85. *O ran derbyn i addysg gynradd, mae'r grŵp yn cydnabod bod y Cyngor yn ceisio symleiddio'r meini prawf derbyn er mwyn sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn derbyn mwy o wybodaeth ac yn gallu defnyddio'r meini prawf derbyn yn well, gan leihau nifer y plant sy'n methu â chael lle yn eu hysgol gynradd leol.*
86. *Fodd bynnag, mae'r grŵp yn poeni am effaith y newidiadau arfaethedig i'r rheol brodyr a chwiorydd ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a mynediad ati. Mae dalgyloedd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy na rhai ysgolion cyfrwng Saesneg, sy'n peri anawsterau ychwanegol i rieni sy'n wynebu'r posibilrwydd o fod â phlant mewn ysgolion gwahanol. Golyga hyn y gall y cynigion gael effaith andwyol ar deuluoedd sy'n ceisio addysg Gymraeg.*
87. *O ran derbyniadau i addysg uwchradd, byddai defnyddio agosrwydd yn unig wrth flaenoriaethu dyraniadau lleoedd mewn ysgol â mwy o geisiadau na lleoedd yn golygu dibynnu ar un mesur sy'n annheg a fyddai'n cael ei gamdefnyddio o bosibl.*
88. *Mae risg y bydd newid meini prawf derbyn er mwyn mynd i'r afael ag un elfen o annhegwch yn rhoi plant dan anfantaes er y byddai o fudd i rai eraill sy'n methu â chael lle ac sydd mewn ysgol gynradd fwydo ac o'r herwydd yn llai tebygol o gael lle yn eu hysgol uwchradd leol o ganlyniad i'r meini prawf a nodir yn Opsiwn B. Byddai hyn yn arwain at fethu cael lle yn eu hysgolion cynradd na chwaith yn eu hysgol uwchradd leol, ac nid yw hyn yn dderbyniol.*
89. *Roedd y grŵp eisoes wedi cynnig cyflwyno system bwyntiau yn seiliedig ar agosrwydd at ysgol uwchradd a pha mor hir yr oedd pobl wedi byw yn nalgyloch yr ysgol honno, ac roeddem yn siomedig nad yw hyn wedi cael ei ystyried.*
90. *O ystyried y ddau opsiwn a gyflwynwyd, mae'r grŵp o'r farn nad yw'r norm a gynigir yn Opsiwn A yn mynd i'r afael â'r annhegwch y mae llawer o deuluoedd yn ei brofi. Opsiwn B, er gwaethaf ei ddiffygion, yw'r gorau o'r ddau. Byddai rhoi'r rheolau dalgyloch a brodyr a chwiorydd ynghlwm â bob mawn prawf, yn ychwanegol i faen prawf ysgolion bwydo yn unig yn lliniaru rhywfaint ar yr annhegwch anfwriadol sydd yn y system fwydo.*

91. *Opsiwn arall gwell fyddai'r system bwyntiau a gynigwyd yn flaenorol.*
92. *Barn y grŵp yw y dylai'r Cyngor weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddarau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion i alluogi defnyddio cymhwysedd Grant Datblygiad Disgyblion fel maen prawf ar gyfer derbyn i ysgolion.*
93. *Roedd hefyd yn bryderus iawn nad oedd fawr trafodaeth ar y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y ddinas yn yr adroddiad Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD). Er bod cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae hyn yn ymwneud ag ymrwymadau statudol yn hytrach nac unrhyw asesiad pellach a gynhaliwyd gan y Cyngor ar effaith y newidiadau arfaethedig ar addysg Gymraeg a'r rhai sy'n ceisio addysg Gymraeg.*
94. *Mae'r grŵp ar ddeall nas ymgysylltwyd yn ffurfiol â'r Fforwm Addysg Gymraeg yn y broses a byddai'n siomedig iawn pe na byddai'r Cyngor yn defnyddio rhanddeiliad fel hyn wrth ddeall effaith y newidiadau arfaethedig ar sector sydd wedi profi twf sylweddol mewn blynyddoedd diweddar a fydd yn tyfu eto.*

Ymateb i farn Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol y Cyngor

95. Nodir cefnogaeth y Grŵp dros y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf derbyn i addysg feithrin.
96. Mae'r pryderon a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i ddiddymu'r maen prawf yn ymwneud â chyfeirio brodyr a chwiorydd yn cael eu trafod ym mharagraffau 34 - 41.
97. Fel y nodwyd yn yr adroddiad Cabinet ar 16 Mawrth 2017, Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2018/19 a Threfniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol 2018 – 2020, ni fyddai ychwanegu maen prawf 'hyd cyfnod byw yn y dalgylch' yn cael ei gydnabod fel arfer gorau.
98. Cyfeirir at hyn yng Nghod Derbyn i Ysgolion 2.63 Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at ysgolion cynradd bwydo ac yn nodi os yw Awdurdodau Derbyn yn defnyddio'r maen prawf hwn, bod angen bod yn ofalus oherwydd gall trefniadau o'r fath roi plant sy'n symud i ardal yn hwyr dan anfantais, a dylid ystyried effaith trefniadau o'r fath ar allu ysgol i wasanaethu ei chymuned leol. Byddai'n rhaid bod yn ofalus, a byddai'r un anfantais posibl, yn berthnasol i faen prawf 'hyd y cyfnod byw yn y dalgylch'.
99. Dan Adran 19 Deddf Cydraddoldeb 2010, ni chaniateir gwahaniaethu anuniongyrchol a dan Adran 85 ni chaniateir gwahaniaethu mewn perthynas â Derbyn i Ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ym mhob un o'i benderfyniadau. Byddai maen prawf 'hyd cyfnod byw yn y dalgylch' yn enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol posibl, gan y byddai'r

rhai dan anfantais oherwydd y maen prawf hyn yn fwy tebygol o fod o grwpiau cymdeithasol sy'n agored i niwed gyda nodweddion a ddiogelir; er enghraifft, plant sipsiwn a theithwyr, ceiswyr lloches/ffoaduriaid a rhai disgyblion tramor eraill.

100. Gwnaeth yr adroddiad WISERD ar Feini Prawf Derbyn a gomisiynwyd gan y Cyngor yn 2017, a ystyriwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2017, nodi sylwadau o adolygiad o drefniadau awdurdodau lleol, gan gynnwys:
- Y trefniadau derbyn hawsaf eu deall yw'r rhai sy'n cynnwys nifer gymharol fychan o feini prawf
 - Y trefniadau derbyn oedd fwyaf anodd eu deall oedd y rhai lle cyflwynir meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer pob ysgol ar wahân.
 - Mae meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd yn anos eu deall pan fônt yn nodi grwpiau blaenoriaeth yn hytrach na meini prawf i'w blaenoriaethu.
 - Gellid ystyried meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd sydd â blaenoriaeth gyfartal yn gymhleth i ymgeiswyr wrth geisio deall graddfeydd y meini prawf.
101. Ni fyddai meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd yn seiliedig ar bwyntiau yn eglur ac yn hawdd i bob rhiant eu deall.
102. Ymgynghorwyd â'r Fforwm Addysg Gymraeg yn rhan o'r ymgynghoriad statudol gyda phob partner arall.

Ymateb Jenny Rathbone AC

103. Roedd ymateb Jenny Rathbone AC yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3):
104. *Mae dalgylchoedd yn annheg ac yn achosi anawsterau ariannol sylweddol i deuluoedd yn Llanedern/Pentwyn oherwydd nad oes ysgol anghrefyddol yno mwyach.*
105. *Mae angen ystyried newid dalgylchoedd i sicrhau ffrwd dderbyn gynhwysfawr a chytbwys ym mhob ysgol, gan ddefnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) i dargedu adnoddau i ddisgyblion tlotach a chynnig llwybrau cerdded/beicio diogel i bob ysgol gyda hyfforddiant cymhwysedd beicio a chynlluniau benthyg ar gyfer prynu beics o lefel gynradd ymlaen.*

Ymateb i farn Jenny Rathbone AC

106. Mae'r Cyngor yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod trefniadau dalgylch yn eglur a bod gwybodaeth am dderbyniadau yn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch lle y dylent ymgeisio am ysgol i'w plentyn/plant.

107. Mae Llanedern a Pentwyn yn cael eu gwasanaethu gan ddwy ysgol uwchradd gymunedol, sef Ysgol Uwchradd Llanisien ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern.
108. Mae trefniadau derbyn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant hefyd yn cynnig 80 o leoedd agored sy'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n mynd i Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru nad yw'r teulu'n bodloni'r meini prawf derbyn am le sefydledig, ac yna i blant y mae eu teuluoedd yn byw yn nalgylchoedd Ysgolion Cynradd Bryn Celyn, Glyncoed, Llanedern a Springwood nad ydynt yn bodloni'r meini prawf derbyn am le sefydledig.
109. Trafodwyd yr awgrymiad i ystyried sut y gellid helpu'r rhai mewn tloidi yn Adroddiad WISERD a ystyriwyd yn y cyfarfod Cabinet ar 16 Tachwedd 2017.
110. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod Cabinet ar 16 Tachwedd 2017, bydd swyddogion yn ystyried sut gall meini prawf derbyn eraill effeithio'n bositif ar amrywiaeth a/neu ddisgyblion sydd dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llwynbedw

111. Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llwynbedw yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
112. *O ran derbyniadau i addysg uwchradd, mae'r ysgol yn credu mai Opsiwn A yw'r cynnig mwyaf teg i ddisgyblion a rhieni.*
113. *Mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod cynnig Opsiwn B i ychwanegu maen prawf o ran mynychu ysgol gynradd fwydo yn annheg. Mae llawer o ysgolion yng Nghaerdydd yn derbyn mwy o geisiadau na lleoedd a gall yr opsiwn arwain at blant sy'n byw'n agos iawn at ysgol uwchradd y maent yn dymuno ei mynychu yn methu â gwneud hynny, gan eu bod wedi symud i Gaerdydd ac felly heb fynychu ysgol gynradd leol.*
114. *Gallai Opsiwn B fod yn anodd i deuluoedd gyda phlant sydd ar y gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llwynbedw

115. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn A o ran derbyniadau i addysg uwchradd.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Howardian

116. Roedd ymateb Corff Llywodraethu a Rhieni Ysgol Gynradd Howardian yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).

117. *Mae Opsiwn B ar y cyd â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Caerdydd yn 2020 yn rhoi'r cyfle gorau i'n plant allu symud i ysgol uwchradd eu dalgylch gyda'u grŵp cyfoedion.*
118. *Mae'r ysgolion bwydo arfaethedig yn amlwg ac yn eglur ac wedi'u creu yn rhesymegol.*
119. *Byddai Opsiwn B yn helpu'r ysgol uwchradd leol i gynnal partneriaethau agos gyda'r ysgolion cynradd lleol.*
120. *Mae'r niferoedd derbyn yn yr ysgolion cynradd bron yn gyfartal â nifer derbyn Ysgol Uwchradd Caerdydd a bydd estyniad arfaethedig Ysgol Uwchradd Caerdydd gan ddwy ffrwd ychwanegol yn cynnig digon o gapasiti ar gyfer carfan 2 ffrwd o Howardian o 2022 ymlaen.*
121. *Bydd Opsiwn B yn cynnig parhad addysg i ddisgyblion ac yn galluogi rhan fwyaf y plant yn yr ysgolion bwydo i symud fel grŵp cyfoedion gyda'i gilydd i ysgol uwchradd y dalgylch lleol. Mae hyn yn ategu ac yn cynnal cysylltiadau cymunedol a chymorth cyfoedion ac yn hyrwyddo lles disgyblion, sydd wrth galon diwygiadau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cefnogi agendau cenedlaethol eraill megis Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*
122. *Mae Opsiwn B yn rhoi mwy o sicrwydd i blant yn ein Blwyddyn 6, yn lleihau'r straen ychwanegol a achosir gan eu symud nhw o'u grwpiau cyfoedion sefydledig ac yn gwella llesiant disgyblion ac yn eu tro, eu canlyniadau academaidd.*
123. *Byddai'r prosesau pontio o CA2 i CA3 yn well a byddai cydweithrediad ledled y Cyfnodau Sylfaen yn fwy effeithiol.*
124. *Byddai meini prawf ysgolion bwydo yn sicrhau mewnbwn a sail disgyblion mwy amrywiol o ran ffactorau economaidd-gymdeithasol, y gymuned ac ethnigrwydd, yn hytrach na bod pellter oddi wrth faestref gyfoethog yn ffactor mwy sylweddol.*
125. *Mae Opsiwn B yn creu mwy o gyfleoedd o ran opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Howardian

126. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
127. Cydnabyddir bod Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig agrededig Ysgolion Cynradd Lakeside, Marlborough, Rhydypennau a Pharc y Rhath bron yn gyfartal â Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Uwchradd Caerdydd ac y byddai estyniad arfaethedig Ysgol Uwchradd Caerdydd yn cynnig digon o gapasiti ar gyfer dau ddsbarth mynediad ychwanegol. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraffau 65-65**, nid oes llawer o gysondeb rhwng niferoedd derbyn agrededig ysgolion

cynradd cymunedol ledled Caerdydd a'r ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu eu dalgylchoedd.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough

128. Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
129. *Mae'r Corff Llywodraethu yn dal i boeni bod y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd yn annheg i deuluoedd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Marlborough oherwydd eu pellter daearyddol i'r ysgol uwchradd (Ysgol Uwchradd Caerdydd) o'i chymharu â thair ysgol gynradd bartner arall sy'n agosach.*
130. *Mae'r Corff Llywodraethu'n cynnig y dylai hyd y cyfnod y bu'r teulu yn byw yn y dalgylch fod yn fwy o flaenoriaeth nag agoswydd y cartref at yr ysgol uwchradd (neu faen prawf arall sy'n gwaredu'r annhegwch o agoswydd).*
131. *Mae'r Corff Llywodraethu yn unfryd o blaid Opsiwn B o ran derbyn i ysgolion uwchradd, sy'n cynnig opsiwn llawer tecach i'r gymuned ac yn helpu i ddiddymu'r meini prawf annheg pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar hyn o bryd, sy'n defnyddio'r pellter daearyddol at ysgol uwchradd y dalgylch.*
132. *Bydd Opsiwn B yn galluogi grwpiau ffrindiau yn yr ysgol gynradd i aros gyda'i gilydd wrth bontio i'r ysgol uwchradd ac yn helpu wrth leihau lefel y straen a phryder sy'n bodoli ar hyn o bryd.*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough

133. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
134. Trafodir y pryderon ynghylch agoswydd/hyd cyfnod ym mharagraffau 97 - 99.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc y Rhath

135. Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc y Rhath yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
136. *Mae'r Corff Llywodraethu yn unfryd o blaid dewis Derbyniadau i Ysgolion Uwchradd: Opsiwn B. Dyma yw'r opsiwn gorau a fydd yn sicrhau bod gan rieni plant yr ysgol y cyfle gorau o gael lle i'w plant yn Ysgol Uwchradd Caerdydd os yw'r teulu'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc y Rhath.*
137. *Ystyrir bod pontio i'r ysgol uwchradd yn hanfodol bwysig i les plant felly mae'n bwysig bod plant yn pontio gyda'u carfan/cyfoedion.*

138. *Mae'n hanfodol bwysig amddiffyn yr amrywiaeth y mae Ysgol Gynradd Parc y Rhath yn ei chyflwyno i Ysgol Uwchradd Caerdydd.*
139. *Dylai bod dyletswydd ar bob ysgol uwchradd eglwysig a sefydledig i roi gwybod i rieni bob plentyn Blwyddyn 7 yn y dyfodol ar yr un diwrnod ag y mae'r awdurdod lleol yn rhyddhau'r derbyniadau i blant a fydd yn mynychu ysgolion uwchradd cymunedol.*
140. *Mae'r Corff Llywodraethu'n poeni y bydd plant sy'n dewis addysg Gymraeg neu addysg breifat i'w plant ar lefel ysgol gynradd yn cael lle yn Ysgol Uwchradd Caerdydd pan fyddant eisiau i'w plant newid i'r system Saesneg neu'r system wladol. Ni ddylid caniatáu hyn ar draul plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac sy'n mynd i'w hysgol ddalgylch leol.*
141. *Mae angen i'r Cyngor fod yn strategol ac yn rhagweithiol iawn wrth gyhoeddi cynlluniau posibl ar gyfer addysg uwchradd ledled y ddinas cyn gynted â phosibl - a fydd ysgol uwchradd newydd ym Mhontpennau? Pa ysgol uwchradd y bydd disgwyl i ddisgyblion Ysgol Gynradd Howardian ei mynychu mewn pedair blynedd?*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parc y Rhath

142. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
143. Fel y nodir ym mharagraff 2.23 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau derbyn ac osgoi dryswch i rieni, mae'n rhaid bod dyddiadau cyffredin gan bob awdurdod derbyn mewn unrhyw ardal ALI ar gyfer dychwelyd ceisiadau cynradd ac uwchradd ar gyfer y flwyddyn fynediad arferol. Gellid cytuno ar ddyddiadau cyffredin gwahanol ar gyfer ceisiadau cynradd ac uwchradd.
144. Mae dyddiad cyffredin yr holl ysgolion uwchradd, gan gynnwys ysgolion uwchradd eglwysig a sefydledig wedi bod ar waith ers 2015/16, yn unol â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion.
145. Ni chaiff y Cyngor atal rhieni disgyblion sydd wedi cofrestru mewn ysgolion cynradd Cymraeg neu addysg breifat rhag nodi ysgol gyfrwng Saesneg fel dewis nac ychwaith atal unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys, yn ôl eu dyddiad geni, rhag eu derbyn.
146. Ysgol Uwchradd Llanisien sy'n gwasanaethu Pontpennau. Cafodd pob disgybl sy'n byw ym Mhontpennau a geisiodd am le yn Ysgol Uwchradd Llanisien yn y broses dderbyn ar gyfer mis Medi 2018 le yn yr ysgol.
147. Roedd Cynllun Seilwaith Addysg y Cyngor wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau (CDLI) yn 2013. Mae'r Cynllun Seilwaith yn amlygu cynigion buddsoddi / datblygu ac yn nodi

gofynion seilwaith i'r dyfodol yn seiliedig ar lefel y twf a ragfynegir yng Nghaerdydd, gan gynnwys darpariaeth ysgol uwchradd ychwanegol i wasanaethu datblygiadau tai arfaethedig yng ngogledd ddwyrain Caerdydd. Mae amserlenni'r cynigion hyn yn dibynnu ar amserau'r datblygiadau tai sy'n cael eu cyflwyno.

148. Mae Ysgol Gynradd Howardian yn nalgyloch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Rhestrir trefniadau ysgolion bwydo pob ysgol gynradd ac uwchradd cymunedol ar gyfer derbyn i'r ysgol yn 2019/2020 ym Mholisi Derbyn i Ysgolion drafft 2019/2020 . Yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion LIC, ni chaiff y Cyngor ymgynghori ar drefniadau a fyddai'n weithredol yn 2022/2023. Ni chaniateir ymgynghori ar drefniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022/2023 ond rhwng 1 Medi 2020 a 1 Mawrth 2021.
149. Cadarnhaodd y Cyngor ei raglen fuddsoddi Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ym mis Rhagfyr 2017. Bydd angen ystyried yr adolygu dalgyloedd a sefydlu dalgyloedd newydd, er mwyn cynnig gwell cysondeb o ran maint dalgyloedd a phoblogaeth yn yr ysgol. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath yn cael eu hategu gan newidiadau i ddarpariaeth gynradd a/neu uwchradd a ddaw yn sgil rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

Ymateb Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica

150. Roedd ymateb gan Bennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
151. *Ydych chi'n cefnogi'r trefniadau derbyn meithrin 2019/2020 a gynigir?*
- Ydw
152. *Ydych chi'n cefnogi'r trefniadau derbyn cynradd 2019/2020 a gynigir?*
- Ydw.
153. *Ar y cyfan, mae hyn yn ymddangos yn symlach ac mae'n debyg mai agoswydd yw'r system decaf. Dylai cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd yn y cyfnod cynradd fod yn flaenoriaeth o hyd - mae diddymu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' i'w weld yn annheg os yw'r Cyngor yn gwneud newidiadau i'r dalgyloch tra mae'r teulu yn mynychu'r ysgol.*
154. *Ydych chi'n cefnogi'r trefniadau derbyn uwchradd 2019/2020 a gynigir?* - Nac ydw
155. *Os ydych chi'n cefnogi'r trefniadau a gynigir, pa opsiynau uwchradd sydd orau gennych chi – Opsiwn A*
156. *Byddai cyflwyno system ysgol fwydo yn rhoi plant o ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru dan anfantais sylweddol. Nid oes digon o leoedd ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru i ateb y galw. Byddai plant sydd o gefndir lleiafrifoedd ethnig (yn benodol y rhai y*

mae gan eu rhieni sgiliau Saesneg a/neu sgiliau llythrennedd gwael) dan anfantais yn sylweddol gan eu bod yn llai tebygol o allu fforddio teithio i ac o ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru. Mae llawer o rieni'n dewis ysgolion eglwysig gan fod addysg yn seiliedig ar ffydd yn cael ei hystyried yn elfen hanfodol o unrhyw addysg gyflawn; nid yw'r dewis hwn ar gael i lawer. I ble byddai plant mewn ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru yn mynd? Mae system ysgol fwydo'n creu hollt yn fwy fyth o ran argraff rhieni, a bydd yn rhannu ysgolion ymhellach i ysgolion 'gyda' ac ysgolion sydd 'heb'. Mae hyn yn cyfyngu ar y dewis o ysgolion i bawb.

157. *Mae'n ymddangos mai lleoedd ysgol yn seiliedig ar agosrwydd yw'r ffordd decaf. Ni ddylid ystyried am ba hyd y mae disgybl wedi bod yn byw mewn cyfeiriad. Mae rhai o'n dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed wedi byw mewn cyfeiriadau gwahanol ac wedi bod mewn sawl ysgol wahanol. Ni ddylent fod dan anfantais o ganlyniad i hyn, maent wedi gorfod symud yn aml oherwydd cost uchel llety rhent ac maent eisoes yn agored i dangyflawni oherwydd amddifadedd.*

Ymateb i farn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica

158. *Nodir cefnogaeth y Pennaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i feini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd yn addysg feithrin a chynradd.*
159. *Nodir cefnogaeth y Pennaeth dros Opsiwn A o ran derbyniadau i addysg uwchradd.*
160. *Trafodir y pryderon ynghylch cynnwys maen prawf 'ysgol fwydo' ar gyfer derbyn i addysg uwchradd ym mharagraffau 68 – 71.*

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Hamadryad

161. *Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Hamadryad yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).*
162. *Er bod yr adroddiad WISERD yn trafod yr heriau a wynebhir gan y sector cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfun cyfrwng Saesneg yn benodol, mae'n amlwg nad oes unrhyw drafodaeth am addysg gyfrwng Cymraeg. Mae'n debyg y bydd newid y polisi derbyn ac yn benodol y rheol brodyr a chwirydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg gan fod nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes yn llawn, ac mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ymhellach oddi wrth ei gilydd nag ysgolion cyfrwng Saesneg cyffelyb.*
163. *Nid oes gan Ysgol Hamadryad ddalgylch ar hyn o bryd a phe byddai'r newid arfaethedig yn cael ei gyflwyno byddai nifer o rieni gyda mwy nac un plentyn yn gorfod dyfalu ym mha ddalgylch byddai'r cyfeiriad yn y dyfodol er mwyn ceisio sicrhau y byddai eu plant yn mynd i'r un ysgol.*

164. *Mae'r Corff Llywodraethu'n credu'n gryf na ddylid diddymu'r rheol brodyr a chwiorydd oherwydd yr effaith benodol a gâi ar addysg gyfwng Cymraeg. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid sicrhau bod rhieni yn Grangetown a Butetown yn cael eu trin yn deg os ydynt yn penderfynu anfon eu plant i Ysgol Hamadryad (neu Ysgol Pwll Coch neu Ysgol Mynydd Bychan).*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Hamadryad

165. Trafodir y pryderon ynghylch yr heriau sy'n wynebu addysg gyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ym mharagraff 52.
166. Trafodir y pryderon ynghylch diddymu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' ym mharagraffau 34 – 41.

Ymateb Pennaeth Ysgol Pencae

167. Roedd ymateb gan Bennaeth Ysgol Pencae'n cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
168. *O ystyried y ffaith bod y Sir eisoes wedi newid dalgylch Ysgol Pencae i fwydo Ysgol Glantaf yn lle Ysgol Plasmawr (Medi 2017), roedd amod yn y trefniadau Derbyn a oedd yn gwarantu y byddai brodyr a chwiorydd iau yn Ysgol Pencae yn cael mynd i Ysgol Plasmawr er mwyn mynd i'r un ysgol â'u teulu, yn hytrach nag Ysgol Glantaf.*
169. *Mae'r addewid hwn yn cael ei dorri yn y trefniadau newydd ac felly rydw i, fel Pennaeth, yn erbyn rhan hon yr ymgynghoriad. Nid yw hyn yn deg gan y rhoddir pwyslais ar yr addewid hwn yn ystod y cyfnod o newid. Bydd hyn yn achosi llawer o broblemau i deuluoedd, ac yn fwy na hynny, yn gwneud i'r Sir edrych yn ddrwg iawn am newid trefniadau unwaith eto!*

Ymateb i farn Pennaeth Ysgol Pencae

170. Trafodir y pryderon ynghylch diddymu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' ym mharagraffau 34 – 41.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch

171. Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
172. *Mae Ysgol Pwll Coch wedi profi newidiadau dalgylchoedd yn ddiweddar yn dilyn agor Ysgol Treganna newydd, ac mae mwy o newidiadau yn debygol yn y dyfodol agos wrth lunio dalgylch Ysgol Hamadryad. Felly, mae'r ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu wedi hen arfer â'r materion sy'n deillio o dderbyniadau a'u heffaith ar blant a theuluoedd.*

173. *Mae Ysgol Pwll Coch yn falch o weld yr ymchwil a wnaeth yr Athro Chris Taylor ar feini prawf derbyn ac mae o blaid cynllunio'n seiliedig ar ymchwil.*
174. *Mae'r ysgol yn poeni bod yr ymchwil wedi canolbwyntio ar un sector yn unig (ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg) sydd felly'n sail i'r newidiadau arfaethedig ym mhob sector.*
175. *Mae'r ymchwil yn ymdrin ag addysg Gymraeg mewn modd arwynebol iawn, heb unrhyw drafodaeth ar y berthynas rhwng y meini prawf derbyn, y dalgylchoedd a'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg, ac mae'n gwneud awgrymiadau uchelgeisiol megis annog Llywodraeth Cymru i ystyried newid ei pholisiau mewn sawl ffordd, gan gynnwys ystyried bandio a newid natur yr ysgolion eu hunain.*
176. *Mae gan y Cyngor ei Fforwm Addysg Gymraeg ei hun ac mae'n anffodus nad yw'r adroddiad na'r broses cyn yr ymgynghoriad wedi gweithio gyda'r corff hwn.*
177. *Mae Ysgol Pwll Coch yn croesawu'r ystyriaeth a roddir i ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion o leiafrifoedd ethnig a disgyblion nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith eu cartref, ond rydym yn siomedig am y diffyg trafodaeth ar y cyd-destun cyfrwng Cymraeg.*
178. *Mae'r adroddiad yn dweud bod hollt mawr yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, yn benodol mewn perthynas â'r nifer isel o ddisgyblion du a lleiafrifoedd ethnig ar y gofrestr a'r nifer is o blant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ynddynt. Mae hollt mawr yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ond dim ond mewn perthynas ag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae'r hollt yn llawer llai sylweddol wrth ystyried yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried mewn perthynas â'i gilydd ac â'u hysgolion cynradd. Mae'r hollt a welir yn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ganlyniad demograffig o'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn hytrach na'r ffordd y caiff derbyniadau eu gweinyddu, fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ystyried y cyfrwng cynradd Cymraeg na'r ffyrdd y gellid lleihau unrhyw hollt cymdeithasol. Byddai Ysgol Pwll Coch yn falch o weld ymchwil a fyddai'n cynorthwyo i liniaru'r hollt hwn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.*
179. *Mae'r adroddiad yn adolygu trefniadau derbyn mewn pymtheng awdurdod lleol arall, mae dau o'r rhain yng Nghymru, ond nid yw'n trafod yn fanwl pam na sut mae ALLau yn Lloegr yn debyg i Gaerdydd, o ystyried y ffaith amlwg nad oes unrhyw addysg gyfrwng Cymraeg yn Lloegr. Ni thrafodir y ffordd y mae Casnewydd ac Abertawe'n ymdrin ag addysg gyfrwng Cymraeg o gwbl.*
180. *Nid yw'r adroddiad yn ystyried maint y dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg sydd fel arfer yn llawer mwy na dalgylchoedd cyfrwng*

Saesneg. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Corff Llywodraethu'n ymwybodol o'r ffaith bod dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar brisiau tai.

181. *Mae dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn profi mwy o newidiadau rheolaidd na dalgylchoedd addysg gyfrwng Saesneg, ac mae angen ystyried yn ofalus yr effaith ar deuluoedd a phlant sydd eisoes mewn ysgol benodol; roedd Ysgol Pwll Coch yn cytuno'n gryf â'r pwyntiau pwysig a wnaed ar yr effeithiau negyddol a ddaw o ganlyniad i roi brodyr a chwiorydd mewn ysgolion gwahanol. Mae'r materion hyn yn waeth yn gyffredinol i blant oedran cynradd a byddai'n anos fyth i'r rhai sy'n dewis addysg Gymraeg gan fod dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn llawer mwy.*
182. *Mae Ysgol Pwll Coch o'r farn nad oes achos ar hyn o bryd dros newid y maen prawf cyfeirio brodyr a chwiorydd; yr ateb amlwg yw symleiddio'r meini prawf dan ystyriaeth.*
183. *Mae'r awgrymiad bod y Cyngor yn ei gwneud hi'n glir nad yw byw mewn dalgylch penodol yn gwarantu lle i blentyn yn hollol rhesymol.*
184. *Ni all Ysgol Pwll Coch fod yn hyderus bod y cynigion presennol yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'u goblygiadau ar addysg Gymraeg ac mewn rhai achosion byddent yn effeithio'n negyddol arni.*
185. *Nid yw Ysgol Pwll Coch felly'n cefnogi'r cynigion ymgynghori a hoffai weld ymchwil perthnasol yn cael ei wneud, sy'n ystyried addysg Gymraeg cyn newid y system gyfredol.*

Ymateb i farn Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

186. *Trafodir y pryderon ynghylch ystyried addysg Gymraeg a'r ymgysylltiad â'r Fforwm Addysg Gymraeg ym mharagraff 52 a pharagraff 102.*
187. *Trafodir y pryderon ynghylch gwaredu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' ym mharagraffau 34 – 41.*

Ymateb Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd

188. *Roedd ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gallwch weld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).*
189. *Er bod yr Adroddiad Meini Prawf Derbyn (WISERD) yn cynnig llawer o awgrymiadau ar gyfer gwneud meini prawf presennol yn haws eu deall ac yn llai cymhleth a pharhau i fodloni'r gofynion statudol angenrheidiol, nid yw'r awdurdod wedi cymryd cyfle i fireinio'r meini prawf i'w gwneud nhw'n haws eu deall a thrwy hynny'n fwy teg a hygyrch.*

190. *Nid yw'n glir pam mae Caerdydd yn dal i ddefnyddio 'sail feddygol neu gymdeithasol gryf' fel maen prawf ac nid yw'r llywodraethwyr o blaid parhau i ddefnyddio'r maen prawf hwn.*
191. *Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ail-gyflwyno 'mynychu ysgol fwydo' fel maen prawf, y mae Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd yn ei ddefnyddio erioed, gan gydnabod ei fod yn helpu i gynnig parhad yn y gymuned leol, yn benodol i ddisgyblion a theuluoedd sy'n fwy agored i niwed. Yn rhan o'r trefniadau pontio, mae hefyd yn cynnig parhad cwricwlaidd drwy brofiadau cwricwlaidd a rennir.*
192. *Er bod ychydig o bryder y byddai'r maen prawf 'ysgol fwydo' yn rhoi teuluoedd sy'n symud i mewn i'r ardal dan anfantais, mae'n debyg y byddai'r holl leoedd mewn ysgolion uwchradd sydd â mwy o geisiadau na lleoedd wedi'u dyrannu cyn unrhyw symud. Rydym hefyd yn gwybod bod rhai teuluoedd yn symud o'r ardal ar ôl iddynt gael lle yn yr ysgol, felly mewn ardaloedd â mwy o symudedd mae'n bosibl y deuai lleoedd ar gael i deuluoedd sy'n symud i mewn i'r ardal.*
193. *Nid yw'n glir pam mae Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol a Ariennir yn cael eu hystyried yn faen prawf ar gyfer ysgolion uwchradd. Bydd plant ifanc fel arfer yn cael eu hasesu yn ystod y flwyddyn feithrin neu'n gynnar yn y cyfnod cynradd ac os yw'n briodol yn derbyn Datganiad o Angen Addysgol Arbennig. Nid yw'r llywodraethwyr yn cefnogi'r maen prawf hwn.*

Ymateb i farn Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd

194. *Nid yw'r mwyafrif y blaenoriaethau a gyflwynir gan rieni ar sail feddygol neu gymdeithasol yn bodloni'r maen prawf cyhoeddedig sy'n gofyn am dystiolaeth benodol. Mae gweithredu'r maen prawf hwn dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu nad yw rhieni'n deall yn llwyr beth yw 'sail feddygol neu gymdeithasol gryf', ac yn aml mae'n anodd ei mesur yn wrthrychol. Mae modd ystyried asesiad gan ymarferydd meddygol unigol neu weithiwr cymdeithasol sy'n argymhell mynd i ysgol benodol yn oddrychol a heb unrhyw gyd-destun ehangach, oherwydd mae'n bosibl ateb anghenion disgyblion heb ddatganiad o angen addysgol meddygol neu anghenion addysgol arbennig mewn unrhyw ysgol prif lif.*
195. *Ni fodlonir y maen prawf hwn ond pan fo amgylchiadau teilwng penodol y bu gofyn am lefel o gefnogaeth gan feddyg ymgynghorol ar eu cyfer, neu pan fo'r plentyn yn derbyn cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ond heb ei ystyried yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal, a phan fo'r cyngor a ddarperir gan y gweithwyr proffesiynol hyn yn nodi mai dim ond yn yr ysgol ddewis y gellid ateb anghenion o'r fath. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: plant â materion iechyd meddwl; plant sy'n profi trawma corfforol neu emosiynol neu drais domestig, a'r plant a ystyrir yn agored i niwed yng nghyd-destun materion teulu.*

196. Mae'r Cyngor yn cydnabod er bod cynnwys y maen prawf hwn o bosibl yn agored i ddehongliad, mae'r maen prawf yn galluogi ystyriaeth berthnasol i amgylchiadau plant sydd ymhlith y mwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd. Ystyrir cynnwys canllaw ychwanegol yn y llyfryn Derbyn i Ysgolion (Gwybodaeth i Rieni) er mwyn ceisio osgoi camddealltwriaeth.
197. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
198. Mae cynnwys y maen prawf Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran derbyniadau i addysg uwchradd yn galluogi ystyried blaenoriaethu derbyn dysgwyr y byddai eu hanghenion gofal iechyd yn cael eu bodloni'n fwyaf priodol mewn ysgol uwchradd benodol. Ni fyddai angen Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar ddysgwyr heb anghenion dysgu dwys.

Ymateb Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

199. Roedd ymateb gan Bennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
200. *Mae Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr yn falch o weld 'Ysgolion Bwydo' yn cael eu hystyried mewn perthynas â meini prawf derbyn i addysg uwchradd. Fodd bynnag, credir na roddwyd digon o sylw yn y ddogfen ymgynghori i'r sefyllfa unigryw sy'n wynebu addysg Gymraeg pan sefydlir ysgolion newydd heb ddalgylch penodol am gyfnodau hir neu pan addasir ysgolion.*
201. *Teimlir y dylai'r ddogfen roi ystyriaeth ar wahân i ysgolion newydd drwy gynnwys 'brawd/chwaer' er mwyn cefnogi teuluoedd sy'n awyddus i gefnogi ysgolion newydd ond sydd hefyd am i'w plant fynychu'r un ysgol, yn enwedig yn y sector cynradd.*

Ymateb i farn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

202. Nodir cefnogaeth y Corff Llywodraethu dros Opsiwn B o ran derbyniadau i addysg uwchradd.
203. Trafodir y farn a fynegwyd ynghylch cynnwys maen prawf yn benodol i ysgolion sydd newydd eu sefydlu ym mharagraffau 34 - 41.

Ymateb Cyfreithwyr Albany

204. Roedd ymateb gan Gyfreithwyr Albany yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
205. *Mae ail-gynnwys y system fwydo yng Nghaerdydd yn gwahaniaethu yn weithredol yn erbyn rhannau o'r gymuned sy'n fwy mudol ac sydd*

felly'n llai tebygol o fod ar gofrestr yr ysgol trwy gydol y cyfnod cynradd neu'r rhai sy'n symud i'r dalgylch yn hwyrach yn y cyfnod cynradd. Gall hyn gynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant ceiswyr lloches a ffoaduriaid a'r gymuned deithiol.

206. *Mae'r system arfaethedig yn gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd sy'n agored i niwed ar incwm isel nad ydynt yn cynnal llety parhaol a sicr ac felly mae'n ymddangos fel ei fod yn ffafrio rhieni mwy cefnog sy'n gallu symud i gartref parhaol mewn dalgylch "deniadol" pan fo eu plant mewn oedran cyn cynradd.*
207. *Mae'r system fwydo yn amlwg yn rhoi cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant ceiswyr lloches a ffoaduriaid a'r gymuned deithiol dan anfantais sylweddol wrth geisio cael lle mewn ysgol.*
208. *Mae'n ymddangos yn afresymegol ceisio cynnwys system ysgol fwydo nawr, heb roi unrhyw ystyriaeth fanwl bellach i oblygiadau maint a lleoliadau ffiniau'r dalgylch.*
209. *Byddai'n afresymol gweithredu polisi sy'n ymddangos yn fanteisiol i ran fechan o ardal yr Awdurdod Lleol, ac yn rhoi grwpiau eraill, yn benodol y rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol llai ffodus ledled yr Awdurdod Lleol, dan anfantais sylweddol.*

Ymateb i farn Cyfreithwyr Albany

210. Nodir barn Cyfreithwyr Albany.
211. Nododd dogfen ymgynghori Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019-2020 y gallai gweithredu Opsiwn B Uwchradd ddwyn effaith negyddol ar rai o gymunedau Caerdydd.
212. Byddai cynnwys maen prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran ysgolion uwchradd mewn perthynas ag 'ysgol fwydo' yn fanteisiol i'r teuluoedd sy'n gallu sicrhau lle ysgol fwydo yn ysgol gynradd eu dalgylch yn gynnar mewn ardaloedd gydag ysgolion cynradd poblogaidd / llawn.
213. Dangosodd dadansoddiad yn cymharu disgyblion ar y gofrestr mewn ysgolion cynradd ym Mlwyddyn Derbyn mis Ionawr 2011 â data ar gyfer yr un garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 ym mis Ionawr 2017 hefyd y gallai cyflwyno maen prawf 'ysgol fwydo' arwain at effaith andwyol.
 - Mae'n bosibl y bydd oddeutu 1 o bob 7 disgybl sy'n byw yn ei dalgylch lleol dan anfantais wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd pe cyflwynid maen prawf bwydo gan ei fod wedi symud i'r dalgylch yn hwyrach ymlaen yn y cyfnod cynradd.
 - Mae'n bosibl y byddai disgyblion Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig, teuluoedd Teithwyr (er bod maint y sampl yn fychan) a grwpiau ethnig eraill dan anfantais gan eu bod nhw'n llai tebygol o

fod ar y gofrestr mewn ysgol gynradd o'r Flwyddyn Derbyn tan Flwyddyn 6.

214. Mae'r rhesymau dros symud i'r dalgylch yn ystod y cyfnod cynradd yn amrywiol, gallai'r rhain gynnwys symud o du allan i'r ddinas, symud yn fewnol o un rhan o Gaerdydd i ran arall mewn perthynas â fforddiadwyedd neu eiddo priodol ac ati.
215. Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn nodi bod disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim bron deirgwaith (29.1%) yn fwy tebygol o drosglwyddo o'r ysgol ddalgylch yn y cyfnod addysg gynradd gan na'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (10.8%), ac felly byddant yn llai tebygol o fodloni gofynion maen prawf 'ysgol fwydo'.

Prydau Ysgol Am Ddim (PYDd)	Dosbarth Derbyn o fis Medi 2010	BI6 o fis Medi 2016	% sy'n dal yno
Yn derbyn PYDd	330	234	70.9%
Ddim yn derbyn PYDd	1389	1239	89.2%
Cyfanswm	1719	1473	85.7%

216. Byddai defnyddio maen prawf ysgol fwydo gyda phob disgybl yn gwahaniaethu yn erbyn poblogaethau sy'n fwy symudol. Os yw grŵp penodol yn dangos graddfa symudedd uwch yn cael ei orgynrychioli mewn modd anghyfrannol, gellir ystyried bod y grŵp hwn dan anfantais (gwahaniaethu anuniongyrchol).
217. Er mwyn osgoi effaith wahaniaethol ar sail y cyfnod amser y mae disgyblion wedi byw yn y dalgylch a/neu a lwyddont i gael lle mewn ysgol fwydo oherwydd eu bod yn byw yn yr ardal pan ymgeisiant, gallai'r Cyngor weithredu'r meini prawf derbyn a nodir yn Opsiwn A, nad yw'n dibynnu ar faen prawf bwydo (mae'r ddau opsiwn yn defnyddio agosrwydd).
218. Byddai swyddogion yn gweithio gydag unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi effeithio'n negyddol arno lle bo'n bosibl.

Ymateb gan Grŵp Gweithredu dros Blant Marlborough

219. Roedd ymateb Grŵp Gweithredu dros Blant Marlborough yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
220. *Er bod Opsiwn A yn diddymu rhai meini prawf, dim ond 7 ymgeisydd o 8618 gafodd le dan y meini prawf hyn yn 2017; mae Opsiwn A yn fersiwn wedi ei diwygio, ychydig yn wahanol o'r meini prawf presennol. Felly mae'n amlwg nad yw Opsiwn A yn addas nac yn ddeniadol.*

221. *Bydd y pwysau cynyddol ar leoedd ysgol uwchradd yng Nghaerdydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cyfyngu ymhellach ar yr opsiynau i'r disgyblion nad ydynt yn gallu cael lle yn ysgol uwchradd eu dalgylch gyda'u cyfoedion os nad oes maen prawf ysgol fwydo pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.*
222. *Mae maen prawf yn ymwneud â mynychu ysgol gynradd fwydo yn glir ac yn hawdd ei ddeall.*
223. *Mae'r ysgolion bwydo a gynigir yn glir ac yn amlwg ac wedi'u creu ar sail resymol; maent yn cynnwys ysgolion cynradd yn dalgylch yr ysgol uwchradd, felly byddai Opsiwn B yn helpu i gynnal perthnasau agos rhwng ysgolion cynradd lleol a'u hysgol uwchradd partner.*
224. *Mae nifer derbyn yr ysgolion cynradd (Marlborough, Parc y Rhath, Lakeside, Rhydypennau a Howardian) bron yn gyfartal â nifer derbyn presennol Ysgol Uwchradd Caerdydd.*
225. *Mae ysgolion bwydo yn cynnig y fantais o barhad mewn addysg i ddisgyblion ac yn galluogi'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo i symud fel grŵp cyfoedion cyfan i ysgol uwchradd eu dalgylch lleol. Mae hyn yn atgyfnerthu a chynnal cysylltiadau cymunedol a chymorth cyfoedion.*
226. *Mae ysgolion bwydo yn lleihau trafferthion pontio ac yn annog cydweithrediad cryf rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.*
227. *Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Opsiwn A a gynigir felly nid yw'n bosibl cymharu'r effaith a gaiff y meini prawf agosrwydd presennol ar grwpiau ethnig gwahanol.*
228. *Mae Ysgol Uwchradd Caerdydd yn un o ardaloedd mwyaf cefnog a drud Caerdydd. Mae'r meini prawf presennol ac Opsiwn A yn fanteisiol i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf cefnog yn agosach at yr ysgol ac yn anfanteisiol i'r rhai o ran fwy amrywiol a thlotach y dalgylch. Byddai maen prawf ysgol fwydo yn sicrhau derbyn poblogaeth ddisgyblion amrywiol o ran ffactorau economaidd-gymdeithasol, y gymuned ac ethnigrwydd.*
229. *Ni fyddai ysgolion bwydo'n cael effaith sylweddol ar ddisgyblion ysgolion Cymraeg a fydd sy'n dal i fanteisio o gael aml i opsiynau ymgeisio, nad yw'n wir yn achos disgyblion cyfrwng Saesneg mewn gwirionedd. Gall disgyblion sy'n mynd i ysgol gynradd Gymraeg neu ffydd barhau i wneud cais i'r ysgol uwchradd Cymraeg/Ffydd. Nid oes unrhyw beth yn eu hatal nhw rhag ymgeisio am le mewn ysgol gyfrwng Saesneg, ond mewn achosion pan fo mwy o geisiadau na lleoedd, bydd y plant sydd mewn ysgolion bwydo Saesneg yn cael blaenoriaeth.*
230. *Byddai ysgolion bwydo yn galluogi defnyddio opsiynau trafndiaeth gynaliadwy yn well ac yn annog arferion ac iechyd da e.e. rhannu car, disgyblion yn cerdded neu'n beicio gyda'i gilydd.*

Ymateb i farn Grŵp Gweithredu dros Blant Marlborough

231. Nodir cefnogaeth Grŵp Gweithredu dros Blant Marlborough dros Opsiwn B ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchradd.
232. Mae rhaglen fuddsoddi Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn cynnwys nifer o gynigion sy'n ymateb i'r galw cynyddol am leoedd ysgol uwchradd, gan gynnwys cynigion i ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Uwchradd Willows.
233. Cydnabyddir bod Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig agregedig Ysgolion Cynradd Lakeside, Marlborough, Rhydypennau a Pharc y Rhath bron yn gyfartal â Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Uwchradd Caerdydd ac y byddai'r estyniad arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn cynnig digon o gapasiti ar gyfer dau ddsbarth mynediad ychwanegol. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraffau 65-66**, nid oes llawer o gysondeb rhwng niferoedd derbyn agregedig ysgolion cynradd cymunedol ledled Caerdydd a'r ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu eu dalgylchoedd.
234. Mae ystod eang ac amrywiol o waith ymchwil sy'n dangos bod nifer o ffactorau yr un mor bwysig neu'n bwysicach o ran cefnogi pontio effeithiol o addysg gynradd i ysgol uwchradd.
235. Awgryma waith ymchwil (Weller, S. 2006) y gallai cyfeillion o'r grŵp cyfoedion gynnig y teimlad cyfarwydd y mae ei angen wrth ddechrau mewn ysgol uwchradd, a gallai weithio'n dda fel cymorth pontio i helpu plant i setlo yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol hyd yn oed os nad ydynt yn datblygu yn ffrindiau oes. Yn achos Ysgol Gynradd Marlborough, nid oes disgwyl y byddai angen i blant drosglwyddo i ysgol uwchradd arall ar eu pennau eu hunain ac felly byddant yn elwa ar symud ymlaen gyda ffrindiau. Anogir/disgwylir i ysgolion cynradd sicrhau y gwneir trefniadau pontio llyfn gyda'r ysgol uwchradd benodol.
236. Gall ail-alinio dalgylchoedd ysgol gynradd ac ysgol uwchradd i gyd-bwyso'r boblogaeth yn y dalgylch â chapasiti'r ysgol uwchradd gynorthwyo i alluogi mwyafrif y disgyblion ysgol gynradd i symud i addysg uwchradd gyda'u grŵp cyfoedion.
237. Nodir effaith y trefniadau derbyn ar ymgeiswyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd, ac mae'n rhaid ei hystyried yng nghydestun dalgylchoedd y 13 ysgol uwchradd gymunedol yng Nghaerdydd.
238. Nid oes tystiolaeth yn dangos y byddai cadw meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd presennol neu weithredu Opsiwn A yn fanteisiol i'r rhai sy'n byw yn yr ardal gyfoethocach yn nes at yr ysgol o'i gymharu ag Opsiwn B.

- 239. Gallai gweithredu Opsiwn B arwain o bosibl at fod y rhai sy'n gallu byw'n nes at ysgolion cynradd bwydo, saith mlynedd cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd gysylltiedig, yn fwy tebygol o gael lle yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.
- 240. Mae'n bosibl y byddai cynnwys maen prawf yn ymwneud ag ysgol gynradd fwydo yn rhoi disgyblion nad ydynt yn mynd i ysgol fwydo ond sy'n byw'n agosach at ysgol uwchradd dan anfantais. Felly, mae'n bosibl y bydd disgyblion o'r fath yn fwy tebygol o ystyried dulliau trafndiaeth lai cynaliadwy.

Ymateb Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

- 241. Roedd ymateb RhAG yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3).
- 242. Nod RhAG yw cefnogi datblygiad addysg Gymraeg ym mhob rhan o Gymru ac mae'r sylwadau'n ymdrin ag addysg Gymraeg, sef prif destun diddordeb RhAG fel mudiad.
- 243. Mae RhAG yn falch o weld yr ymchwil a gynhaliodd yr Athro Chris Taylor ac maent yn gefnogol iawn o benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth.
- 244. Yn yr adroddiad, mae diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg, arwynebol ar y gorau yw'r ystyriaeth a roddir i'r sector.
- 245. Nid oes llawer o gyfeiriad at bolisi cenedlaethol a'r disgwyliad ar ALLau i hyrwyddo a datblygu twf y Gymraeg. Nid oes unrhyw drafodaeth ar y berthynas rhwng dalgylchoedd polisi Derbyn i Ysgolion a'r angen i gynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg. Yn ogystal, nid oes cyfeiriad at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.
- 246. Mae prif bwyslais yr adroddiad ar addysg uwchradd ac mae'n rhoi blaenoriaeth i anghenion ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r adroddiad yn anwybyddu ac nid yw'n deall yr anghenion gwahanol sy'n wynebu addysg gynradd Gymraeg yn benodol, ond hefyd y sector cynradd Saesneg.
- 247. Hyd y gwyddom, ni ystyriwyd y dogfennau hyn gan y Fforwm Iaith Gymraeg, sy'n fethiant sylweddol ac yn tanseilio rôl a chyfraniad y grŵp ymgynghori hwn.
- 248. Mae dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn newidiol ac mae angen ystyried yr effaith ar deuluoedd gyda phlant sydd eisoes mewn ysgol. Rydym yn cytuno â'r pwynt a wnaed ynghylch yr effaith negyddol pan wahanir brodyr a chwiorydd.
- 249. Y pryder yw bod bwriad o wneud newidiadau cwbl ymatebol ac y bydd eu heffaith yn fawr, ond bydd angen newidiadau eraill eto pan gaiff ysgolion newydd eu hagor.

250. Byddai'n annoeth ceisio creu polisi cyffredinol er mwyn ceisio ateb anghenion un sector y mae ei anghenion yn wahanol iawn i'r sector cyfrwng Cymraeg. Mae disgyblion sy'n dymuno derbyn addysg Gymraeg yn wynebu her sy'n llawer mwy (yn ddaearyddol ac yn ymarferol) ac felly dylai polisiâu a strategaethau'r Cyngor adlewyrchu hyn.
251. Byddai gwaredu'r rheol brodyr a chwiorydd yn creu rhagor o rwystrau i addysg Gymraeg, yn sefydlu polisi sy'n mynd yn groes i'r ddyletswydd o hyrwyddo mynediad at addysg Gymraeg ac yn creu sefyllfa sydd heb ddewis addysg Gymraeg rhagweithiol.
252. Sicrhau bod digon o ysgolion o fewn pellter rhesymol o ansawdd digonol yw'r ffordd orau o osgoi sefyllfa lle bo rhieni a disgyblion yn teithio allan o'u dalgylch naturiol neu 'swyddogol'.
253. Nid yw RhAG yn hyderus bod y cynigion yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r effaith ar addysg Gymraeg. Yr unig ateb rhesymol yw ysgrifennu adroddiad newydd yn seiliedig ar ffeithiau cadarn, sy'n ystyried mynediad at ysgolion a dalgylchoedd addysg Gymraeg, ac ymgynghori'n llawn â chyrff llywodraethu, Fforwm Iaith Gymraeg Caerdydd a randdeiliaid hollbwysig eraill.

Ymateb i farn Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

254. Trafodir y pryderon ynghylch ystyried addysg Gymraeg a'r ymgysylltiad â'r Fforwm Addysg Gymraeg ym mharagraff 52 a pharagraff 102.
255. Trafodir y pryderon ynghylch diddymu'r maen prawf 'cyfeirio brodyr a chwiorydd' ym mharagraffau 34 – 41.

Ymatebion a dderbyniwyd gan ymgynghoreion eraill

Ymatebion parthed ysgolion bwydo

256. Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud â chyflwyno arfaethedig ar system ysgolion bwydo (Dewis Uwchradd B)
257. Roedd barn a fynegwyd o blaid cyflwyno system ysgolion bwydo yn cynnwys y canlynol:
258. *Mae ysgolion bwydo yn cynnig mantais parhad addysg i ddisgyblion ac yn galluogi'r rhan fwyaf o blant yn yr ysgolion bwydo i symud yn eu blaenau fel grŵp cyfoedion cydlynus i'w hysgol ddalgylch leol. Mae hyn yn atgyfnerthu a chynnal clymau cymunedol a chymorth gan gyfoedion.*

259. *Byddai ysgolion bwydo yn sicrhau y byddai grwpiau cyfeillgarwch plant yn aros gyda'i gilydd gan leihau'r straen o bontio i ysgol uwchradd gan osgoi gorbryder diangen.*
260. *Byddai ysgolion bwydo yn lleihau problemau pontio ac yn annog cydweithredu agos rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.*
261. *Mae ysgolion bwydo yn sicrhau derbyn mwy amrywiol ymhlith disgyblion i hwyluso cydlynid cymdeithasol mewn cymunedau amrywiol.*
262. *Mae ysgol fwydo a enwir yn rhoi peth sicrwydd i rieni am addysg eu plant o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen i Gyfnod Allweddol 4.*
263. *Byddai ysgolion bwydo yn atal llawer o bobl rhag symud neu rentu mewn panig, e.e. "parasiwtio i mewn ac allan" o ddalgylchoedd poblogaidd.*
264. *Mae nifer o bobl yn symud cartref wrth i'w plant ddynesu at ysgol uwchradd a hynny'n unswydd er mwyn cael lle mewn ysgol uwchradd benodol, yn aml symudiad dros dro yw hyn ac unwaith iddynt sicrhau lle byddant yn symud allan o'r dalgylch. Mae'r polisi presennol yn galluogi teuluoedd sydd â digon o arian i symud tŷ neu hyd yn oed i rentu am gyfnod byr mewn ardaloedd penodol er mwyn ennill mantais annheg drwy sicrhau lle mewn ysgol uwchradd benodol er nad oes ganddynt gysylltiad â'r gymuned.*
265. *Roedd barn a fynegwyd yn erbyn cyflwyno system ysgolion bwydo yn cynnwys y canlynol:*
266. *Byddai dychwelyd at fformat ysgol fwydo yn effeithio'n negyddol ar y bobl na lwyddodd i sicrhau lle yn eu hysgol gynradd leol er eu bod yn byw o fewn y dalgylch. Byddai peidio â mynychu "ysgol fwydo" ar gyfer yr ysgol uwchradd leol yn golygu mai annhebygol fyddent o ennill lle yn yr ysgol uwchradd leol ac y byddai'n rhaid iddynt deithio cryn bellter i un arall. Byddai hyn â'r potensial i greu sefyllfa chwerthinllyd o fyw bron drws nesaf i ysgol uwchradd ond yn gorfod teithio beth pellter mewn car i ysgol amgen.*
267. *Mae cyflwyno system ysgol fwydo ar y lefel uwchradd yn gwneud dim byd ond trosglwyddo problem gordanysgrifio i'r lefel cynradd.*
268. *Mae'n bosib y byddai cyflwyno system ysgol fwydo yn atal rhieni rhag ystyried addysgu eu plentyn trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig y rhai hynny o gartrefi Saesneg. Byddai system o'r fath yn dileu'r dewis i ymrestru plentyn mewn ysgol gynradd Gymraeg a throsglwyddo draw i ysgol uwchradd Saesneg.*
269. *Dylai plant sydd wedi bod mewn addysg gynradd Gymraeg, ond sydd wedi cael trafferth ymdopi gyda dwy iaith gael y cyfle i fwrw ymlaen â'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg a mynd i'w hysgol uwchradd*

ddalgylch. Mae'r system ysgol fwydo yn rhagfarnu yn erbyn pobl sy'n cefnogi'r diwylliant Cymraeg.

270. *Penderfyniadau ar ba ysgol gynradd yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r ysgol uwchradd leol yn parhau i fod yn opsiwn ysgol uwchradd. Nid yw newidiadau polisi gyda chyn lleied o rybudd o ran amser wedi galluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybyddus ynghylch addysg eu plant.*
271. *Nid yw cyflwyno arfaethedig ar ysgolion bwydo yn caniatáu unrhyw le i ddisgyblion gaiff eu haddysgu yn y cartref yn y cyfnod cynradd.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

272. Mae gofyn i ysgolion wneud trefniadau priodol i'r holl ddisgyblion sy'n pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd.
273. Mae dadansoddiad o'r data ar gyfer y garfan sy'n pontio i addysg uwchradd yn 2019/20 yn dangos na fyddai oddeutu chwarter y disgyblion yn cwrdd â meini prawf yn seiliedig ar ysgol fwydo. Byddai'r mwyafrif o ysgolion cynradd felly yn parhau i wneud trefniadau pontio gyda nifer o ysgolion uwchradd pe byddai Dewis A neu Ddewis B yn cael ei weithredu.
274. Yn yr un modd, pe bai Dewis A neu Ddewis B yn cael ei weithredu, ni fyddai pob disgybl mewn ysgol gynradd yn cael lle yn yr un ysgol uwchradd a gallai grwpiau cyfeillgarwch gael eu rhannu.
275. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r haerid y byddai cyflwyno meini prawf ysgol fwydo yn hwyluso cydlynid cymdeithasol mewn cymunedau amrywiol.
276. Ystyriwyd problem symud i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 16 Mawrth 2017 ar Drefniadau Derbyn Ysgolion 2018/19 a Threfniadau Derbyn Cydlynus Ysgolion Uwchradd 2018-2020. Roedd canran y disgyblion a oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gyfer 1 flwyddyn, 3 blynedd a 5 mlynedd yn uwch na'r cyfartaledd ledled y ddinas. Nifer y disgyblion a dderbyniwyd i Ysgol Uwchradd Caerdydd yn seiliedig ar y maen prawf dalgylch, a oedd ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gyfer blynnyddoedd cwricwlwm 7 – 11 nad oedd bellach yn byw yn nalgylch yr ysgol, oedd 10 disgybl y flwyddyn.
277. Ni fyddai cyflwyno ysgolion bwydo yn atal rhieni rhag symud cyfeiriad cyn y broses ymgeisio ac ni fyddai chwaith yn atal rhieni rhag symud cyfeiriad wedi ymrestru eu plentyn(plant).
278. Mewn ardaloedd lle byddai ysgolion cynradd ac uwchradd yn llawn, byddai cyflwyno maen prawf ysgol fwydo i ysgolion uwchradd yn ffafrio'r rhieni hynny sy'n gallu sicrhau lle mewn ysgol gynradd yn gynnar yn y broses. Y rhieni hynny a fyddai'n fwyaf tebygol o allu

sicrhau lle mewn ysgol gynradd fyddai'r rheiny o fewn y dalgylch ac yn byw yn agos i'r ysgol gynradd.

279. Byddai cyflwyno maen prawf ysgol fwydo yn golygu y byddai'r disgyblion hynny na lwyddai i sicrhau lle yn eu hysgol gynradd ddalgylch ddim ond yn gallu cael eu hystyried o dan feini prawf is wrth wneud cais am le i unrhyw ysgol uwchradd gymunedol, ac eithrio Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant a Datganiad o Anghenion Addysg Arbennig.
280. Nid yw'r Cyngor wedi cynnig cynnwys ysgolion cynradd Cymraeg nac ysgolion cynradd ffydd yn y trefniadau ysgol fwydo ar gyfer ysgolion cynradd Saesneg. Byddai ychwanegu ysgolion bwydo pellach yn golygu y byddai diffyg cyfatebiaeth hyd yn oed yn fwy rhwng y nifer o lefydd ar gael mewn ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd bwydo.
281. Dylid ystyried hefyd yr effaith ar y Gymraeg pe byddai ysgolion cynradd Cymraeg yn cael eu cynnwys fel ysgolion bwydo i ysgolion uwchradd Saesneg.
282. Gallai eithrio ysgolion Cymraeg o'r trefniadau bwydo i ysgolion uwchradd Saesneg gynyddu cyfradd cadw disgyblion yn y sector Cymraeg. Fodd bynnag, mae perygl na fyddai rhai rhieni am ystyried cofrestru ar gyfer addysg gynradd Gymraeg pe byddai hyn efallai yn lleihau'r tebygolrwydd o gael lle mewn ysgol uwchradd Saesneg.
283. Byddai cyflwyno trefniadau bwydo yn golygu y byddai plant a addysgwyd gartref yn y cyfnod sylfaen yn cael eu hystyried o dan feini prawf is wrth wneud cais i gael eu derbyn mewn unrhyw ysgol uwchradd gymunedol. Byddai unrhyw blentyn nad oedd yn llwydo i gael lle mewn ysgol uwchradd gymunedol o fewn 3 milltir i'w cyfeiriad cartref yn derbyn cludiant cartref i ysgol am ddim i'r ysgol agosaf nesaf.

Ymatebion parthed meini prawf 'cyfarwyddyd brawd/chwaer'

284. *Dylai brodyr/chwiorydd allu dilyn ei gilydd i'r un ysgol uwchradd hyd yn oed os yw dalgylchoedd ac ysgolion bwydo cysylltiedig yn newid maes o law. Mae'n bwysig iawn i deuluoedd aros gyda'i gilydd drwy sicrhau bod brodyr/chwiorydd yn gallu mynychu'r un ysgol uwchradd hyd yn oed os yw meini prawf derbyn yn newid yn y blynyddoedd rhyngddynt nhw.*
285. *Mae rhai ysgolion yng Nghaerdydd sydd heb ddalgylch. Yn y sefyllfa hon, dylid rhoi blaenoriaeth uwch i frodyr/chwiorydd na phlant o fewn y dalgylch heb frawd/chwaer yn mynychu gan fod cael plant mewn ysgolion gwahanol yn anghynaliadwy.*
286. *Byddai diddymu cyfarwyddo brawd/chwaer yn peri hunllefau trefniadol i deuluoedd i gael plant i'r ysgol ac adre yn ôl ynghyd â threfniadau cofleidio cysylltiedig e.e. clybiau ar ôl ysgol/oriau gweithio*

rhieni a chynyddu'r gwariant i rieni ar wisgoedd ysgol ac offer gwahanol.

287. *Mae'r dogfennau yn nodi na chaiff y cyfarwyddyd brawd/chwaer ei ddefnyddio yn aml ond gyda'r holl ysgolion newydd ar y gweill drwy Fand B a'r Cynllun Datblygu Lleol a'r cynnydd yn y pwysau ar lefydd ysgol uwchradd wedi 2019, bydd gofyn i'r Cyngor newid dalgylchoedd ac mae posibilrwydd cryf y gallai'r cyfarwyddyd brawd/chwaer gael ei ddefnyddio llawer mwy.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

288. Eir i'r afael â'r pryderon a fynegwyd parthed dileu arfaethedig ar y maen prawf cyfarwyddo brawd/chwaer ym mharagraffau 34 - 41. Mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu meini prawf gan roi blaenoriaeth o fewn y meini prawf gordanysgrifiad ar gyfer derbyn i addysg gynradd i deuluoedd a effeithiwyd gan newidiadau mewn dalgylchoedd ysgolion.

Ymatebion parthed yr effaith ar y Gymraeg

289. *Ni roddwyd digon o sylw yn y ddogfen ymgynghori i'r sefyllfa unigryw sydd yn wynebu addysg Gymraeg pan fo ysgolion newydd yn cael eu sefydlu heb ddalgylch ddiffiniedig am gyfnodau estynedig neu pan fo ysgolion yn cael eu haddasu.*
290. *Dylai'r Cyngor ystyried effaith ysgolion bwydo ar nifer y llefydd a gaiff eu cymryd mewn ysgolion cynradd Cymraeg er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag ymrwymiad a ddatganwyd gan y Cyngor i ddiogelu a thyfu'r Gymraeg. Mae anfantais i rieni sydd wedi cynllunio i roi addysg yn y ddwy iaith ar gyfnodau gwahanol yn eu haddysg i'w plant.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

291. Eir i'r afael â'r pryderon a fynegwyd ar effaith newidiadau i ddalgylchoedd ar y Gymraeg ym mharagraffau 34 - 41.
292. Eir i'r afael â'r pryderon a fynegwyd parthed effaith ychwanegu ysgolion bwydo ar y niferoedd a gaiff eu derbyn i ysgolion Cymraeg ym mharagraffau 331 - 337.

Ymatebion parthed agosatrydd a theithio i'r ysgol

293. *Tra'n anodd ei gydbwyso, mae'n rhaid bod agosrwydd ysgol o'r budd blaenaf i blentyn. Gyda chystadleuaeth am lefydd mor uchel, ymddengys Dewis A yn deg. Mae presenoldeb yn unig mewn ysgol fwydo yn llai cynaliadwy.*
294. *Mae blaenoriaethu meini prawf eraill dros breswylid mewn dalgylch yn arwain at deithio diangen ar draws y ddinas gan ychwanegu at broblemau traffig*

295. *Byddai cyflwyno system fwydo ysgolion yn debygol o arwain at broblemau traffig sylweddol o ran tagfeydd ar rwydwaith y ddinas, a'r Awdurdod Lleol yn gorfod cyllido cludiant i'r disgyblion hyn ar draws y ddinas i'r Ysgol Uwchradd benodedig.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

296. Fel y nodwyd yng Nghod Derbyn Llywodraeth Cymru (2.48) 'mae pellter rhwng cartref ac ysgol yn faen prawf gordanysgrifio clir a gwrthrychol'.
297. Er mwyn ateb y meini prawf seiliedig ar fwydo sydd wedi ei gynnwys ym meini prawf gordanysgrifio Dewis B, byddai gofyn i ddisgyblion hefyd fyw o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd a ffefrir.
298. Eir i'r afael â'r pryderon a fynegwyd parthed cludiant yn y goblygiadau trafniadaeth ym mharagraffau 367 - 368.

Ymatebion parthed dalgylchoedd

299. *Dylid cael gwared ar ddalgylchoedd ac wedi edrych ar y meini prawf cymdeithasol, meddygol, derbyn gofal a brawd/chwaer yna dylid edrych yn syml ar bellter er mwyn pennu'r flaenoriaeth.*
300. *Mae cyflwyno system ysgol fwydo ar y pwynt hwn yn afresymegol, heb roi ystyriaeth fwy manwl i oblygiadau maint a lleoliad ffiniau'r dalgylchoedd.*
301. *Dylai preswyllo mewn dalgylch ddod uwchlaw pob maen prawf arall. Mae rhieni eraill yn byw ledled Caerdydd a gallant gyrchu yr un ysgolion o hyd.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

302. Cyflwynodd adroddiad y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru a ystyriwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2017 fanteision gweithredu meini prawf yn seiliedig ar ddalgylch. Dalgylchoedd yw'r maen prawf a gordanysgrifio a ddefnyddir fwyaf gan awdurdodau derbyn, ac mae'r fantais ganddynt hefyd o ganiatáu awdurdodau lleol (ac ysgolion) i gynllunio'u darpariaeth yn well, gan helpu ysgolion i adnabod eu cymuned 'leol' a rhoi elfen gref o ragweld i deuluoedd ac ysgolion pan ddaw hi at fater derbyn i ysgol.
303. Eir i'r afael â newid i ddalgylchoedd ym mharagraff 149.

Ymatebion parthed dileu maen prawf 'pellaf o ysgol amgen'

304. *Gallai dileu maen prawf 'pellaf o ysgol amgen' olygu y gallai fod gan deulu ddau ddewis ar gyfer ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref y*

teulu yn cael eu dewis gan orfodi teulu arall i deithio ffordd bell i'w hysgol 'amgen' os yn colli allan i'r teulu cyntaf o ychydig lathenni.

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

305. Prin iawn y mae galw i ddefnyddio'r maen prawf 'pellaf o ysgol amgen' sy'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw bellaf o'r ysgol amgen agosaf sydd ar gael, a chaiff ei ddefnyddio dim ond pan yw'r meini prawf uwch wedi eu hateb gan ddau ddisgybl neu fwy.
306. Mae gwella'r pennu ar y maen prawf agosatrwydd agosaf o ddau le degol i bedwar lle degol yn lleihau'r tebygolrwydd o'r maen prawf hwn yn cael ei ystyried ac felly mae ei gynnwys yn ddiangen. Ni ddyrannwyd llefydd i'r Dosbarth Derbyn na Blwyddyn 7 o dan y maen prawf hwn ar gyfer y rhai ddechreuodd ym mis Medi 2017.

Ymatebion yn awgrymu meini prawf amgen

307. *Tra bod cyflwyno presenoldeb i faen prawf ysgol fwydo yn gam i'r cyfeiriad cywir ac y bydd yn arwain at lai o achosion o blant yn methu cyrraedd eu dewis ysgol uwchradd wedi mynychu ysgol gynradd yn y dalgylch, dylid hefyd ystyried am ba hyd y bu'r teulu yn preswyllo yn y dalgylch.*
308. *Dylai'r Cyngor gyflwyno system bwyntiau tebyg i'r un ar gyfer adrannau mewnfudo gyda phwyntiau yn cael eu rhoi am breswyllo o fewn dalgylch, hyd y preswyliaid, perchen tŷ neu rentu, brawd/chwaer, rhesymau meddygol ayb.*
309. *Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i broblemau symudedd/iechyd rhieni gan alluogi rhieni i wneud cais am a chael blaenoriaeth mewn ysgolion di-dalgylch y gellir eu cyrchu a thrafnidiaeth gyhoeddus.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

310. Roedd adroddiad y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru a ystyriwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd wedi ystyried y meini prawf gordanysgrifio oedd yn weithredol gan 15 Awdurdod Lleol arall. Nid oedd yr un o'r rhain yn gweithredu maen prawf o'r fath.
311. Eir i'r afael â'r ystyriaeth i gyflwyno maen prawf yn seiliedig ar hyd preswyliaid ym mharagraffau 97 – 99.
312. Eir i'r afael â'r ystyriaeth i gyflwyno maen prawf yn seiliedig ar ordanysgrifio yn seiliedig ar bwyntiau ym mharagraffau 100 – 101.
313. *Gellid ystyried seiliau meddygol a/neu gymdeithasol cryfion sy'n atal gallu teulu rhag cyrchu ysgol o dan y maen prawf seiliau meddygol/cymdeithasol presennol, os rhoddwyd digon o dystiolaeth gefnogol gan weithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn egluro pam na allai'r plentyn fynychu ysgolion amgen.*

Ymatebion i Arolwg Disgyblion

314. Derbyniwyd cyfanswm o 413 o ymatebion ar-lein, gan gynnwys 158 o ymatebion gan ddisgyblion cynradd Blwyddyn 4, 5 a 6 a 255 o ddisgyblion uwchradd Blwyddyn 7, 8, 9 a 10.
315. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod disgyblion cynradd yn ystyried mai mynd i ysgol agos at y cartref oedd bwysicaf (sgôr pwysigrwydd o 7.52 ar gyfartaledd) ac mai mynd i'r un ysgol uwchradd â ffrindiau a disgyblion eraill o'r ysgol gynradd oedd leiaf pwysig (sgôr pwysigrwydd o 6.61 ar gyfartaledd).
316. Nododd disgyblion uwchradd mai mynd i ysgol agos at y cartref oedd bwysicaf (sgôr pwysigrwydd o 6.86 ar gyfartaledd) ac mai mynd i'r un ysgol uwchradd â ffrindiau a disgyblion eraill o'r ysgol gynradd oedd leiaf pwysig (sgôr pwysigrwydd o 6.13 ar gyfartaledd).
317. Mae modd gweld manylion yr arolwg a'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 5.

Gwerthusiad o ymatebion disgyblion

318. Nodir y farn a fynegwyd gan ddisgyblion.
319. Parthed awydd disgyblion i fynychu ysgol yn agos i'w cartref mae mwyafrif disgyblion ysgol cynradd yn byw o fewn dwy filltir i'w hysgol, gyda mwyafrif y disgyblion uwchradd yn byw o fewn tair milltir i'w hysgol.
320. Ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw ymhellach o'u hysgol, gall fod cludiant cartref i'r ysgol ar gael yn unol â gofynion Mesur Teithio Dysgwyr Cymru 2008 (yn amodol ar gymhwysedd).

Newidiadau ychwanegol a gynigir i'r Polisi Derbyn

Eglurhad ar y Meini Prawf Gor-danysgrifio

321. Mae eglurhad ar y meini prawf brawd/chwaer ac agosrwydd i gael eu cynnwys yn y polisi.

Maen prawf brawd/chwaer

322. Caiff cais ei ystyried dan y maen prawf brodyr a chwiorydd os byddai'r brawd/chwaer, a'r ymgeisydd wrth gael ei dderbyn, yn mynychu'r un ysgol ar yr un pryd.

Agosrwydd

323. Ar gyfer ceisiadau i ddisgyblion sy'n byw o fewn tir mawr y DU ond y tu allan i ardal y rhwydwaith trafndiaeth integredig, caiff pellteroedd

preswylfa i'r ysgol eu cyfrifo fel y pellter gyrru byrraf yn ôl mapiau google.

324. Pan fo ymgeiswyr yn y byw y tu allan i dir mawr Prydain, caiff pellteroedd llwybrau eu pennu fel y llwybr byrraf yn ôl mapiau google gan ddefnyddio'r mathau o drafnidiaeth sydd ar gael.

Dyddiadau Cynnig Cyffredin

325. Mae'r dyddiad cynnig cenedlaethol ar gyfer mynediad i Ddosbarth Derbyn yn 2019/20 wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru sef Dydd Mawrth 19 Ebrill 2019. Nodwyd gan y Fforwm Derbyn fod hyn yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg a chytunwyd mai dyddiad derbyn neu wrthod cynigion Cynradd fyddai Dydd Llun 13 Mai 2019.
326. Cytunwyd hefyd mai dyddiad derbyn neu wrthod y cynigion Uwchradd fyddai Dydd Llun 18 Mawrth 2019.

Effaith ar y Gymraeg

327. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a atodwyd yn Atodiad 2, ni ragwelwyd y byddai unrhyw effaith wahaniaethol ar y Gymraeg yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf gordanysgrifio.
328. Fodd bynnag, cododd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar addysg Gymraeg.
329. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r bwriad arfaethedig i ddileu'r maen prawf 'cyfarwyddo brawd/chwaer' yn enwedig wrth ystyried sefydlu ysgolion Cymraeg newydd a'r newidiadau dalgylch cysylltiedig â hynny.
330. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ac, fel y nodir ym mharagraff 32 – 38, felly yn cynnig cynnwys maen prawf 'blaenoriaeth brawd/chwaer yn dilyn newid dalgylch' o fewn y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer mynediad i addysg gynradd a fyddai'n negyddu unrhyw anfanteision a fyddai'n codi o newidiadau dalgylch yn yr amgylchiadau penodol hyn.
331. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch yr effaith posib ar nifer y disgyblion yn dewis addysg gynradd Gymraeg o ystyried y potensial fyddai gan cyflwyno system ysgol fwydo i gyfyngu ar allu plant i drosglwyddo i addysg Saesneg yn ystod y cyfnod cynradd neu'r lefel uwchradd.
332. Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cyflwyno maen prawf ysgol fwydo yn anfantais i rieni fyddai'n dymuno trosglwyddo o addysg gynradd Gymraeg i addysg uwchradd Saesneg (ac fel arall) ac y gallai cyflwyno maen prawf o'r fath atal rhai rhieni rhag ystyried addysg Gymraeg.
333. Mae canran net y disgyblion yng Nghaerdydd sy'n mynd yn eu blaen yn dilyn cofrestru adeg oed Derbyn mewn ysgol gynradd Gymraeg i

gofrestru ar gyfer addysg uwchradd Gymraeg wedi amrywio rhwng 87% - 95% yn y carfannau mwyaf diweddar. Gallai cyflwyno meini prawf yn seiliedig ar ysgolion bwydo, felly, gynyddu'r canran o ddisgyblion sydd, yn dilyn cofrestru ar gyfer addysg gynradd Gymraeg, yn mynd yn eu blaenau wedyn i addysg uwchradd Gymraeg, tra ar yr un pryd o bosib yn gweithredu fel gwrth-anogaeth i rieni sy'n ystyried cofrestru eu plant ar gyfer addysg gynradd Gymraeg.

334. Mae Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu Caerdydd Ddwyeithog. Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2017-2020 y Cyngor yn helpu Caerdydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.
335. Mae CSCA yn rhan greiddiol o Strategaeth Ddwyeithog 5 mlynedd y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sector addysg Gymraeg gref a chynhwysol yn hanfodol os yw Caerdydd i ddatblygu fel dinas gwirioneddol ddwyeithog lle bydd y Gymraeg yn iaith fywiog a byw.
336. Nod Strategaeth Caerdydd ddwyeithog yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas a chynyddu'r defnydd o'r iaith ledled y ddinas. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol er mwyn sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac i greu siaradwyr newydd.
337. Felly er nad yw effaith debygol nod y Cyngor o gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn wybyddus, mae risg amlwg y gallai cyflwyno trefniant ysgol fwydo gael effaith negyddol yn gyffredinol ar y Gymraeg.
338. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro cyfraddau geni, ffrwyth tai newydd arfaethedig a'r patrymau mabwysiadu darpariaeth Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd gyda golwg i ddwyn cynlluniau priodol ger bron i ateb unrhyw gynnydd yn y galw.
339. Mae dysgu'r Gymraeg o fewn sefyllfa addysg Saesneg yn amodol ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddai hyn yn newid.

Crynodeb

340. Ceisiodd yr ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2019/2020 ymateb i ganfyddiadau ymchwil y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru drwy symleiddio'r meini prawf presennol, a thrwy wahodd sylwadau ar ddewisiadau eraill ar gyfer derbyn i addysg uwchradd.
341. Wrth i nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd leihau ac wrth i nifer gynyddol o ysgolion gael mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael wrth i'r boblogaeth gynyddol fwy o ddisgyblion symud yn eu blaen i addysg uwchradd, mae'n amlwg yn hollbwysig ystyried a gwerthuso materion yn ymwneud â meini prawf gordanysgrifio.

342. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn gyffredinol yn cefnogi'r newidiadau i'r Polisi Derbyn i Ysgolion gan gynnwys newidiadau i'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer derbyn i addysg feithrin, cynradd a rhan fwyaf yr agweddau ar addysg uwchradd mewn ymateb i ganfyddiadau ymchwil y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru. Fodd bynnag, mynegwyd gwahaniaethau barn sylweddol ynghylch y ddau ddewis a ymgynghorwyd arnynt o ran a ddylai ysgolion bwydo gael eu cynnwys yn y meini prawf uwchradd.

Derbyn i Addysg Feithrin

343. Ychydig o bryderon a godwyd parthed newidiadau arfaethedig i feini prawf gor-danysgrifio i addysg feithrin ac felly cynigir y gweithredir y meini prawf yn unol â'r ymgynghoriad.

Derbyn i Addysg Gynradd

344. Ychydig o bryderon a godwyd parthed newidiadau arfaethedig i feini prawf gor-danysgrifio i addysg gynradd.
345. Mynegodd nifer o ymatebion ffurfiol, ac ymatebion gan randdeiliaid eraill gan gynnwys rhieni, ynghylch y cynnig i beidio mwyach a rhoi blaenoriaeth benodol i ddisgyblion a effeithiwyd gan newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cynradd. Mae'r Cyngor yn cydnabod mantais parhaus i roi blaenoriaeth i'r disgyblion hynny a allai gael eu heffeithio gan newidiadau i ddalgylchoedd ysgol ac felly yn cynnig cynnwys maen prawf ychwanegol.

Derbyn i Addysg Uwchradd

346. Parthed y trefniadau ar gyfer disgyblion yn pontio i addysg uwchradd, ceisiwyd ymatebion i ddau ddewis a oedd, i bob pwrpas, yn cynrychioli fersiwn symlach o'r trefniadau 'status quo' presennol sydd wedi eu gweithredu yng Nghaerdydd ers sawl blwyddyn, ond â rhai elfennau o'r meini prawf wedi'u diddymu (Dewis A), neu fersiwn arall (Dewis B) sy'n cynrychioli newid mwy sylweddol yn y trefniadau drwy gyflwyno meini prawf sy'n seiliedig ar yr ysgol fwydo. Rhaid, felly, i ddadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad ystyried a fydd Caerdydd gyfan yn elwa'n ddigonol ar roi newid o'r fath ar waith.
347. Codwyd nifer o faterion a phryderon yn yr ymatebion ymgynghoriad a ddaeth i law.
348. Nododd ymatebion yr ymgynghoriad, a oedd o blaid gweithredu Dewis A / yn erbyn gweithredu Dewis B, y canlynol:
- Mae Dewis A yn fuddiol i'r disgyblion hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol uwchradd, ni waeth pa ysgol gynradd y maent wedi ei mynychu
 - Mae Dewis A yn galluogi disgyblion na chafodd eu derbyn i'w hysgol gynradd leol i gael eu derbyn i'w hysgol uwchradd leol

- Mae Dewis B o bosibl yn rhoi teuluoedd sy'n symud i Gaerdydd, oherwydd cyfleodd am swyddi wrth i'r economi dyfu, dan anfantais
 - Mae Dewis B yn rhoi disgyblion o rai grwpiau ethnig syn fwy tebygol o symud tŷ, gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac aelodau o rai cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, dan anfantais
 - Mae Dewis B yn rhoi teuluoedd sy'n symud tŷ yn sgil adleoliad neu resymau teuluol eraill, gan gynnwys teuluoedd agored i niwed ac ar incwm isel nad ydynt yn cynnal llety parhaol, diogel, dan anfantais.
 - Mae Dewis B yn rhoi disgyblion sy'n dymuno symud o ysgol gynradd ffydd i ysgol uwchradd gymunedol dan anfantais, yn arbennig y disgyblion nad ydynt yn bodloni meini prawf blaenoriaeth derbyn ysgol ffydd
 - Mae Dewis B yn rhoi disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o ysgol gynradd Gymraeg i ysgol uwchradd Saesneg (neu'r ffordd arall), dan anfantais, a gall hyn atal rhieni rhag ystyried addysg gynradd Gymraeg
349. Nododd ymatebion yr ymgynghoriad, a oedd o blaid gweithredu Dewis B / yn erbyn gweithredu Dewis A, y canlynol:
- Mae Dewis B yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni o ran ysgol uwchradd debygol eu plentyn
 - Byddai maen prawf yn seiliedig ar ysgol fwydo yn gwella parhad wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd
 - Mae Dewis A yn rhoi disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond ymhell o'r ysgol, dan anfantais, ac yn golygu y byddant yn llai tebygol o gael eu derbyn.
 - Nid yw Dewis A yn ystyried am ba hyd y mae teulu wedi byw mewn ardal nac am ba hyd y mae disgybl wedi mynychu ysgol
350. Dylid nodi bod mwyafrif sylweddol ymatebwyr yr ymholiad, a mwyafrif yr ymatebwyr a ffafriai Ddewis B dros Ddewis A, yn byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Marlborough neu ysgol Gynradd Parc y Rhath a/neu fod ganddynt blant yn mynychu'r ysgolion hyn. I'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgolion hyn ac sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd, byddai cyflwyno trefniadau ysgolion bwydo yn rhoi mwy o sicrwydd o gael eu derbyn i Ysgol Uwchradd Caerdydd yn 2019/20 a hefyd yn 2020/21 a 2021/22. Byddai derbyn disgyblion dan drefniant ysgol fwydo yn golygu y byddai disgyblion sy'n byw yn weddol agos i'r ysgol, nad ydynt wedi'u cofrestru gydag ysgol fwydo, yn annhebygol o gael eu derbyn.
351. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw addasiad ar y polisi derbyn neu feini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion cymunedol fod yn berthnasol i Gaerdydd gyfan. Prin iawn oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr agwedd hon a dderbyniwyd gan unigolion mewn ardaloedd eraill yng Nghaerdydd.
352. Mewn ysgolion cynradd a dalgylchoedd eraill, ni fyddai mwy o sicrwydd derbyn dan feini prawf sy'n seiliedig ar ysgol fwydo. Yn

nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Llanisien byddai disgyblion yn parhau i fod yn y dalgylch ac sydd ar gofrestrau ysgolion bwydo cynradd na fyddai'n debygol o gael eu derbyn yn mlwyddyn derbyn 2019/2020. Byddai rhai disgyblion yn yr ysgolion cynradd a/neu'r dalgylchoedd yma hefyd dan anfantais wrth wneud cais i gael eu derbyn mewn ysgolion amgen dan drefniadau derbyn yn seiliedig ar ddalgylchoedd ac hefyd dan drefniadau yn seiliedig ar ysgol fwydo.

353. Tra bod llawer o ymatebion wedi datgan y byddai maen prawf presenoldeb mewn ysgol fwydo yn eglur a hawdd ei ddeall, roedd nifer o'r ymatebion o blaid Dewis B nad oeddent yn cydnabod, yn rhinwedd eu cyfeiriad cartref, na fyddent yn cael eu hystyried dan y meini prawf bwydo yr ymgynghorwyd arno, ac na fyddai eu plant o'r herwydd yn gallu manteisio ar bontio gyda mwyafrif eu cyfoedion ysgol gynradd fel yr ymddengys i'w hymatebion awgrymu.
354. Mae ymatebion Esgobaeth Llandaf yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy yr Eglwys yng Nghymru a rhai rhieni i blant mewn ysgolion cynradd Cymraeg yn nodi y byddai disgyblion yn y sectorau hynny dan anfantais gyda maen prawf ysgol fwydo o fewn dalgylch ar gyfer ysgolion uwchradd cymunedol Saesneg nad oedd yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion cynradd Cymraeg. Fodd bynnag, pe byddai'r ysgolion hynny yn cael eu dynodi yn ysgolion bwydo cynradd i ysgolion uwchradd cymunedol Saesneg (yn ychwanegol i ysgolion ffydd neu ysgolion Cymraeg) yna byddai'r disgyblion oedd yn mynychu'r ysgolion yna yn derbyn mantais bellach ar draul disgyblion eraill.
355. Mae'n amlwg, o werthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y byddai gweithredu'r newidiadau sylweddol i'r meini prawf gordanysgrifio fel y nodwyd yn Dewis B, yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion mewn nifer o ardaloedd yn y ddinas ac ym mhob sector. Nid oes achos digon cryf sy'n dangos y byddai gwneud newid o'r fath ar yr adeg hon yn cyflawni'r nod o gyflwyno trefniadau derbyn mwy addas ar gyfer holl ddisgyblion Caerdydd.
356. I grynhoi, nid oes digon o dystiolaeth i brofi y byddai newid o fersiwn fwy syml o'r trefniadau presennol (Dewis A) i weithredu trefniadau sy'n seiliedig ar ysgolion bwydo (Dewis B) o fudd i Gaerdydd gyfan. Cynigir, felly, gweithredu Dewis A ar gyfer derbyn i addysg uwchradd.
357. Dylid nodi bod y Polisi Derbyn i Ysgolion yn berthnasol ar gyfer blwyddyn fynediad 2019/20 yn unig a thra y bydd rhai disgyblion yn methu mynychu eu hysgol ddalgylch, bydd newidiadau i ddalgylchoedd a fydd yn rhoi ystyriaeth i newidiadau arfaethedig i gapasiti ysgolion yn cael eu hystyried ar gyfer blynyddoedd derbyn diweddarach.

358. Ymgynghorwyd â phob aelod ar y Trefniadau Derbyn drafft 2019/2020. Mae ymateb ffurfiol Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol y Cyngor wedi'i atodi yn Atodiad 3.

Rheswm dros yr Argymhellion

359. Mae angen i'r Cyngor adolygu ei drefniadau derbyn i ysgolion yn flynyddol a chytuno ar drefniadau'n dilyn ymgynghoriad priodol.

Goblygiadau Ariannol

360. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r arian a ddarperir i ysgolion unigol, gan gynnwys cyllid grant allanol, yn cael ei seilio ar niferoedd disgyblion. Felly, pe byddai'r cynnig yn arwain at newidiadau i nifer y disgyblion a dderbynnir i ysgol unigol, mae'n bosibl y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau. Yn ychwanegol i hyn, pe byddai'r cynnig yn arwain at newid i ddarpariaeth y drafndiaeth ysgol y mae ei hangen, byddai angen ei nodi a'i ystyried yn rhan o broses gynllunio cyllidebol y Cyngor a'i adlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo'n briodol)

361. Mae gofyniad statudol ar y Cyngor dan Ddeddf Addysg 1996 i hyrwyddo safonau addysg uchel yn ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hardal awdurdod lleol. Mae Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002 yn nodi bod rhaid i Awdurdodau Derbyn gynnal ymgynghoriad cyn pennu'r trefniadau derbyn a fydd yn berthnasol. Mae'r adroddiad yn nodi bod ymgynghoriad wedi'i gynnal.
362. Mae'r Rheoliadau Addysg (Pennu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 yn nodi'r weithdrefn y dylai Awdurdodau Derbyn ei dilyn wrth bennu eu trefniadau derbyn, gan gynnwys yr ymgynghoriad a'r broses hysbysu ynghyd ag amserlenni. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Awdurdod Derbyn bennu trefniadau yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau dwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y gwneir y trefniadau ar ei chyfer, gan gymryd yr holl gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod nhw wedi cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol dan adran 89(2) cyn 1 Mawrth ac i bennu'r trefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill. Yna, bydd yn rhaid cyhoeddi'r trefniadau o fewn 14 diwrnod wedi gwneud penderfyniad a rhoi gwybod i'r cyrff priodol. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal cyn 1 Mawrth.
363. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cod Derbyn i Ysgolion, sy'n nodi'r broses y dylai Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth bennu eu trefniadau derbyn. Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi nad oes unrhyw feini prawf a waherddir (fel y nodir ar dudalen 12 y Cod) wedi'u cynnwys yn y trefniadau derbyn, ac mae'n rhoi canllawiau ar ddefnyddio mathau amrywiol o feini prawf derbyn pan fo mwy o

geisiadau na lleoedd. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gofynion hyn.

364. Rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector cyhoeddus sy'n benodol i'r Gymraeg). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i'r Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, roi ystyriaeth briodol i'r angen i (1) osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion a ddiogelir. Rhaid i'r Cyngor hefyd beidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn unrhyw ddisgybl yn ei drefniadau derbyn, golyga hyn na fydd unrhyw ddisgybl na grŵp o ddisgyblion yn cael ei drin yn llai ffafriol yn seiliedig ar nodwedd a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw:
- Oedran
 - Ailbennu Rhywedd
 - Rhyw
 - Hil – gan gynnwys gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
 - Anabledd
 - Beichiogrwydd a Mamolaeth
 - Priodas a Phartneriaeth Sifil
 - Tueddfryd Rhywiol
 - Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
365. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn benodol yn ystyried sut mae'r cynigion yn effeithio ar ddisgyblion gyda nodweddion a ddiogelir. Diben Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod y Cyngor wedi deall effaith bosibl y cynnig yn nhermau cydraddoldeb fel y gall sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau rhesymol a chymesur gan dalu sylw dyledus i'w ddyletswydd i sicrhau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y goblygiadau hyn wrth wneud y penderfyniad hwn ar drefniadau derbyn i ysgolion.
366. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wneir ar y Gymraeg ac yn unol â Chynllun Strategol Addysg Gymraeg, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gall hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gofynion hyn.
367. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried ei oblygiadau cyfreithiol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd dull cydlynol.
368. Mae hefyd ymrwymtiadau cyfreithiol dan Ddeddf Addysg 1996 sy'n nodi y dylai disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig gael eu derbyn i'r ysgol a nodir yn y datganiad a'r Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009 sy'n gofyn i'r Cyngor dderbyn plant sy'n derbyn gofal (yn unol â'r diffiniad yn adran

74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae'r adroddiad a'r trefniadau derbyn arfaethedig yn adlewyrchu'r ymrwymadau hyn.

Goblygiadau Trafnidiaeth

369. Mae gwasanaeth Gweithrediadau'r Ddinas wedi ymrwymo i hwyluso trafndiaeth gynaliadwy yng Nghaerdydd. Un o'r meysydd pwysicaf mewn perthynas â hyn yw sut mae rhieni a phlant yn teithio i ac o'r ysgol. Mae annog rhieni a phlant i fabwysiadu dulliau trafndiaeth gynaliadwy yn dwyn y manteision canlynol (mae'r ddau gyntaf yn berthnasol i'r pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth).

- Effaith ar rwydwaith – Mae teithio i ac o'r ysgol gan ddefnyddio dulliau teithio anghynaliadwy (e.e. petrol neu ddisel, cerbydau preifat) yn dwyn effaith andwyol ar yr amgylchedd leol a'r rhwydwaith priffyrdd ac yn ychwanegu pwysau sylweddol ar y ffyrdd perthnasol. Mae hyn yn achosi oedi ychwanegol i draffig cyffredinol ac, yn bwysicach fyth, i ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Felly, mae'n bwysig bod rhieni a phlant yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar y rhwydwaith.
- Arferion - Bydd annog plant i ddeall manteision, a mabwysiadu dulliau trafndiaeth gynaliadwy yn creu meddylfryd a fydd yn parhau i'r dyfodol. Felly mae'n bwysig ein bod ni'n addysgu plant am fanteision trafndiaeth gynaliadwy ac yn eu hannog nhw i deithio i ac o'r ysgol gyda hyn dan sylw.
- Iechyd – Mae pob dull trafndiaeth gynaliadwy yn tueddu i gynnwys mwy o weithgarwch corfforol yn ystod y daith i ac o'r ysgol. Mae hyn yn benodol berthnasol i gerdded a beicio ond hefyd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus (e.e. cerdded i ac o'r safle bws). Bydd annog plant i ddefnyddio dulliau trafndiaeth gynaliadwy felly'n cael effaith positif uniongyrchol ar eu hiechyd ynghyd â'r effeithiau anuniongyrchol a fydd yn deillio o'r meddylfryd sy'n parchu dulliau teithio.

370. Ni wyddys beth fydd goblygiadau traffig y cynnig hwn. Fodd bynnag, argymhellir yn gryf y dylid ystyried yn ofalus sicrhau bod plant yn gallu teithio i ac o'r ysgol gan ddefnyddio dull teithio cynaliadwy. Un o'r ffactorau mwyaf sy'n hwyluso hyn yw agosrwydd y plant at yr ysgol. Dylai'r ysgol fod o fewn pellter cerdded neu feicio i gymaint o blant ag sy'n bosibl. Os nad yw beicio neu gerdded yn opsiwn, dylid sicrhau bod gwasanaethau bws dibynadwy o safon ar gael. Argymhellir y dylid cynnal asesiad o'r manteision cymharol o bob opsiwn mewn perthynas â'r nodau uchod. Dylid pennu ffactorau megis pellter disgybl ar gyfartaledd o'r ysgol a dibynadwyedd a hwylustod trafndiaeth gyhoeddus. Gellid gwneud hyn gan ddefnyddio'r un dulliau a ddefnyddir ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth mewn perthynas â datblygiadau newydd.

Goblygiadau AD

371. Nid oes unrhyw oblygiadau AD yn deillio o'r adroddiad hwn na'i argymhellion.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

372. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrrff cyhoeddus sicrhau bod eu penderfyniadau yn ystyried yr effaith y gallant ei chael ar bobl a fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny mewn perthynas â'i drefniadau derbyn i ysgolion arfaethedig. Mae gofyn cyfreithiol ar bob Awdurdod Derbyn yng Nghymru yn ôl Adran 84 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (1998) (Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru) ac mae'r Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno. Ystyrir hefyd gyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu a hyrwyddo safonau uchel o Addysg dan Ddeddf Addysg 1996.

ARGYMHELLION

Argymhellir i'r Cabinet wneud y canlynol:

1. pennu Trefniadau Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor ar gyfer 2019/2020 fel y'u nodwyd ym Mholisi Derbyn 2019/2020.
2. nodi bod Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 yn gweithredu Dewis A ar gyfer derbyn i addysg uwchradd, fel y'i nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori (Atodiad 2).
3. nodi y bydd y Cabinet yn cael adroddiad dilynol ar ddiwygio dalgylchoedd ysgol ar gyfer 2020/2021.

NICK BATCHELAR
Cyfarwyddwr
9 Mawrth 2018

Atodir yr Atodiadau canlynol:

- Atodiad 1 – Polisi Derbyn i Ysgolion Drafft 2019/20 (fel y'i cyflwynwyd)
- Atodiad 2 – Dogfen ymgynghori Trefniadau Derbyn
- Atodiad 3 – Ymatebion Ffurfiol
- Atodiad 4 – Crynodeb o'r dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad
- Atodiad 5 – Crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg disgyblion
- Atodiad 6 – Dadansoddiad o'r effaith o drefniadau bwydo
- Atodiad 7 – Polisi Derbyn i Ysgolion Arfaethedig 2019/20
- Atodiad 8 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



**POLISI
DERBYN I
YSGOLION
2019/2020**

**CYNGOR CAERDYDD
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

1. **CYFLWYNIAD**
 - 1.1 Derbyn i Ysgolion
 - 1.2 Maes Perthnasol i'w Ymgynghori
 - 1.3 Nifer Derbyn Cyhoeddedig
 - 1.4 Ardaloedd Dalgylch Ysgolion Cymunedol
 - 1.5 Plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
 - 1.6 Trefniadau Derbyn Cydlynol i Ysgolion Uwchradd
 - 1.7 Diogel Data a Rheoliad Diogel Data Cyffredinol yr UE
2. **CYFLWYNO CAIS**
 - 2.1 Sut i Ymgeisio
 - 2.2 Cyn Ymgeisio
 - 2.3 Yr Ymgeisydd
 - 2.4 Ceisiadau ar amser (a gaiff eu hystyried yn ystod y 'cylich derbyn arferol')
 - 2.5 Ceisiadau hwyr (a gaiff eu hystyried yn tu allan i'r 'cylich derbyn arferol')
 - 2.6 Wrth ddyrannu lleoedd nid yw'r Cyngor yn ystyried
 - 2.7 Ceisiadau o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 11
3. **DERBYNIADAU I YSGOLION MEITHRIN CYMUNEDOL A DOSBARTHIAU MEITHRIN**
 - 3.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd
 - 3.2 Ceisiadau Hwyr
 - 3.3 Dim Hawl i gyflwyno Apêl Statudol
 - 3.4 Cyllid y Blynyddoedd Cynnar (CBC)
4. **DERBYNIADAU I YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL**
 - 4.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd
 - 4.2 Ceisiadau Hwyr
 - 4.3 Apeliadau Statudol
 - 4.4 Mynediad Hwyr
 - 4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir
5. **DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL**
 - 5.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd – Opsiwn 1
 - 5.2 Ceisiadau Hwyr
 - 5.3 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd – Opsiwn 2
 - 5.4 Ceisiadau Hwyr
 - 5.5 Apeliadau Statudol
6. **DERBYNIADAU I'R CHWECHED DOSBARTH**
7. **EGLURO'R MEINI PRAWF PAN FO MWY O GEISIADAU NA LLEOEDD**
 - 7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad
 - 7.2 Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) / Plant oedd yn Arfer Derbyn Gofal (PADG)
 - 7.3 Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir (CGIUA)
 - 7.4 Yn byw mewn dalgylch diffiniedig
 - 7.5 Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf
 - 7.6 Brodyr a chwiorydd
 - 7.7 Ysgol Fwydo
 - 7.8 Agosrwydd
8. **TYSTIOLAETH DDOGFENNOL ALL FOD EI HANGEN GAN YMGEISWYR**
 - 8.1 Cyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â phlentyn Personél Gwasanaeth y DU neu Weision eraill y Goron
 - 8.2 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Chyfeiriad Cartref Plentyn
 - 8.3 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Rhesymau Meddygol Cryf neu Resymau Cymdeithasol Cryf
9. **Y BROSES GYNIGION**
 - 9.1 Cynigion Ysgol
 - 9.2 Dim Cynigion Ysgol
 - 9.3 Tynnu Cynnig i Ysgol yn ôl
 - 9.4 Rhestrau Aros

Atodiad 1 – Niferoedd Derbyn i Ysgolion 2019/20

Atodiad 2 – Ysgolion Bwydo

1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyn i Ysgolion

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol lle y bo'n bosibl.

Mae gan rieni (y cyfeirir atynt hefyd fel 'ymgeiswyr' yn y ddogfen bolisi hon) yr hawl i fynegi dewis ysgol(ion) a fydd yn cael ei ystyried yn unigol a'i fodloni ati lle bo'n bosibl.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i gyfle cyfartal a diddymu gwahaniaethu. O ran derbyn i ysgolion, caiff pob disgybl a darpar ddisgybl ei drin yn deg, beth bynnag fo'i ryw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedligrwydd, iaith, gallu/anabledd neu gred grefyddol. Mae camau ar waith i sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn i ysgolion yn rhoi mantais annheg neu anfantais annheg i unrhyw grwpiau drwy weithredu rheolau neu amodau nad yw'n bosibl i bawb gydymffurfio â hwy.

Caiff yr holl dderbyniadau i ddsbarthiadau cymunedol ac ysgolion cymunedol eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Caerdydd.

1.2 Maes Perthnasol i'w Ymgynghori

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Ardaloedd Ymgynghori Perthnasol ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd yw ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor Sir).

1.3 Nifer Derbyn Cyhoeddedig

Yn y cylch derbyn arferol, mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion tan y byddant wedi cyrraedd eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Ni fydd cais derbyn i ysgol yn cael ei wrthod mewn unrhyw ysgol nes bydd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i gyrraedd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]). Cyfrifwyd y nifer derbyn cyhoeddedig yn unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" cylchlythyr 021/2011. Gan fod y nifer hwn yn seiliedig ar gapasiti ffisegol yr ysgol i dderbyn disgyblion, ni ddylid derbyn mwy na'r nifer hwn dan amgylchiadau arferol.

1.4 Ardaloedd Dalgylch Ysgolion Cymunedol

Mae gwybodaeth am ddalgylchoedd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o ddalgylchoedd ysgolion sydd ag ysgolion cynradd cymunedol a gynhelir wedi'u grwpio gyda'i gilydd i ffurfio dalgylchoedd ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghaerdydd.

Gall dalgylchoedd newid, a chynhelir ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau cyn eu gweithredu. Ni allwn warantu lle i blentyn yn ei ysgol ddalgylch.

- 1.5 Plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**
Pan fo ysgol gymunedol yn cael ei henwi mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi lle i'r plentyn yn yr ysgol.
- 1.6 Trefniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol**
Bydd y Cyngor yn dal i gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion uwchradd, sy'n berthnasol i'r holl ysgolion uwchradd cymunedol; Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi; Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ac Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd.
- 1.7 Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE**
Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu'n unol â Deddf Diogelu Data 1998.

DRAFT

2. CYFLWYNO CAIS

2.1 Sut i Ymgeisio

Mae'n rhaid cyflwyno cais i'r ysgol y mae rhiant yn dymuno i'w plentyn fynd iddi. Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau drwy Wasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy ffurflen ddewis wedi'i chwblhau a'i hanfon dros e-bost at derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk neu at Derbyniadau i Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Nid yw'r Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddata sy'n mynd ar goll o ganlyniad i'r dull y dewisodd yr ymgeisydd ei ddefnyddio i anfon y data.

2.2 Cyn Ymgeisio

Mae cyfleuster ar wefan Cyngor Caerdydd sy'n galluogi i rieni gyflwyno manylion eu plentyn a derbyn gwybodaeth ar sut i ymgeisio am le ysgol ar yr adeg gywir yn unol ag amserlen derbyniadau'r Cyngor.

Dylai rhieni sydd wedi cofrestru manylion y plentyn cyn iddynt gyrraedd oed meithrin gyda'r Cyngor ymgeisio am le meithrin cymunedol drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Dylai rhieni sydd wedi cofrestru manylion eu plentyn oed meithrin neu iau gyda'r Cyngor ymgeisio am le mewn dosbarth derbyn yn eu hysgol(ion) gynradd gymunedol ddewis yn ystod Tymor yr Hydref cyn derbyn, drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Yn ystod Tymor yr Hydref, cyn derbyn, gwahoddir rhieni plant yn ngrŵp oedran Blwyddyn 6 i enwebu eu hysgol(ion) uwchradd ddewis drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Gall unrhyw riant sydd heb gofrestru ei blentyn ymlaen llaw dal wneud cais am le mewn ysgol.

2.3 Yr Ymgeisydd

Dim ond ceisiadau a gyflwynir gan 'riant' y plentyn (fel y'i diffinnir yn Adran 576 Deddf Addysg 1996) fydd yn cael eu hystyried gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant i'r plentyn neu berson ifanc ond sydd â chyfrifoldeb rhianta drosto neu'n gofalu amdano.

2.4 Ceisiadau ar amser (a gaiff eu hystyried yn ystod y 'cylch derbyn arferol')

Derbyn i'r Dosbarth Meithrin ar ôl dechrau'r Tymor:

Bydd rhieni a gyflwynodd gais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael gwybod canlyniad eu cais erbyn y dyddiad rhoi gwybod cyhoeddedig. Gweler paragraffau 3.1.1; 3.1.2 a 3.1.3 i gael rhagor o fanylion ar y dyddiadau cyhoeddedig.

Derbyn i Ddosbarth Derbyn o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, sef Dydd Llun, 7 Ionawr 2019, fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ar Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2019.

Trosglwyddo i Flwyddyn 7 o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, sef Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ar Dydd Gwener, 1 Mawrth 2019.

2.5 Ceisiadau hwyr (a gaiff eu hystyried yn tu allan i'r 'cylich derbyn arferol')

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â meini prawf cyhoeddedig y Cyngor.

Ar ôl y dyddiadau cau'r rownd cyntaf, mae'r dyddiadau cau nesaf fel a ganlyn:

- Derbyn i Addysg Feithrin – y diwrnod olaf o bob mis
- Derbyn i Addysg Gynradd (Dosbarth Derbyn o fis Medi) – 30 Ebrill 2019
- Trosglwyddo i Addysg Uwchradd (Blwyddyn 7 o fis Medi) – 15 Mawrth 2019

Y dyddiadau ar gyfer rowndiau dilynol fydd y diwrnod olaf o bob mis.

Bydd ceisiadau a wrthodwyd o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny, yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw leoedd allai godi wedi hynny.

2.6 Wrth ddyrannu lleoedd nid yw'r Cyngor yn ystyried

At ddibenion derbyn i Feithrinfa Gymunedol:

- Yr ysgol gynradd benodol y mae'r plentyn yn debygol i'w mynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol feithrin wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol feithrin;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored.

At ddibenion derbyn i Ysgol Gynradd Gymunedol:

- Yr ysgol uwchradd benodol y mae'r plentyn yn debygol i'w mynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol;
- Presenoldeb mewn Dosbarth Meithrin Cymunedol yn yr un ysgol – rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored/pontio.

At ddibenion derbyn i Ysgol Uwchradd Gymunedol:

- Y chweched dosbarth penodol y mae'r plentyn yn debygol i'w fynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol feithrin wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored/pontio.

2.7 Ceisiadau o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 11

Gall rhieni fynegi mwy nag un ysgol ddewis. Bydd dewis uchaf y rhiant yn cael ei gynnig os yw ar gael. Bydd dewisiadau is yn cael eu cynnig os nad yw dewis(iadau) uwch y rhieni ar gael.

3. DERBYNIADAU I YSGOLION MEITHRIN CYMUNEDOL A DOSBARTHIADAU MEITHRIN

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Meithrin Cymunedol a gynhelir a Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion Cymunedol yn Ninas a Sir Caerdydd.

Mae gan blant yr hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Er bod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, mae'n rhaid i blant fynychu am bump hanner diwrnod os yw'r cynnig o le mewn ysgol feithrin cymunedol wedi'i dderbyn.

Gall plant gael eu derbyn neu eu trosglwyddo i ysgol feithrin gymunedol drwy gydol y flwyddyn academaidd yn dibynnu ar faint o leoedd sydd ar gael.

Pan mae llawer o leoedd ar ôl mewn ysgol feithrin gymunedol, bydd pob ymgeisydd yn cael lle meithrin.

3.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

Os oes mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol feithrin gymunedol, bydd ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn unol â meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1.(a) yr uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy:

1. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef Dydd Llun 18 Chwefror 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2016 (cynhwysol):
 - (a) Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
 - (b) Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
 - (c) Plant sydd â brawd neu chwaer (mewn unrhyw grŵp oedran rhwng Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 yn gynhwysol) fydd ar gofrestr yr ysgol y mae'r dosbarth meithrin ynddi pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (d) Plant y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (e) Plant sy'n byw agosaf at yr ysgol/dosbarth meithrin, wedi'i fesur gan y llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael.
2. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef Dydd Llun 01 Gorffennaf 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Rhagfyr 2016 (cynhwysol), mae meini prawf (a) i (e) [fel yr uchod] yn berthnasol.

*Pan fo nifer y dewisiadau a fynegwyd fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

3. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef Dydd Llun 01 Gorffennaf 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Mawrth 2017 (cynhwysol), mae meini prawf (a) i (e) [fel yr uchod] yn berthnasol.

3.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol feithrin gymunedol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor.

3.3 Dim Hawl i gyflwyno Apêl Statudol

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl statudol i apelio dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 os na fyddant yn llwyddo i gael lle meithrin.

Nid yw mynychu Dosbarth Meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

3.4 Cyllid y Blynnyddoedd Cynnar (CBC)

Pan nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir i gyfeiriad cartref plentyn (fel sydd wedi'i fesur ar y llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael), gall rhieni wneud cais am arian i sicrhau lle addysg feithrin (y cyfeirir ato hefyd fel CBC) gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd. Mae'n rhaid i'r disgyblion fod yn byw yng Nghaerdydd ac mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif geni plentyn gyda chais am CBC. Efallai bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o'u cyfeiriad.

Lle bo lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn, bydd y Cyngor ond yn cymeradwyo ceisiadau am CBC gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd pan fo rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol sy'n ei gwneud yn amhriodol i'r plentyn fynychu'r ddarpariaeth feithrin sydd ar gael. Rhaid i argymhelliad ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol dyddiedig ddim mwy na thri (3) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais roi manylion yn egluro pam na all y plentyn fynychu unrhyw un o'r Ysgolion Meithrin Cymunedol sydd ar gael.

Dylid cyflwyno ceisiadau CBC yn ystod y tymor cyn y bydd y plentyn yn gymwys i gael cyllid neu os yw'r plentyn yn dechrau mewn ysgol feithrin gyda darparwr cydnabyddedig yn hwyrach ymlaen, dylid cyflwyno ceisiadau yn ystod y tymor y cafodd y plentyn ei dderbyn. Ni fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau ôl-weithredol am gyllid pan fyddai lle mewn Ysgol Feithrin Cymunedol wedi bod ar gael o fewn dwy (2) filltir i gyfeiriad cartref y plentyn (wedi'i fesur yn unol â'r llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael), ond nid yw ar gael mwyach gan fod yr ymgeisydd wedi oedi wrth ymgeisio.

Yn ogystal, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo ceisiadau am CBC pan gynigiodd y Cyngor le mewn Ysgol neu Ddosbarth Meithrin Cymunedol ar adeg ymgeisio ond cafodd ei wrthod gan yr ymgeisydd.

4. DERBYNIADAU I YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Cynradd Cymunedol a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd.

Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn (y cyfeirir ato hefyd fel 'Blwyddyn 0') ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 yn ystod y rownd dderbyn arferol.

Gall plant gael eu derbyn neu drosglwyddo i ysgol gynradd gymunedol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn amodol ar argaeledd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

Pan nad yw'r holl leoedd mewn ysgol gynradd gymunedol wedi'u llenwi, mae modd cynnig lle i bob ymgeisydd (heblaw am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

4.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol gynradd gymunedol, bydd blaenoriaethau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a nodir gan y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1 yn uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy a fel arfer ni fydd yn uwch na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol na'n torri'r cyfyngiadau a osodwyd gan uchafswm maint dosbarth (3) lle bo hyn yn berthnasol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig ysgol **ac** y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *

*Pan fo mwy o ddewisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

6. Disgyblion y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
7. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
8. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf.

4.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol gynradd gymunedol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor (fel yr uchod).

4.3 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn heb gael lle mewn ysgol gynradd gymunedol, gallwch gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Statudol Annibynnol.

4.4 Mynediad Hwyr

Nid oes rhaid i blentyn ddechrau mewn ysgol gynradd tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 5 oed, fodd bynnag, nid oes modd gohirio'r dyddiad dechrau tan ar ôl dechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 5 oed. Mae'r lle gohiriedig yn cael ei gadw i'r plentyn, a ni fydd ar gael i unrhyw blentyn arall. Argymhellir bod unrhyw ystyriaeth i ohirio'n cael ei drafod gyda Phennaeth yr ysgol gynradd benodol honno.

4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir

Yn achos Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg (ysgol gynradd wirfoddol a reolir), mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb dros dderbyniadau i'r Corff Llywodraethu. Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd yn uniongyrchol i'r ysgol.

Nid yw mynychu Dosbarth Meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

5. DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Uwchradd Cymunedol a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd.

Bydd disgyblion yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 yn ystod mis Medi ar ôl eu penblwydd yn 11 oed yn ystod y rownd dderbyn arferol.

Gall plant gael eu derbyn neu drosglwyddo i ysgol uwchradd cymunedol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn amodol ar argaeledd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

Pan nad yw'r holl leoedd mewn ysgol uwchradd gymunedol wedi'u llenwi, mae modd cynnig lle i bob ymgeisydd (heblaw am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.48 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

5.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd – OPSIWN UN (1)

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol uwchradd gymunedol, bydd blaenoriaethau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a nodir gan y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1 yn uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy a fel arfer ni fydd yn uwch na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig ysgol **ac** y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **a** sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
6. Disgyblion y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *

*Pan fo nifer y blaenoriaethau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

7. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
8. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf.

5.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol uwchradd gymunedol a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor (fel yr uchod).

5.3 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd – OPSIWN DAU (2)

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol uwchradd cymunedol, bydd blaenoriaethau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a nodir gan y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1 yn uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy a fel arfer ni fydd yn uwch na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig ysgol **ac** y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** sydd ar gofrestr ysgol fwydo **a** sydd â brawd neu chwaer oedran ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **a** sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** sydd ar gofrestr ysgol fwydo. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
7. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *

*Pan fo nifer y blaenoriaethau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

8. Disgyblion y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
9. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
10. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf.

5.4 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol uwchradd gymunedol ac yn defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor (fel yr uchod).

5.5 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn heb gael lle mewn ysgol uwchradd gymunedol, gallwch gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Statudol Annibynnol.

Nid yw bod ar gofrestr ysgol gynradd gymunedol yn yr un dalgylch ag ysgol uwchradd gymunedol yn awtomataidd yn gwneud plentyn yn gymwys i gael lle yn yr ysgol. Rhaid gwneud cais newydd i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

6. DERBYNIADAU I'R CHWECHED DOSBARTH

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am bennu trefniadau derbyn i chweched dosbarth i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd Cymunedol. Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd yn uniongyrchol i'r ysgol.

DRAFT

7. EGLURO'R MEINI PRAWF PAN FO MWY O GEISIADAU NA LLEOEDD

7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad

Mae'n rhaid defnyddio cyfeiriad cartref y plentyn ar y cais; y lle y mae'r plentyn yn byw am fwyaf yr wythnos ysgol. Gweler 'Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Chyfeiriad Cartref Plentyn' (8.2). Efallai na fydd y Cyngor yn derbyn y cyfeiriad a roddir os nad oes tystiolaeth bod rhiant y plentyn yn byw yn yr eiddo.

Er mwyn bod yn gymwys fel 'cyfeiriad cartref plentyn', at ddibenion derbyn, rhaid nodi'r lle y mae'r plentyn yn byw ynddo ar ddyddiad cyflwyno'r cais. Os yw'r plentyn yn symud cyfeiriad ar ôl ymgeisio a chyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn derbyn yn yr ysgol, mae'n rhaid i'r rhiant roi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) gan nodi'r cyfeiriad newydd, fel arall bydd unrhyw gynnig ysgol a wnaed yn cael ei dynnu yn ôl a bydd angen cais newydd.

Os yw'r plentyn yn symud yn agosach at ysgol ddewis sydd â mwy o geisiadau na lleoedd (neu'n symud i'r dalgylch o'r tu allan i'r dalgylch) ar ôl ymgeisio, os roedd cynnig i'r ysgol â mwy o geisiadau na lleoedd eisoes wedi'i wneud, ni fydd hyn yn effeithio ar y cynnig.

Os yw'r plentyn yn symud ymhellach i ffwrdd o ysgol ddewis sydd â mwy o geisiadau na lleoedd (neu'n symud o'r dalgylch o'r tu mewn i'r dalgylch) ar ôl ymgeisio, os roedd cynnig i'r ysgol â mwy o geisiadau na lleoedd eisoes wedi'i wneud, efallai y bydd y cynnig hwn yn cael ei dynnu yn ôl a phenderfyniad ysgrifenedig newydd yn cael ei anfon (e-bost neu lythyr).

7.2 Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) / Plant oedd yn Arfer Derbyn Gofal (PADG)

Mewn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y'i diffinnir yn Rhan 22 Deddf Plant 1989 a Rhan 74 Deddf Gwasanaethau a Llesiant [Cymru] 2014), mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (y rhiant corfforaethol) wneud cais a chyflwyno tystiolaeth ategol (megis Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro) gyda'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae **dyletswydd** ar y Cyngor i **dderbyn** y plentyn i'r ysgol a rhoi blaenoriaeth uchaf yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Yn achos plentyn oedd yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y'i ddiffinnir gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013), rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol (llythyr gan yr Awdurdod Lleol perthnasol [cyn-rhiant corfforaethol]) gyda'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae **dyletswydd** ar y Cyngor i **roi blaenoriaeth uchaf** yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

7.3 Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir (CGIUA)

Mae CIUAau wedi eu neilltuo i blant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion. Mae paneli aml-asiantaeth yn dyrannu cyllid i blentyn ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth, drwy Gynllun Datblygiad Unigol er mwyn sicrhau y gall y plentyn dderbyn cymorth i gael mynediad at eu hawl i ysgol.

7.4 Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol

Gallwch weld dalgylchoedd diffiniedig ysgolion cynradd ac uwchradd ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

7.5 Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol, rhaid i argymhelliad ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol dyddiedig ddim mwy na 6 (chwech) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais roi resymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol.

7.6 Brodyr a chwiorydd

Bydd y Cyngor ond yn ystyried brodyr a chwiorydd oed ysgol gofynnol (ar gyfer ceisiadau ysgol feithrin a chynradd mae hyn yn cyfeirio at Ddosbarth Derbyn tan Blwyddyn 6 ac ar gyfer ceisiadau i ysgolion uwchradd mae hyn yn golygu o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11):

- Sydd wedi'u henwi'n glir ar y cais **ac**
- Sy'n byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef **ac**
- Sy'n mynychu'r ysgol gynradd ddewis (nid meithrin) **neu**
- Sy'n mynychu'r ysgol uwchradd ddewis (nid y chweched dosbarth).

Diffinnir brawd neu chwaer, at ddibenion derbyn, fel a ganlyn: brawd/chwaer; hanner-brawd/hanner-chwaer (plant sydd ag un rhiant cyffredin); llys-frawd/llys-chwaer (pan fo plant yn perthyn gan fod eu rhieni wedi priodi, yn byw gyda'i gilydd neu mewn partneriaeth sifil); plentyn wedi'i fabwysiadu neu ei faethu.

7.7 Ysgol Fwydo

Byddai gweithredu Derbyn i Ysgol Uwchradd Gymunedol – Meini Prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd Opsiwn Dau (2), yn blaenoriaethu ymgeiswyr y mae eu plant yn mynd i ysgol gynradd benodol yn uwch na'r rheiny y mae eu plant yn mynd i ysgol gynradd nad yw'n cael ei hystyried yn ysgol fwydo. (Gweler atodiad 2 am fanylion ar ysgolion bwydo).

7.8 Agosrwydd

*Y maen prawf yma yw'r olaf fydd yn cael ei ddefnyddio o'r holl feini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Os yw nifer y blaenoriaethau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn unrhyw faen prawf uwch, bydd agosrwydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn penderfynu pa ddisgyblion fydd yn cael eu derbyn.

Mae'r Cyngor wedi datblygu System Wybodaeth Ddaearyddol (SWD), y cyfeirir ati fel 'Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig' (RTI), wedi'i greu yn unol â Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r meini prawf pennu llwybrau yn Narpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014. Bydd y llwybr mwyaf diogel byrraf sydd ar gael (fel y'i diffinnir yn 'Darpariaeth Statudol Teithio Dysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014' Llywodraeth Cymru) yn cael ei gyfrifo (i 4 pwynt degol) o gyfesurynnau cartref ymgeisydd (a gaiff ei bennu gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol [RhTELI] data pwynt cyfeiriad), i'r gât ysgol agored agosaf gan ddefnyddio data llwybr Arolwg Ordnans.

- a) Pan nad oes llwybr diogel ar gael, defnyddir y pwynt agosaf ar yr RTI i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyfrifo'r llwybr gyrru byrraf i'r gât ysgol agored agosaf.
- b) Dyrannu'r Lleoedd Olaf: Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

8. TYSTIOLAETH DDOGFENNOL ALL FOD EI HANGEN GAN YMGEISWYR

Efallai y bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno dogfennaeth **glir** ac **eglwur** (e-bost: derbyniadauysgolion@caerdydd.gov.uk) fel prawf o'u cymhwysedd ar gyfer un neu fwy o feini prawf derbyn. Pan nad yw tystiolaeth ddogfennol foddhaol yn cael ei derbyn, ni fydd lle yn cael ei gynnig mewn ysgol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd yn seiliedig ar y rhesymau derbyn.

Yn ddibynnol ar ganiatâd ymgeisydd wrth gyflwyno cais, gall asiantau llywodraeth eraill wirio'r dystiolaeth gan gynnwys (os yw'n briodol) ysgol bresennol y plentyn.

8.1 Cyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â phlentyn Personél Gwasanaeth y DU neu Weision eraill y Goron

Bydd plant personél gwasanaeth y DU (Lluoedd Arfog y DU) neu Weision eraill y Goron yn cael eu trin fel eu bod yn byw mewn cyfeiriad i'r dyfodol os yw'r cais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd sicr a chadarnhad o'r cartref newydd neu'r cyfeiriad post newydd.

Bydd ceisiadau ar gyfer plant cyn-bersonél gwasanaeth y DU neu Weision y Goron eraill yn cael eu trin fel pob cais arall.

8.2 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Chyfeiriad Cartref Plentyn

Er mwyn profi preswylfa mewn 'Cyfeiriad Cartref Plentyn' honedig, bydd angen y ddogfennaeth ganlynol.

Prawf Preswylfa yn y Cyfeiriad Presennol

Cytundeb tenantiaeth:

- Mae'n rhaid i Ddyddiad Dechrau'r Tenantiaeth fod ar neu cyn dyddiad cyflwyno'r cais **ac** mae'n rhaid i Ddyddiad Gorffen y Tenantiaeth fod ar neu cyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

Datganiad Morgais:

- Rhaid i ddyddiad y datganiad fod yn ddim mwy na 6 (chwech) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Gohebiaeth y Dreth Gyngor (bil/llythyr/datganiad):

- Yn cyfeirio at daliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer yr eiddo sydd wedi'i nodi fel cyfeiriad cartref y plentyn.

Gohebiaeth gan Gyflenwyr Gwasanaethau (bil/llythyr/datganiad trydan/nwy/dŵr):

- Yn cyfeirio at daliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer yr eiddo sydd wedi'i nodi fel cyfeiriad cartref y plentyn;
- Mae'n rhaid i ddyddiadau biliau Trydan a Nwy (neu Danwydd Deuol) fod â dyddiad ddim mwy na 6 mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Gohebiaeth am Fudd-daliadau Plant:

- Rhaid i ddyddiad yr ohebiaeth fod ddim mwy na 6 mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Prawf Preswylfa yn y Cyfeiriad Newydd

Os bydd plentyn yn symud i gyfeiriad newydd ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais a chyn y dyddiad y bydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol:

Eiddo ar Les:

- Bydd angen cytundeb tenantiaeth newydd sy'n gorfod nodi dyddiad diwedd ar neu ar ôl y dyddiad y byddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol;

Eiddo a Berchnogir:

- Bydd angen derbyn dogfen contractau â dyddiad ddim mwy na 6 (chwech) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Yn ddibynnol ar ganiatâd ymgeisydd wrth gyflwyno cais, bydd y dystiolaeth yn cael ei gwirio yn erbyn cofnodion gan y Dreth Gyngor, y Gofrestr Etholiadol, plentyn yr ysgol (os yw'n briodol) a sefydliadau allanol gan gynnwys asiantaethau gwirio credyd. Os nad yw'r Cyngor yn fodlon ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni fydd 'cyfeiriad cartref y plentyn' honedig yn cael ei dderbyn at ddibenion y cais am le.

8.3 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Rhesymau Meddygol Cymhellol neu Resymau Cymdeithasol Cymhellol

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol, rhaid i argymhelliad ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol dyddiedig ddim mwy na 6 (chwech) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais roi resymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol.

Yn ddibynnol ar ganiatâd ymgeisydd wrth gyflwyno'r cais, efallai y bydd asiantau llywodraeth eraill yn gwirio'r dystiolaeth a ddarperir gan gynnwys ysgol bresennol y plentyn (os yw'n briodol).

9. Y BROSES GYNIGION

9.1 Cynigion Ysgol

Os oes modd cynnig mwy nag un lle i blentyn, bydd blaenoriaeth uchaf yr ymgeisydd yn cael ei gynnig. Bydd unrhyw le ysgol arall all gael ei gynnig yn cael ei gynnig i blentyn arall.

Ni fydd penderfyniadau nac ymatebion yn cael eu datgan dros y ffôn. Byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig (e-bost neu lythyr).

Bydd unrhyw gynnig nad yw'n cael ei dderbyn erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad penderfyn'n cael ei dynnu yn ôl a'i gynnig i blentyn arall.

Os caiff cynnig i flaenoriaeth ysgol gymunedol uwch ei wrthod gan yr ymgeisydd ar sail yr ymgeisydd yn nodi bod ysgol wahanol wedi dod yn ysgol ddewis, mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd er mwyn ystyried blaenoriaeth ysgol gymunedol.

9.2 Dim Cynigion Ysgol

Bydd ymgeiswyr sy'n derbyn cadarnhad ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) yn rhoi gwybod nad yw'r plentyn wedi cael cynnig mewn unrhyw un o'u blaenoriaethau ysgol, yn derbyn ffurflen ddewis arall, manylion am ysgolion cymunedol gyda lleoedd gwag ac (ar gyfer ceisiadau derbyn i grŵp oedran ysgol gorfodol) gwybodaeth ynghylch eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

9.3 Tynnu Cynnig i Ysgol yn ôl

Cyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol, byddai unrhyw le posibl yn gallu cael ei dynnu yn ôl os yw'n dod i'r amlwg bod amgylchiadau'r plentyn yn wahanol i'r amgylchiadau pan gynigiwyd lle iddo. Bydd penderfyniad ysgrifenedig newydd (e-bost neu lythyr) yn cael ei anfon.

9.4 Rhestrau Aros

Os nad yw ymgeisydd yn cael lle mewn ysgol feithrin, cynradd nac uwchradd cymunedol, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros ar gyfer yr ysgol flaenoriaeth oni bai bod yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor bod angen tynnu'r plentyn oddi ar y rhestr aros.

Bydd ymgeiswyr sydd heb gael lle mewn Dosbarth Meithrin ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed yn aros ar restr aros tan diwedd Tymor yr Haf 2020.

Bydd ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus ar gyfer lle mewn Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7 i ddechrau yn yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd (y cyfeirir ato hefyd fel y 'rownd dderbyn arferol'), yn dal i fod ar restr aros tan diwedd Tymor yr Hydref 2019.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus sydd heb gael lle o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 11 (cynhwysol) lle derbyniwyd y cais y tu allan i'r rownd dderbyn arferol (y cyfeirir ato hefyd fel 'cais yn y flwyddyn'), yn dal i fod ar y rhestr aros tan diwedd y tymor pan fyddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

Sylwch nad ydym yn blaenoriaethu lleoedd ar sail y cyfnod y mae'r plentyn wedi bod ar y rhestr aros. Mae'r flaenoriaeth yn amrywio yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Caiff eich cais ei ystyried yn

unol â'r meini prawf a chaiff unrhyw leoedd sy'n dod ar gael eu dyrannu ar y sail honno. Gallai safle plentyn ar y rhestr aros newid, gan y gallai ceisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Os yw plentyn yn cael ei ddyrannu oddi ar y rhestr aros, byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn gofyn iddynt gadarnhau a ydynt yn derbyn lle. Ar ôl derbyn, bydd unrhyw le ysgol arall y gallai'r plentyn fod wedi'i gael yn cael ei ryddhau a'i gynnig i blentyn arall.

Unwaith y mae dyddiad gorffen y rhestr aros wedi mynd heibio, os yw plentyn am i'w plentyn barhau i gael ei ystyried am le, bydd angen cyflwyno cais newydd.

Ni allwn warantu lle i blentyn yn ei ysgol ddalgylch nac yn yr ysgol y mae ei frodyr neu chworiydd yn ei mynychu.

Atodiad 1

Niferoedd Derbyn i Ysgolion 2019/20

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Adamsdown	60
Ysgol Gynradd Albany	60
Ysgol Gynradd Allensbank	45
Ysgol Gynradd Baden Powell	60
Ysgol Gynradd Llwynbedw	58
Ysgol Gynradd Bryn Celyn	30
Ysgol Gynradd Bryn Deri	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Bryn Hafod	60
Ysgol Gynradd Coed Glas	75
Ysgol Gynradd Coryton	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Creigiau (Saesneg)	29
Ysgol Gynradd Danescourt	60
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	40
Ysgol Gynradd Gabalfa	30
Ysgol Gynradd Gladstone	30
Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon	41
Ysgol Gynradd Glyncoed	60
Ysgol Gynradd Grangetown	60
Ysgol Gynradd Greenway	30
Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth Primary School (Saesneg)	7
Ysgol Gynradd Hawthorn	30
Ysgol Gynradd Herbert Thompson	60
Ysgol Gynradd Howardian	60
Ysgol Gynradd Hywel Dda	60
Ysgol Gynradd Kitchener	60
Ysgol Gynradd Lakeside	60
Ysgol Gynradd Lansdowne	60
Ysgol Gynradd Llanedern	55
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	60
Ysgol Gynradd Llysfaen	60
Ysgol Gynradd Marlborough	60
Ysgol Gynradd Meadowlane	45
Ysgol Gynradd Millbank	30

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Moorland	60
Ysgol Gynradd Mount Stuart	60
Ysgol Gynradd Parc Ninian	90
Ysgol Gynradd Oakfield	60
Ysgol Gynradd Pencaerau	30
Ysgol Gynradd Pentre-baen	30
Ysgol Gynradd Pentyrch	20
Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	30
Ysgol Gynradd Peter Lea	45
Ysgol Gynradd Pontprennau	60
Ysgol Gynradd Radnor	45
Ysgol Gynradd Radur	60
Ysgol Gynradd Rhiwbeina	75
Ysgol Gynradd Rhydypenau	60
Ysgol Gynradd Parc y Rhath	58
Ysgol Gynradd Tredelerch	60
Ysgol Gynradd Severn	60
Ysgol Gynradd Springwood	60
Ysgol Gynradd Stacey	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	60
Ysgol Gynradd Tongwynlais	28
Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen	60
Ysgol Gynradd Trelái	60
Ysgol Gynradd Trowbridge	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd	90
Ysgol Gynradd Willowbrook	60
Ysgol Gynradd Windsor Clive	60
Ysgol Bro Eirwg	60 ⁽¹⁾
Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof	60
Ysgol Gynradd Gymraeg Creigiau	29
Ysgol Glan Ceubal	30
Ysgol Glan Morfa	60
Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth	26
Ysgol Hamadryad	60
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	60
Ysgol Mynydd Bychan	30 ⁽¹⁾
Ysgol Pencae	30 ⁽¹⁾

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes	30
Ysgol Gymraeg Pwll Coch	60
Ysgol Gymraeg Treganna	90
Ysgol y Berllan Deg	60 ⁽¹⁾
Ysgol Y Wern	75
Ysgol Gymraeg Nant Caerau	30
Ysgol Pen-y-Pil	30
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg	15
Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bishop Childs	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd	35
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf	60
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert	22
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis	55
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ioan Llwyd	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn Fair	60
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	37
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	20
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	45
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul	30 ⁽¹⁾
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr	75
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans	52
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville	30
Ysgolion Uwchradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd Cantonian	181
Ysgol Uwchradd Caerdydd	240
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	240

Ysgolion Uwchradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd Cathays	165
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	240
Ysgol Uwchradd Fitzalan	300 (Bln 7-8) a 286 (Bln 9-11)
Ysgol Uwchradd Llanisien	300
Ysgol Gyfun Radur	210
Ysgol Uwchradd Willows	224
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	240
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	180
Ysgol Bro Edern	180
Ysgolion Uwchradd Sefydledig	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	390
Ysgolion Uwchradd Gwirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf	180
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi	186
Ysgol Uwchradd Gatholig y Fair Ddihalog	159
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant	176
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant	240

Dylid nodi ei bod yn bosibl y bydd angen newid rhai niferoedd derbyn wrth ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion.

(1) Bwriedir cadw'r nifer derbyn presennol ar gyfer **2019** fel y caniateir gan reoliadau LIC, yn dilyn trafodaethau helaeth â'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr i gytuno ar ffordd briodol ymlaen yn unol â'r galw am leoedd a chapasiti'r safle.

Atodiad 2

Ysgolion Bwydo

Tabl 1: Rhestr yr Ysgolion Uwchradd gyda'u Hysgolion Bwydo:

Ysgol Uwchradd	Ysgol Fwydo
Ysgol Uwchradd Cantonian	Ysgol Gynradd y Tyllgoed
Ysgol Uwchradd Cantonian	Ysgol Gynradd Pentre-baen
Ysgol Uwchradd Cantonian	Ysgol Gynradd Peter Lea
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Ysgol Gynradd Howardian
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Ysgol Gynradd Lakeside
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Ysgol Gynradd Marlborough
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Ysgol Gynradd Rhydypenau
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Ysgol Gynradd Parc y Rhath
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Herbert Thompson
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Hywel Dda
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Millbank
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Pencaerau
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Trelái
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Windsor Clive
Ysgol Uwchradd Cathays	Ysgol Gynradd Albany
Ysgol Uwchradd Cathays	Ysgol Gynradd Allensbank
Ysgol Uwchradd Cathays	Ysgol Gynradd Gladstone
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Bryn Hafod
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Greenway
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Meadowlane
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Oakfield
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Tredelerch
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Trowbridge
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Ysgol Gynradd Willowbrook
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Grangetown
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Kitchener
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Lansdowne
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Mount Stuart
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Parc Ninian
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Radnor
Ysgol Uwchradd Fitzalan	Ysgol Gynradd Severn
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Bryn Celyn
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Coed Glas
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Glyncoed
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Llanedern
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Llanisien Fach
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Llysfaen
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Pontprennau
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Springwood

Ysgol Uwchradd	Ysgol Fwydo
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig
Ysgol Uwchradd Llanisien	Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Bryn Deri
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Creigiau
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Danescourt
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Pentyrch
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Radur
Ysgol Gyfun Radur	Ysgol Gynradd Tongwynlais
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Llwynbedw
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Coryton
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Gabalfa
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Hawthorn
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Rhiwbeina
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd
Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd	Ysgol Gynradd Llanisien Fach
Ysgol Uwchradd Willows	Ysgol Gynradd Adamsdown
Ysgol Uwchradd Willows	Ysgol Gynradd Baden Powell
Ysgol Uwchradd Willows	Ysgol Gynradd Moorland
Ysgol Uwchradd Willows	Ysgol Gynradd Stacey
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder	Ysgol Bro Eirwg
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder	Ysgol Pen-y-Pil
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder	Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder	Ysgol y Berllan Deg
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Glan Ceubal
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Glan Morfa
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Hamadryad
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Mynydd Bychan
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Y Wern
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Ysgol Gynradd Creigiau
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Ysgol Gymraeg Nant Caerau
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ysgol Pencae
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Ysgol Gymraeg Treganna



Trefniadau Derbyn Ysgolion 2019-2020

Dogfen Ymgynghori

Cyfnod yr ymgynghoriad:
12 Rhagfyr 2017 – 30 Ionawr 2018

Mae modd darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir hefyd cael y wybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn.

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Mae Eich Barn yn Bwysig
3. Esboniad o'r Termau a ddefnyddir
4. Swyddogaeth Cyngor Caerdydd fel Awdurdod Derbyn
5. Trefniadau Derbyn i Ysgolion Caerdydd 2018/19
6. Cefndir y newidiadau arfaethedig
7. Grwpiau oed perthnasol ar gyfer y Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/2020
8. Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 i ymgynghori arnynt
9. Derbyn i addysg Feithrin a derbyn i addysg Gynradd
10. Derbyn i addysg Uwchradd
11. Effaith y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf
12. Ansawdd a Safonau
13. Pa effaith fyddai ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?
14. Materion Cydraddoldeb
15. Effaith y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf ar yr Iaith Gymraeg
16. Ystyried Effaith Gymunedol
17. Trefniadau Dalgylchoedd
18. Materion Cludiant
19. Trefniadau Teithio Dysgwyr
20. Beth sy'n Digwydd Nesaf?
21. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bobl ddysgu am newidiadau arfaethedig i Drefniadau Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Dyma eich cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fo'r Cyngor yn penderfynu ar sut i fynd yn ei flaen.

Dylid ystyried y wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori hon ar y cyd â'r Polisi Derbyn i Ysgolion 2019/20 drafft sydd ar gael i'w ddarllen / lawrlwytho yma www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn

Mae Eich Barn yn Bwysig

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ynghylch y cynnig. Gallwch wneud hyn drwy:

- mynychu un o'r sesiynau galw heibio:

Dyddiad/Amser	Lleoliad
Dydd Llun 08 Ionawr 2018 9am – 11am	Hyb Cymunedol Trelái a Chaerau
Dydd Mawrth 09 Ionawr 2018 9am – 11am	Llyfrgell a Hyb Grangetown
Dydd Mercher 10 Ionawr 2018 10am – 12 noon	Hyb Llanisien
Dydd Iau 11 Ionawr 2018 3pm – 5pm	Llyfrgell Pen-y-lan
Dydd Gwener 12 Ionawr 2018 9am – 11am	*Llyfrgell a Hyb Llaneirwg
Dydd Llun 15 Ionawr 2018 10am – 12 noon	Hyb Ystum Taf a Gabalfa
Dydd Mawrth 16 Ionawr 2018 3pm – 5pm	Star Hub HYB STAR
Dydd Mercher 17 Ionawr 2018 12 noon – 2pm	Llanedeyrn Hub at The Powerhouse Hyb Llanedern yn The Powerhouse
Dydd Gwener 19 Ionawr 2018 10am – 12 noon	Hyb y Tyllgoed

*Yn gweithredu ar hyn o bryd o Ganolfan Fenter Llaneirwg (gyferbyn â'r hyb)

- cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn neu
- cysylltu â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar (029) 2087 2720, dros e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw **30 Ionawr 2018**. Ni fydd ymatebion a ddaw i law wedi'r dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

Esboniad o'r Termau a ddefnyddir

Awdurdod Derbyn – Y corff sy'n gyfrifol am osod a rhoi trefniadau derbyn i ysgolion ar waith. Y Cyngor sydd yn gyfrifol am osod a gweithredu trefniadau ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

Ysgolion Cymunedol – ysgol feithrin, cynradd neu uwchradd a gynhelir lle mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldebau staffio, eiddo a derbyn.

Meini Prawf Gordanystrifio – y rhestr o feini prawf y mae'n rhaid i awdurdod eu mabwysiadu ar gyfer ei ysgol(ion) a ddefnyddir pan fo'r ysgol wedi'i gordanystrifio er mwyn asesu pa blant gaiff gynnig lle.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) – proses a ddyluniwyd i sicrhau nad yw polisi, project neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu sy'n agored i niwed.

Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) - Mae gan blentyn AAA os oes ganddo anhawster dysgu y mae angen darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer. Mae anhawster dysgu yn golygu bod plentyn yn cael mwy o anhawster yn dysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd y mae angen cyfleusterau addysgol gwahanol arno i'r rheiny mae'r ysgol yn eu darparu fel arfer i blant.

Cynllun Iechyd Unigol a Ariennir (CIUA) – Mae CIUA wedi eu haseinio i blant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar, neu'r Panel Cynghori ar Achosion. Mae paneli aml-asiantaeth yn dyrannu cyllid i blentyn Blynyddoedd Cynnar gydag anghenion sylweddol a/neu gymhleth drwy Gynllun Datblygiad Unigol er mwyn sicrhau y gall y plentyn gael mynediad at eu hawl i ysgol.

Blwyddyn Academaidd – cyfnod y flwyddyn pan yw disgyblion yn mynychu ysgol. Mae'r flwyddyn academaidd yn mynd o 1 Medi i 31 Awst yn y flwyddyn galendr ddilynol.

Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) – mwyafswm nifer y plant y bydd yr awdurdod derbyn yn eu derbyn i bob grŵp blwyddyn mewn ysgol.

Ysgol Fwydo - un o grŵp o ysgolion cynradd sy'n gweithio mewn partneriaeth anffurfiol gydag ysgol uwchradd leol. Byddai gan blant sy'n mynychu ysgol fwydo flaenoriaeth o ran derbyn i ysgol uwchradd dros y rheiny nad sy'n mynychu ysgol fwydo.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) – Mae gofyn ar i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n manylu ar sut y cyflawnir y canlyniadau a'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) – Fis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth a wiriwyd ei gasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion a gofrestrwyd ym mhob ysgol, eu grŵp oed, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar y Gymraeg, cymhwysedd Prydau Ysgol Am Ddim, Anghenion Addysgol Arbennig ac iaith gyntaf.

Swyddogaeth Cyngor Caerdydd fel Awdurdod Derbyn

Awdurdod derbyn yw'r corff sy'n gyfrifol am osod a chymhwyso trefniadau derbyn ysgol.

Awdurdodau Lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, oni bai bod y swyddogaeth wedi'i dirprwyo'n llawn i'r corff llywodraethu.

Cyrff llywodraethu yw'r awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

Yng Nghaerdydd, ceir 30 o Awdurdodau Derbyn ac mae 23 ohonynt yn Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Cynradd, mae 6 yn Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd a'r Cyngor yw un.

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer y canlynol:

- Ysgolion Meithrin Cymunedol/Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion Cymunedol
- Ysgolion Cynradd Cymunedol
- Ysgolion Uwchradd Cymunedol

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. O ran derbyniadau i ysgolion cymunedol, caiff pob disgybl a darpar ddisgybl eu trin yn gyfartal, beth bynnag yw eu rhyw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedligrwydd, laith, abledd/anabledd neu gred crefyddol/anghrefyddol.

Wrth hwyluso'r broses dderbyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried:

- Mae gan blant yr hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, a rhaid iddynt fynychu am bum hanner diwrnod.
- Derbynnir plant i ddsbarthiadau derbyn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.
- Mae plant yn symud i addysg uwchradd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn un ar ddeg.
- Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig.

Mae gan rieni yr hawl i fynegi dewis a fydd yn cael ei ystyried yn unigol, a bydd y dewis hwn yn cael ei fodloni lle y bo'n bosibl.

Mae rhai ysgolion yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Pan mae ysgol yn derbyn gormod o geisiadau caiff y dewisiadau eu hystyried o hyd ond rhoddir y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a bennwyd gan y Cyngor ar waith. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i ysgol, mae'r cyngor yn gweithredu'r meini prawf a nodwyd yn ei Ddogfen Bolisi Derbyn i ysgolion sydd ar gael i'w ddarllen / lawrlwytho yma www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn. Mae swyddogion hefyd yn archwilio gwybodaeth a ddarparwyd a'r rhesymau a gynigir i gefnogi dewisiadau a fynegwyd.

Os nad yw rhieni yn fodlon ar ganlyniad cais am le mewn ysgol gynradd neu uwchradd gymunedol benodol, gallant gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Annibynnol Statudol ar Dderbyn i Ysgolion.

Nid oes hawl i apelio penderfyniad derbyn i Ysgol Feithrin Gymunedol/Dosbarthiadau Derbyn mewn Ysgolion Cymunedol.

Trefniadau Derbyn i Ysgolion Caerdydd 2018/19

Gellir crynhoi'r meini prawf derbyn a gymeradwywyd ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd cymunedol yng Nghaerdydd yn y flwyddyn academaidd 2018/19 isod.

Meithrin	Cynradd	Uwchradd
Plant sy'n derbyn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gofyniad statudol ar gyfer derbyn)		
Plant sy'n Derbyn Gofal / Plant a arferai Dderbyn Gofal	Plant sy'n Derbyn Gofal / Plant a arferai Dderbyn Gofal	Plant sy'n Derbyn Gofal / Plant a arferai Dderbyn Gofal
Plant EYAP neu a ariennir gan PMP	Plant EYAP neu a ariennir gan PMP	'Cyfeirio' oherwydd brawd/chwaer
Brodyr a chwirydd*	'Cyfeirio' oherwydd brawd/chwaer	Dalgylch*
Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf*	Dalgylch*	Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf*
Y sawl sydd agosaf	Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf*	Brodyr a chwirydd*
Pellach o ddewis amgen	Brodyr a chwirydd*	Y sawl sydd agosaf*
	Y sawl sydd agosaf*	Pellach o ddewis amgen
	Pellach o ddewis amgen	Derbyn cynamserol
	Derbyn cynamserol	
9 maen prawf ac is feini prawf	19 maen prawf ac is feini prawf	18 maen prawf ac is feini prawf

*Gweithredir pob un o'r meini prawf is, fel is-feini prawf neu er mwyn penderfynu pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn

Mae manylion y meini prawf llawn i'w gweld yn nhrefniadau derbyn 2018/19 www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn

Cefndir y newidiadau arfaethedig

Yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2017, derbyniodd Cabinet y Cyngor adroddiad ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2018/19 y cyngor. Ymgynghorwyd ar y trefniadau a nododd yr adroddiad y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd yn ymwneud i raddau helaeth â dalgylchoedd ysgolion a'r galw am lefydd/ mwy o law na llefydd mewn rhai ysgolion yng Nghaerdydd.

Cytunodd y Cabinet ar y Polisi Derbyn i Ysgolion 2018/19 ac awdurdodwyd swyddogion i ystyried trefniadau derbyn i ysgolion y Cyngor ymhellach, gan gynnwys ymchwil ehangach ar ddewisiadau amgen ac effaith pob un ohonynt, cyn ymgynghori ar Bolisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar gyfer 2019/20.

Cysylltodd y Cyngor â'r Athro Chris Taylor, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERd), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol i gynnal yr ymchwil. Mae'r adroddiad ymchwil ar gael ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn

Yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2017 ystyriodd y Cabinet adroddiad ar yr ymchwil a wnaethpwyd gan awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar feini prawf diwygiedig pan fo mwy o geisiadau na lleoedd o ran derbyn i addysg feithrin, cynradd ac uwchradd cymunedol.

Grwpiau oed perthnasol ar gyfer y Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/2020

Mae disgwyl i Awdurdodau Derbyn adolygu eu Trefniadau Derbyn i Ysgolion yn flynyddol.

Mae'r Cyngor yn cynnig newidiadau i'r trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer derbyn i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Y grwpiau oed perthnasol i weithrediad Polisi Derbyn Ysgolion y Cyngor 2019/20 yw:

Derbyniadau i Ysgolion Meithrin Cymunedol a Dosbarthiadau Meithrin:

Plant a aned rhwng 1 Medi 2015 – 31 Mawrth 2017

Derbyn i Ysgolion Cynradd Cymunedol – Disgyblion yn mynd i Ddosbarth Derbyn:

Plant a aned rhwng 1 Medi 2014 – 31 Awst 2015

Derbyn i Ysgolion Cynradd Cymunedol – ceisiadau Hwyr / Yn ystod y flwyddyn i Ysgolion Cynradd:

Plant a aned rhwng 1 Medi 2008 – 31 Awst 2015

Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cymunedol – Disgyblion yn mynd i Flwyddyn 7:

Plant a aned rhwng 1 Medi 2007 – 31 Awst 2008

Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cymunedol – ceisiadau Hwyr / Yn ystod y flwyddyn i Ysgolion Uwchradd:

Plant a aned rhwng 1 Medi 2003 - 31 Awst 2008

Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 i ymgynghori arnynt

Derbyn i addysg Feithrin a derbyn i addysg Gynradd

Mae'r cyngor yn ymgynghori ar weithredu'r meini prawf canlynol pan fo mwy o geisiadau na llefydd i addysg feithrin a hefyd i addysg gynradd:

Derbyn i addysg Feithrin	Derbyn i addysg Gynradd
Plant sy'n derbyn Datganiad o Anghenion Addysgol	Arbennig (Gofyniad statudol ar gyfer derbyn)
Plant sy'n derbyn gofal / Plant a arferai dderbyn gofal	Plant sy'n derbyn gofal / Plant a arferai dderbyn gofal
Plant sy'n cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir	Plant sy'n cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir
Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol	Plant sy'n byw yn y dalgylch AC sydd â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol
Plant sydd â rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol	Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol AC sydd â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol
Plant eraill gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol	Plant sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol
	Plant sydd â rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol
	Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol
	Plant eraill sydd â blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol
Dyrannu'r Lleoedd Olaf: blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol	Dyrannu'r Lleoedd Olaf: blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol

Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer derbyn i addysg feithrin a chynradd o'i gymharu â threfniadau 2018/19, yn ymwneud â'r meini prawf canlynol:

Meithrin

- Diwygio meini prawf cyllid EYAP/PMP i fod yn CIUA
- Diddymu'r maen prawf pellaf o ysgol amgen
- Disodli defnyddio is-feini prawf i ddatrys sefyllfa pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn, gydag agosrwydd ysgol i gyfeiriad cartref fel datrysiad o fewn pob maen prawf pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn.

Cynradd

- Diwygio meini prawf cyllid EYAP/PMP i fod yn CIUA
- Diddymu maen prawf cyfeirio oherwydd brawd/chwaer
- Diddymu'r maen prawf pellaf o ysgol amgen
- Diddymu mae prawf derbyn cynamserol
- Disodli defnyddio is-feini prawf i ddatrys sefyllfa pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn, gydag agosrwydd ysgol i gyfeiriad cartref fel datrysiad o fewn pob maen prawf pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn.

Derbyn i addysg Uwchradd

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar ddau ddewis o ran meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gyfer derbyn i addysg uwchradd, fel y nodir isod:

Uwchradd: Opsiwn A	Uwchradd: Opsiwn B
Plant sy'n derbyn Datganiad o Anghenion Addysgol	Arbennig (Gofyniad statudol ar gyfer derbyn)
Plant sy'n derbyn gofal / Plant a arferai dderbyn gofal	Plant sy'n derbyn gofal / Plant a arferai dderbyn gofal
Plant sy'n cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir	Plant sy'n cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir
Plant sy'n byw yn y dalgylch AC sydd â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol	Plant sy'n byw yn y dalgylch AC sydd â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol
Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol AC sydd â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol	Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol AC sydd â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol AC a fynychodd ysgol fwydo gynradd gysylltiedig
Plant sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol	Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol AC sydd â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol
Plant sydd â rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol	Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol AC a fynychodd ysgol fwydo gynradd gysylltiedig
Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol	Plant sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol
Plant eraill sydd â blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol	Plant sydd â rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol
	Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol
	Plant eraill sydd â blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol
Dyrannu'r Lleoedd Olaf: blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol	Dyrannu'r Lleoedd Olaf: blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol

Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer derbyn i addysg uwchradd, o'i gymharu â threfniadau 2018/19, yn ymwneud â'r meini prawf canlynol:

Uwchradd

- Diddymu maen prawf cyfeirio oherwydd brawd/chwaer
- Diddymu'r maen prawf pellaf o ysgol amgen
- Diddymu mae prawf derbyn cynamserol
- Cynnwys presenoldeb mewn ysgol fwydo gynradd (**dan Opsiwn B yn unig**)
- Cynnwys Plant sydd â Chynlluniau Iechyd Unigol a Ariennir (CIUA)
- Disodli defnyddio is-feini prawf i ddatrys sefyllfa pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn, gydag agosrwydd ysgol i gyfeiriad cartref fel datrysiad o fewn pob maen prawf pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn.

Ceir eglurhad o'r newidiadau, ac effaith y newidiadau, ar dudalen 10.

Effaith y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf

Cynnwys arfaethedig faen prawf Cynllun Iechyd Unigol a Ariennir (CIUA)

Mae CIUAau wedi eu neilltuo i blant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Aseu'r Blynnyddoedd Cynnar neu'r Panel Cyngori ar Achosion. Mae paneli aml-asiantaeth yn dyrannu cyllid i blentyn ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth, drwy Gynllun Datblygiad Unigol er mwyn sicrhau y gall y plentyn dderbyn cymorth i gael mynediad at eu hawl i ysgol.

Diddymiad arfaethedig y maen prawf 'Cyfeirio oherwydd brawd/chwaer'

Cafodd y meini prawf hyn eu cynnwys gan y Cyngor o fewn y trefniadau derbyn er mwyn lliniaru ar yr anawsterau a wynebid gan rieni pan nad fedrent gael lle i'w plentyn yn eu hysgol ddalgylch flaenorol, ac i leihau effaith y newidiadau ar ddalgylchoedd a/neu ganlyniad ad-drefnu ysgolion.

Dim ond ychydig o geisiadau (0.06% ar gyfer pob dewis ysgol) a gyflwynwyd i dderbyn i ysgolion yn 2017 a wnaed ar sail diwallu'r meini prawf hyn, a allasai fod yn arwydd nad yw'r meini prawf yn ddigon clir neu wedi'u deall yn iawn gan rieni. Dyrannwyd cyfanswm o saith lle o dan y meini prawf hyn ar gyfer derbyn i ysgol yn 2017, y byddai pedwar wedi eu derbyn dan faen prawf arall.

Ers cyflwyno'r maen prawf 'Cyfeirio oherwydd brawd/chwaer', mae nifer o ddatblygiadau wedi'u gwneud i broses dderbyn y Cyngor (o ganlyniad i newidiadau i'r Cod Derbyn i Ysgolion) gan gynnwys y gallu i gyflwyno sawl dewis.

Er bod rhai disgyblion yn elwa drwy sicrhau lleoedd drwy ddiwallu un o'r meini prawf 'cyfeirio oherwydd brawd/chwaer', caiff y disgyblion hyn flaenoriaeth dros y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ar hyn o bryd. Mae hyn yn peri problemau cynllunio adnoddau i rai ysgolion ac, yn sgil derbyn disgyblion yn unol â'r meini prawf hyn, mae'n bosib na all rhai disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch fynychu eu hysgol ddalgylch.

Diddymu arfaethedig ar y maen prawf 'Pellaf o Ysgol Amgen'

Nid yw'r maen prawf sy'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw bellaf o'r ysgol amgen agosaf sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio lawer, dim ond pan fo'r holl feini prawf uwch wedi'u hateb gan ddau ddisgybl neu fwy. Mae'r gwelliant i'r maen prawf pellter o 2 le degol i 4 lle degol yn lleihau ymhellach y tebygolrwydd i'r maen prawf hwn gael ei ystyried ac mae ei gynnwys felly yn ddiangen. Ni ddyrannwyd unrhyw leoedd Dosbarth Derbyn na Blwyddyn 7 o dan y maen prawf hwn ar gyfer y rhai oedd yn dechrau fis Medi 2017.

Diddymu arfaethedig ar fae prawf 'Derbyn Cynamserol'

Gellid yn rhesymol dynnu derbyn cynamserol o'r meini prawf pan na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion i'w derbyn. Ni ddyrannwyd unrhyw leoedd Dosbarth Derbyn na Blwyddyn 7 o dan y maen prawf hwn ar gyfer y rhai oedd yn dechrau fis Medi 2017.

Cynnwys arfaethedig faen prawf 'Ysgol Fwydo' (Dan Ail Ddewis B yn unig)

Gweithredwyd presenoldeb mewn ysgol fwydo fel maen prawf, pan fo mwy o geisiadau na lleoedd, ddiwethaf yng Nghaerdydd yn ystod blwyddyn fynediad 2000/2001.

Mae'r maen prawf 'presenoldeb disgybl mewn ysgol fwydo' yn faen prawf clir a hawdd ei ddeall, ac mae mantais parhad i ddisgyblion ac i'r ysgolion cyswllt hynny sy'n gweithredu'r maen prawf hwn.

Fodd bynnag, gall ailgyflwyno maen prawf o'r fath yng Nghaerdydd achosi nifer o anawsterau i rieni, yn enwedig y rheiny sy'n symud i ardal ar ôl yr adeg derbyn i addysg gynradd lle mae ysgolion cynradd eisoes yn llawn, neu i'r disgyblion hynny sy'n byw mewn dalgyrch ar adeg derbyn i addysg gynradd sydd wedi bod yn aflwyddiannus o ran eu cais ar gyfer derbyn i ysgol fwydo.

Byddai ychwanegu ysgolion cynradd bwydo dynodedig fel maen prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd islaw byw yn dalgyrch ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddisgybl sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo dros ddisgybl nad yw'n mynychu ysgol gynradd o'r fath ond sy'n byw yn nes at yr ysgol uwchradd.

Mae dadansoddiad a wnaed o'r cohort disgyblion y dyrannwyd llefydd iddynt yn rownd gyntaf y derbyn i ysgolion uwchradd yn 2017 wedi nodi sawl disgybl dderbyniodd le ar sail pa faen prawf. Ystyriodd y dadansoddiad ymhellach y modd y gall hyn gael ei ddylanwadu drwy gynnwys maen prawf newydd ar gyfer y pant hynny sydd yn gyw o fewn dalgyrch ysgol ac sydd hefyd yn mynychu ysgol fwydo o fewn y dalgyrch.

At ddibenion dadansoddi, yr ysgolion y mae eu dalgyrch wedi'i leoli o fewn dalgyrch yr ysgol uwchradd a ystyrir fel yr 'ysgolion bwydo'. Yn unigryw, mae dalgyrch Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn gorwedd o fewn dalgyrch Ysgol Uwchradd Llanisien ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Byddai effaith cynnwys maen prawf a fyddai wedi rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd bwydo yn 2017/18 wedi amrywio, ond byddai'n blaenoriaethu rhai disgyblion sy'n byw yn dalgyrch yr ysgol ac sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo dros y rheiny sy'n byw o fewn y dalgyrch ond sy'n byw lawer nes at yr ysgol uwchradd.

Ystyriodd y dadansoddiad yr effaith ar dderbyniadau'r pum ysgol uwchradd gymunedol (Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Radur, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr) oedd â mwy o alw am lefydd na llefydd ar gael ar gyfer mynediad Blwyddyn 7 ym mis Medi 2017.

Dadansoddwyd dewisiadau cyntaf i sefydlu nifer y ceisiadau derbyn o ysgolion bwydo a fyddai wedi derbyn cynnig am le yn eu dewis o ysgol uwchradd.

Drwy gymharu'r disgyblion a dderbyniwyd i'r ysgolion hyn dan faen prawf cyfarwyddo brawd/chwaer yn 2017 canfuwyd y byddai pob plentyn a dderbyniwyd yn ôl y maen prawf hwn hefyd wedi eu derbyn pe byddai maen prawf ysgol fwydo wedi bod ar waith.

O safbwynt ysgolion unigol, byddai'r llefydd a gynigwyd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn y dyraniad cyntaf wedi cynnwys 213 disgybl a fynychodd ysgol fwydo. Pe byddai meini prawf oedd yn cynnwys disgyblion oedd yn byw yn y dalgyrch a hefyd yn mynychu ysgol fwydo wedi eu cynnwys, byddai 33 o blant oedd yn mynychu ysgolion bwydo y gwrthodwyd lle iddynt yn 2017 wedi eu derbyn dan y drefn wahanol hon o ran meini prawf, ac o ganlyniad byddai 33 o blant a oedd yn byw o fewn y dalgyrch ond nad oedd yn mynychu ysgol fwydo heb dderbyn lle yn yr ysgol.

Byddai'r disgyblion hynny oedd yn byw yn dalgyrch Ysgol Uwchradd Caerdydd y dyrannwyd lle iddynt yn rhinwedd y ffaith eu bod yn byw yn y dalgyrch ac agoswyd yn unig, ac nad oedd yn mynychu ysgol fwydo, heb gael eu derbyn i'r ysgol os oedd eu cyfeiriad cartref yn fwy na 0.268 milltir o'r ysgol yn y dyraniad cyntaf o lefydd derbyn.

Byddai'r llefydd a gynigwyd yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn y dyraniad cyntaf wedi cynnwys 260 disgybl a fynychodd ysgol fwydo. Pe byddai meini prawf oedd yn cynnwys disgyblion oedd yn byw yn y dalgylch a hefyd yn mynychu ysgol fwydo wedi eu cynnwys, byddai 17 o blant a oedd yn mynychu ysgolion bwydo y gwrthodwyd lle iddynt yn 2017 wedi eu derbyn dan y drefn wahanol hon o ran meini prawf, ac o ganlyniad byddai 17 o blant a oedd yn byw o fewn y dalgylch ond nad oedd yn mynychu ysgol fwydo heb dderbyn lle yn yr ysgol.

Byddai'r disgyblion hynny oedd yn byw yn dalgylch Ysgol Uwchradd Fitzalan y dyrannwyd lle iddynt yn rhinwedd y ffaith eu bod yn byw yn y dalgylch ac agosrwydd yn unig, ac nad oedd yn mynychu ysgol fwydo, heb gael eu derbyn i'r ysgol os oedd eu cyfeiriad cartref yn fwy na 1.278 milltir o'r ysgol yn y dyraniad cyntaf o lefydd derbyn.

Byddai'r llefydd a gynigwyd yn Ysgol Uwchradd Llanisien yn y dyraniad cyntaf wedi cynnwys 238 disgybl a fynychodd ysgol fwydo gynradd. Pe byddai meini prawf oedd yn cynnwys disgyblion oedd yn byw yn y dalgylch a hefyd yn mynychu ysgol fwydo wedi eu cynnwys, byddai 23 o blant a oedd yn mynychu ysgolion bwydo y gwrthodwyd lle iddynt yn 2017 wedi eu derbyn dan y drefn wahanol hon o ran meini prawf, ac o ganlyniad byddai 23 o blant a oedd yn byw o fewn y dalgylch ond nad oedd yn mynychu ysgol fwydo heb dderbyn lle yn yr ysgol.

Byddai pob disgybl a oedd yn byw yn dalgylch Ysgol uwchradd Llanisien, nad oedd yn mynychu ysgol fwydo gynradd, wedi eu gwrthod yn 2017.

Ni fyddai unrhyw effaith wedi bod ar y llefydd a gynigwyd yn Ysgol Gyfun Radur ac Ysgol Gyfun Plasmawr yn y dyraniad cyntaf.

Byddai effaith cynnwys meini prawf o'r fath yn amrywio yn ôl ardal ac o flwyddyn i flwyddyn ond mae perthynas agos rhwng hyd a lled effaith hyn a chapasiti cymharol ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd o fewn eu dalgylchoedd, a phoblogaeth y disgyblion o fewn y dalgylchoedd.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad data CYBLD Ionawr 2017 a'r llefydd oedd ar gael mewn ysgolion uwchradd, nid oedd 39% (1,656 disgybl) o grŵp oed Blwyddyn 4 bryd hynny (4,266) a fydd yn pontio i ysgol uwchradd ym mis Medi 2019 yn mynychu ysgol fwydo gynradd. Ni fyddai disgyblion yn y grŵp hwn nad oedd yn ateb gofynion meini prawf uwch, megis mynychiad brawd neu chwaer neu resymau meddygol / cymdeithasol cymhellol, yn ateb meini prawf 4 na 6 pe rhoddid Opsiwn B ar waith.

Ansawdd a Safonau

Cyhoeddodd y Cyngor ei weledigaeth dros addysg yng Nghaerdydd yn ddiweddar – Caerdydd 2020: gweledigaeth newydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd fis Mehefin 2016. Mae hwn yn sefydlu ymrwymiad y Cyngor i gyfle cyfartal; cydweithio'n agored, codi uchelgais a disgwyliadau dysgwyr a chofleidio amrywiaeth.

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg nac o ran cyflwyno'r cwricwlwm o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Pa effaith fyddai ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?

Mae ysgolion yng Nghaerdydd yn derbyn cyllid wedi ei ddirprwyo i'w galluogi i gynnig cymorth ychwanegol ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gyfer disgyblion sydd ag AAA.

Ni fyddai unrhyw effaith negyddol gan y cynigion hyn ar ddarpariaeth AAA yn yr ysgolion a byddai'r ysgolion yn parhau i gynnig cymorth AAA i ddisgyblion sy'n addas i faint yr angen.

Materion Cydraddoldeb

Mae modd gweld yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ar gyfer y meini prawf a gynnigir ar wefan y Cyngor drwy gyfrwng y ddolen isod:

www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn

Yn benodol mae'r AEG yn ystyried sut gall y cynnig effeithio ar ddisgyblion sydd â nodweddion a ddiogelir, a hefyd sut gall y cynigion effeithio ar y Gymraeg.

Fel y nodwyd yn yr AEG gallai gwahaniaethau godi lle:

- rhoddir blaenoriaeth i Anghenion Addysgol Arbennig sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion ag anabledau sydd hefyd ag anawsterau dysgu
- rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr lle gellid dangos tystiolaeth yn dynodi anghenion penodol ar dir meddygol a/neu gymdeithasol cymhellol.

Ar ben hynny, mewn ardaloedd ysgolion poblogaidd / ysgolion llawn, byddai cynnwys maen prawf 'ysgol fwydo' ysgol uwchradd mwy o geisiadau nag sydd o lefydd yn:

- Rhoi mantais bosib i'r teuluoedd hynny sy'n gallu sicrhau lle mewn ysgol gynradd yn ysgol gynradd eu dalgyrch yn gynnar.
- Efallai y byddai anfantais i ddisgyblion sy'n symud i ddalgyrch ysgol lawn yn hwyrach, oherwydd efallai na fyddai lle iddynt yn eu hysgol leol.

Nododd dadansoddiad yn cymharu disgyblion a gofrestrwyd ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn ysgol gynradd ym mis Ionawr 2011 gyda'r un cohort o ddisgyblion yn Blwyddyn 6 ym mis Ionawr 2017 hefyd y gallai gwahaniaethau ddigwydd o ran effaith pe cyflwynid maen prawf 'ysgol fwydo'.

- Gallai oddeutu hyd at 1 disgybl mewn 7 yn byw yn eu dalgyrch lleol adeg pontio i ysgol uwchradd fod dan anfantais drwy gyflwyno maen prawf ysgol fwydo yn sgil y ffaith iddynt symud i'r dalgyrch yn ddiweddarach yn y cyfnod cynradd.
- Mae'n bosib y byddai disgyblion DU / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig, teuluoedd Teithwyr (er mai bychan yw'r sampl) a grwpiau ethnig eraill dan anfantais am eu bod yn llai tebygol o fod ar gofrestr ysgol gynradd o'r Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6.

Mae'r rhesymau dros symud i ddalgyrch yn ystod y cyfnod cynradd yn amrywiol, maent yn cynnwys mewnfudo o'r tu allan i'r ddinas, adleoli o fewn Caerdydd sydd yn ymwneud â fforddiadwyedd ac argaeledd eiddo priodol ayb.

Byddai rhoi maen prawf ysgol fwydo ar waith i bob disgybl yn ddiwahân yn creu effaith o wahaniaethu yn erbyn poblogaethau sy'n fwy symudol. Os cynrychiolir yn anghymesur grŵp penodol sydd yn arddangos lefel uwch o symudedd, gellid barnu bod y grŵp hwn dan anfantais (gwahaniaethu anuniongyrchol).

Er mwyn atal effaith wahaniaethol ar sail hyd cyfnod mae disgybl wedi byw mewn dalgylch a/neu pa un ai a lwyddont i sicrhau lle mewn ysgol fwydo ar gorn y ffaith eu bod yn byw yn yr ardal adeg gwneud y cais, gallasai'r cyngor roi meini prawf Opsiwn A ar waith, nad sydd yn dibynnu ar faen prawf ysgol fwydo (mae'r ddau opsiwn yn defnyddio maen prawf agosrwydd).

Bydd y Cyngor yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn pennu'r meini prawf terfynol.

Effaith y newidiadau arfaethedig ar y Gymraeg

Mae'r ddogfen sy'n sail i'r ymgynghoriad yn trafod yn fanwl yr heriau sy'n gwynebu'r sector cyfrwng Saesneg, ac yn benodol ysgolion Cyfun cyfrwng Saesneg; ond mae'r dadansoddiad o sefyllfa addysg cyfrwng Cymraeg yn nodedig am ei absenoldeb. Mae newid polisi derbyn – yn enwedig y rheol brawd/chwaer (*sibling rule*) yn debygol o gael effaith sylweddol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg; a hynny am ddau rheswm. Yn y man cyntaf mae sawl ysgol cyfrwng Cymraeg eisoes yn llawn; ac yn ail mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg dipyn yn bellach oddi wrth ei gilydd na'r ysgolion cyffelyb cyfrwng Saesneg. Fe fyddai, er enghraifft, yn anymarferol yn ôl pob tebyg i riant sy'n gweithio i dywys un plentyn i Ysgol Hamadryad ac wedyn mynd ag ail blentyn i Ysgol Pwll Coch.

Mae'r sefyllfa yn waeth yn achos Ysgol Hamadryad gan nad oes gennym dalgylch ar hyn o bryd. Pe tai'r newid yma yn cael ei gyflwyno byddai'n rhaid i riant, i fwy nag un plentyn, sy'n byw ar Virgil St dyweder, neu ar Cornwall St ddyfalu ym mha dalgylch y bydd eu cyfeiriad maes o law – er mwyn sicrhau fod y plant yn gallu mynychu'r un ysgol.

Credwn felly yn gryf na ddylid cael gwared ar y rheol brawd/chwaer a hynny yn benodol oherwydd yr effaith ar addysg Cyfrwng Cymraeg. Fan lleiaf pe tai'r Cyngor yn benderfynol o gael gwared ar y rheol, dylid rhag blaen sicrhau fod rhieni yn Grangetown a Butetown yn cael eu trin yn deg os ydynt yn dewis danfon eu plant i Ysgol Hamadryad (neu o ran hynny i Ysgolion Pwll Coch neu Ysgol Mynydd Bychan).

Yn gywir iawn

Dr Dafydd Trystan
Cadeirydd Llywodraethwyr

 07980 727677

 ysgolhamadryad@cardiff.gov.uk

 @ysgolhamadryad

Ymateb Corff Llywodraethol Ysgol Pwll Coch i'r Ymgynghoriad ar y Drefn Derbyniadau, Ionawr 2017

- 1 Hoffai Corff Llywodraethol Ysgol Pwll Coch [YPC] ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. (<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlyydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Ymgynghoriad-ar-broses-ddyrannu-ysgolion/Pages/default.aspx>)
- 2 Mae'r ysgol wedi profi newidiadau dalgylch yn ddiweddar yn sgil agor yr Ysgol Treganna newydd mewn rhan o'n dalgylch blaenorol. Bydd newidiadau pellach yn digwydd yn y dyfodol agos oherwydd creu dalgylch ar gyfer Ysgol Hamadryad. Felly, mae gan yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu brofiad ymarferol sylweddol o'r materion sy'n ymwneud â derbyniadau a'u heffaith ar blant a'u teuluoedd.

Sylwadau cyffredinol ar yr adroddiad 'Cardiff Council: Admissions Criteria' (Taylor 2017) a'r ymgynghoriad cysylltiedig

- 3 Mae YPC yn croesawu'r ymchwil a wnaed gan yr Athro Chris Taylor ar feini prawf derbyn ac mae'n gryf o blaid cynllunio sydd wedi ei seilio ar ymchwil.
- 4 Serch hynny, yn ei gyfanrwydd, mae cynnwys yr adroddiad yn codi pryderon. Y mwyaf amlwg yw'r diffyg sylw i'r sector cyfrwng Cymraeg [CC]. (Nid yw YPC wedi gweld y briff ar gyfer yr adroddiad, ac felly nid yw'r feirniadaeth a'r pryderon a fynegir yn yr ymateb hwn o reidrwydd yn feirniadaeth ar yr adroddiad ei hun ond yn hytrach ar ei ddefnydd i lywio proses ymgynghori heb ymchwil gyfatebol ar y sector CC.)
- 5 Fel y nodir mewn mwy nag un man, mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar addysg uwchradd: 'secondary schools [are] the main focus of this research' (Taylor 2017, t. 1), '[g]enerally the review has largely focussed on secondary school admissions' (Taylor 2017, t. 16). Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad cyfredol yn ymwneud â derbyniadau i ysgolion cymunedol o bob math. Mae YPC yn pryderu mai ymchwil sy'n canolbwyntio ar un sector yn unig, sef ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg [CS], sy'n sail ar gyfer newidiadau arfaethedig ym mhob sector.
- 6 Nid yw'r ymchwil ond yn ymwneud yn arwynebol iawn ag addysg CC. Mae'n nodi'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu'r galw am addysg CC trwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg [CSCA] a bod yn rhaid bodloni dewis rheini oni bai fod hynny'n ddefnydd aneffeithlon o adnoddau (Taylor 2017, t. 3). Mae hefyd yn nodi bod gweledigaeth *Caerdydd 2020* yn datgan y bydd yr awdurdod lleol [ALL] yn 'continue to provide more Welsh medium school places in line with the Welsh in Education Strategic Plan for Cardiff' (Taylor 2017, t. 44; *Caerdydd 2020*, t. 15). Fodd bynnag, nid oes trafodaeth yn yr ymchwil ar y berthynas rhwng dalgylchoedd, meini prawf derbyn a'r nod o gynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg CC, er enghraifft. Mewn meysydd eraill, fodd bynnag, mae'r adroddiad yn gwneud awgrymiadau eang iawn, megis annog Llywodraeth Cymru i ystyried newid ei pholisïau mewn amryw o ffyrdd,

gan gynnwys ystyried bandio a newid natur yr ysgolion eu hunain. Yn y cyd-destun hwn, mae'r diffyg trafodaeth neu argymhellion gyda'r bwriad o ddatblygu addysg CC yn arbennig o amlwg.

- 7 Nid yw'r adran 'Schools admissions research' (Taylor 2017, tt. 21–5) yn cyfeirio at unrhyw ymchwil ar addysg CC, ac nid oes dim yn yr adroddiad sy'n ystyried oblygiadau y diffyg hwnnw.
- 8 O ystyried y diffyg ymchwil sy'n berthnasol i'r sector CC, dylai gwybodaeth o ffynonellau eraill fod wedi ei hystyried fel rhan o'r paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Yn benodol, mae gan y Cyngor ei Fforwm Addysg Gymraeg y mae ei aelodau'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o feysydd yn y sector CC. Mae'n anffodus nad yw'r adroddiad na'r broses cyn yr ymgynghori wedi ymgysylltu â'r corff hwn.
- 9 Mae'r adroddiad yn rhoi cryn sylw i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddi, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, a disgyblion sydd heb y Gymraeg na'r Saenseg yn brif iaith y cartref. Mae YPC yn croesawu'r ffocws hwn, ond mae'n siomedig am y diffyg trafodaeth o fewn cyd-destun CC.
- 10 Mae un o'r ychydig sylwadau penodol am addysg CC yn nodi, 'In the main, Welsh-medium secondary school intakes are heavily polarised, particularly in relation to the low number of BAME students on roll. They are also considerably less likely to admit pupils eligible for free school meals' (Taylor 2017, t. 8). Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig, ond nid yw'r adroddiad yn eu trafod mewn modd ystyrion. Mae ysgolion uwchradd CC wedi eu 'polareiddio' ond dim ond o'u cymharu ag ysgolion uwchradd CS. Mae'r polareiddio hwn yn llawer llai pan gaiff eu hystyried mewn perthynas â'i gilydd a chyda'u hysgolion cynradd. Mewn geiriau eraill, mae 'polareiddio' ysgolion uwchradd CC yn gynnyrch demograffeg sector cynradd CC yng Nghaerdydd yn hytrach na sut y gweinyddir derbyniadau. Ond nid yw'r adroddiad yn ystyried y sector cynradd CC a'r ffyrdd y gellid lleihau unrhyw 'bolareiddio' cymdeithasol.
- 11 Byddai YPC yn croesawu ymchwil a fyddai'n helpu i leihau'r polareiddio hwn mewn ysgolion cynradd CC. Byddai'n rhesymol tybio bod y sefyllfa bresennol yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliadau ysgolion cynradd CC a'u dalgylchoedd, canfyddiadau a lefelau ymwybyddiaeth o addysg CC mewn gwahanol gymunedau, yr wybodaeth am addysg CC a roddir i rieni gan yr ALL, ymhlith eraill. Mae'r adroddiad yn ymwneud â dalgylchoedd a'r wybodaeth a roddir i rieni mewn rhai cyd-destunau, ond nid yw'n gwneud unrhyw sylwadau neu awgrymiadau cyfatebol yn achos addysg CC.
- 12 Mae'r adolygiad o drefniadau derbyn awdurdodau lleol eraill yn seiliedig ar bymtheg ALL, a dim ond dau ohonynt (Casnewydd ac Abertawe) yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi bod y sefyllfa yn Lloegr yn wahanol gyda 'proliferation of Academies and Free Schools' (Taylor 2017, t. 16), ond nid yw'n trafod yn fanwl pam na sut mae'r ALLau yn Lloegr yn debyg i Gaerdydd, o ystyried y ffaith amlwg nad oes addysg CC yn Lloegr. Yn

yr un modd, ni chaiff y mae modd y mae Casnewydd ac Abertawe yn ymdrin ag addysg CC ei drafod o gwbl.

- 13 Nid yw'r ffaith fod dalgylchoedd CC fel rheol yn sylweddol fwy na dalgylchoedd CS wedi ei hystyried yn yr adroddiad wrth werthuso'r system gyfredol (Taylor 2017, t. 28).
- 14 Yn yr un modd, nid yw'r drafodaeth am brisiau tai (Taylor 2017, tt. 23 a 31) yn gwneud y pwynt sylfaenol nad oes unrhyw dystiolaeth (yr ydym yn ymwybodol ohoni) fod dalgylchoedd CC yn cael unrhyw effaith ar brisiau tai.
- 15 Un pwynt sylfaenol arall nad yw'n cael ei ystyried yw bod addysg CC yn profi newidiadau mwy cyson o ran dalgylchoedd nag addysg CS. Er enghraifft, yn 1979 dim ond un ysgol gynradd CC oedd yng Nghaerdydd. Ers hynny mae tair ar ddeg wedi agor ac mae'r un wreiddiol wedi cau. Mae hyn wedi achosi llawer o newidiadau i ddalgylchoedd (gydag ysgol newydd yn agor ar gyfartaledd bob tair blynedd, yn fras) a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol, gyda chreu dalgylch Ysgol Hamadryad maes o law. Er bod newid dalgylchoedd yn achosi rhai anawsterau, fel y nodir yn yr adroddiad (Taylor 2017, t. 26), mae YPC yn derbyn bod hynny'n ganlyniad anochel i sector CC sydd ar gynnydd. Mae angen ystyried yn fanwl yr effaith ar deuluoedd â phlant sydd eisoes mewn ysgol benodol, fodd bynnag, sef rhywbeth nad yw'r adroddiad yn ei wneud yn ddigon manwl.
- 16 Mae YPC yn cytuno'n gryf â'r pwynt pwysig a wneir am effeithiau negyddol cael brodyr a chworydd mewn ysgolion gwahanol:

There are also very compelling reasons for why siblings should attend the same school – for logistic reasons (e.g. travel to/from school, particularly for younger children), for financial reasons (e.g. recycling of school uniforms) and for educational reasons (e.g. familiarity with the organisation, curriculum and pedagogy of a school). (Taylor 2017, t. 27)

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd, byddem yn nodi bod y problemau hyn yn waeth, ar y cyfan, i blant ysgol gynradd. Fe fyddem hefyd yn nodi bod cael plant mewn ysgolion cynradd gwahanol yn anos i deuluoedd sy'n dewis addysg CC yn hytrach na CS, gan fod dalgylchoedd CC yn gyffredinol yn llawer mwy (er nad ystyrir y pwynt hwn yn yr ymchwil, fel y nodir uchod §13). Fe fyddem hefyd yn nodi ein bod yn ymwybodol o achosion lle mae plant hŷn wedi eu cymryd allan o addysg CC oherwydd bod plant iau yn methu â sicrhau lle yn yr un ysgol.

- 17 O gofio bod yr adroddiad yn tynnu sylw at effaith negyddol rhannu brodyr neu chworydd — am resymau logistaidd, ariannol ac addysgol — mae'n syndod canfod bod y meini prawf a gynlluniwyd i atal hyn rhag digwydd (yn arbennig 2a a 2b [sef 3a a 3b mewn ysgolion cynradd]) yn cael eu diystyru heb fawr o drafodaeth:

Cardiff contains a number of relatively 'unique' admissions criteria. Most notably criteria 2a, 2b, 7 and 8. The first two of these appear to relate to historic decisions to change catchment areas and the Council's attempt to try to 'mitigate' the impact of these changes. It is not clear how necessary this

really is or what it achieves. (Taylor 2017, t. 28)

Nid yw'n glir beth yw ystyr 'relatively "unique"'— a oes gan ALLau eraill y meini prawf hyn? Yn yr un modd, nid yw arwyddocâd y cyfeiriad at 'historic decisions' yn amlwg. Mae'r polisi derbyn cyfredol ar ei hyd yn adlewyrchu cyfres o benderfyniadau hanesyddol i fabwysiadu gwahanol feini prawf. Mae'r defnydd o ddyfnodau o gwmpas 'mitigate' yn anodd i'w ddeall, yn enwedig o ystyried sylwadau'r adroddiad ar bwysigrwydd peidio â gwahanu brodyr a chwiorydd (gweler §16 uchod). Yna dywed yr adroddiad nad yw'n glir 'how necessary this really is or what it achieves'. O ystyried y diffyg sicrwydd a gwybodaeth am effaith y rheolau hyn (2a a 2b), a'r ffaith nad oes ystyriaeth i'w heffaith yn y sector cynradd CC (rheolau 3 a 3b ydynt yno), mae YPC yn teimlo nad oes unrhyw achos ar hyn o bryd i'w newid, yn enwedig o ystyried y ffaith y byddai eu newid yn cael effaith anghymesur ar addysg CC (oherwydd newidiadau dalgylch mwy rheolaidd a hefyd maint dalgylchoedd). Nodir yn yr adroddiad fod geiriad y meini prawf hyn yn gymhleth ac felly'n broblemus. Ond nid yw'r datrysiad amlwg, sef symleiddio'r geiriad hwnnw, wedi ei ystyried.

- 18 Mae YPC yn derbyn y gall y drefn bresennol ar gyfer lliniaru effaith newidiadau dalgylch arwain at blant yn y dalgylch yn methu sicrhau lleoedd. Ond rydym yn teimlo nad yw methu sicrhau lle mewn ysgol dalgylch, er mor siomedig yw hynny, mor broblematig â chael dau blentyn mewn ysgolion gwahanol (nid yw'r problemau ariannol ac addysgol a nodir yn yr adroddiad yn berthnasol yn yr achos cyntaf). Teimlwn y dylai'r meini prawf gael eu cynllunio yn y lle cyntaf i atal teuluoedd rhag cael eu rhoi yn y sefyllfa honno oherwydd penderfyniadau y tu hwnt i'w rheolaeth (e.e. newidiadau dalgylch gan y Cyngor). Wedi dweud hynny, mae'r awgrym y dylai'r Cyngor ei gwneud yn glir nad yw byw mewn dalgylch yn gwarantu lle yn gwbl resymol, a gellid ei weithredu heb yr angen am ymgynghori.
19. Mae Cyngor Caerdydd wedi dewis ymgynghori ar awgrym yr adroddiad i ddileu meini prawf 2a a 2b (neu 3a a 3b yn y sector cynradd). Ond nid yw'r sail dros hynny yn glir. Ar y naill law, mae Atodiad 3 (p.4) yn dweud mai prin oedd y defnydd o'r meini prawf hyn yn 2017. Ond ar y llaw arall, dywedir bod eu bodolaeth yn achosi 'resource planning issues for some schools, and there is a cumulative effect for those in-catchment pupils who in turn are unable to attend their catchment area school'. Mae'r senario olaf yn awgrymu eu bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Os felly, byddai hynny'n golygu y bydd llawer o deuluoedd yn y dyfodol yn dioddef y sgîl- effeithiau logistaidd, ariannol ac addysgol a grybwyllwyd uchod. Ond os nad ydynt mewn gwirionedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, yna mae'n annhebygol y bydd effaith sylweddol. Nid ydym yn dilyn y rhesymu yma.
- 20 Mae YPC yn teimlo, fodd bynnag, na ddylai amllder defnydd maen prawf fod yn ystyriaeth sylfaenol. Mewn byd delfrydol, ni fyddai unrhyw un o'r meini prawf yn cael ei ddefnyddio, ac felly mae'r ffaith nad oes defnydd helaeth ar faen prawf yn beth da, yn hytrach nag yn rheswm dros ei ddileu. Dylai mesur gwerth meini prawf ymwneud â'u defnydd mewn sefyllfaoedd llai cyffredin a llai na delfrydol.
- 21 Hyd yn oed pan na chânt eu ddefnyddio, gall meini prawf ddal i hwyluso dewis addysg CC. Gallai dileu meini prawf 2a a 2b (neu 3a a 3b) gael effaith negyddol ar

rieni sy'n ystyried addysg CC, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cynllunio am ysgol newydd a/neu addasu dalgylchoedd.

Materion o berthnasedd arbennig i Ysgol Pwll Coch

- 22 Pe byddai'r cynigion hyn yn cael eu derbyn, byddent yn cael effaith sylweddol pan grëir dalgylch Ysgol Hamadryad. Mae'n debygol y bydd y dalgylch newydd yn cynnwys y rhan fwyaf o Grangetown a rhan sylweddol o Butetown. Ar hyn o bryd, mae'r ardal hon yn nalgylch YPC. Pe bai rheol 2a (3a cynradd) yn cael ei dileu byddai hyn yn golygu y byddai pob teulu yn yr ardal hon gyda phlant yn YPC yn cael eu cael eu hunain y tu allan i'r dalgylch ar gyfer brodyr a chwiorydd iau heb fod dim ar waith i liniaru'r sefyllfa honno. Ar y gorau, gallai newid o'r fath greu ansicrwydd a straen diangen i lawer o'n teuluoedd.
- 23 Pe derbynnid y cynigion, byddai'n rhaid i deuluoedd sy'n meddwl am addysg CC yn Grangetown ac ardaloedd cyfagos yn ystod y ddwy flynedd nesaf (o leiaf) ddyfalu beth fyddai eu hysgol dalgylch, YPC ynteu Ysgol Hamadryad, ar ôl aildrefnu dalgylchoedd. Gan fod y ddwy ysgol yn 2.5 milltir ar wahân, prin bod gyrru plant i'r ddwy yn opsiwn. Wrth gwrs, mae'n ddigon posibl y bydd lle yn y ddwy ysgol, ond mae ysgolion a'r ALL yn gwybod na allant warantu hyn i rieni o flaen llaw. Mae hyn yn creu ansicrwydd ac yn gwneud dewis addysg CC yn fwy o risg. Mae hefyd yn tansilio ymdrechion i leihau polareiddio, gan fod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn llai tebygol o gael mynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen i ddeall goblygiadau'r newidiadau hyn.

Casgliadau

- 24 Yn anffodus, ni all YPC fod yn hyderus bod y cynigion presennol wedi eu seilio ar ddealltwriaeth drylwyr o'u heffeithiau ar addysg CC. Mewn rhai achosion, teimlwn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar addysg CC.
- 25 Nid yw'r adroddiad y mae'r cynigion hyn wedi ei seilio arno yn ystyried addysg CC mewn modd ystyrion, nac yn ystyried o gwbl sut y gellid defnyddio gweithdrefnau derbyn i annog twf yn y sector CC.
- 26 Rydym yn nodi bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei baratoi (Atodiad 5). O ran yr iaith Gymraeg, mae'n dweud: 'The Council will continue to implement its Welsh in Education Strategic Plan and will ensure that there are schools to meet the demand for Welsh medium education'. Mae'r rhain yn rhwymedigaethau statudol ac maent yn amherthnasol i'r newidiadau arfaethedig. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, a'r ffaith na ddaethpwyd â'r cynigion gerbron y Fforwm Addysg Gymraeg, rydym yn pryderu nad yw effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei hystyried mewn modd ystyrion.
- 27 Nid ydym felly yn gallu cefnogi'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Byddem yn dymuno gweld ymchwil berthnasol sy'n ystyried addysg CC cyn newid y drefn bresennol.

Corff Llywodraethol Ysgol Pwll Coch

Bore da

Hoffwn ymateb yn fyr fel Pennaeth i'r ymgynghoriad hwn – trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd.

Yn dilyn y ffaith fod y Sir wedi newid talgylch Ysgol Pnecae i fod yn bwydo Ysgol Glantaf yn hytrach nag Ysgol Plasmawr (Medi 2017), roedd amod yn y trefniadau Derbyn oedd yn gwarantu mynediad i frodyr a chwiorydd ieuengach Ysgol Pnecae i fynychu Ysgol Plasmawr fel eu bodyn gallu dilyn aelodau o'u teulu 'r ysgol honno yn hytrach nag Ysgol Glantaf. Mae'r addewid yma yn cael ei thorri yn y drefn newydd felly rwyf i fel Pennaeth yn gwrthwynebu'r rhan hon o'r ymgynghoriad. Nid yw hyn yn deg gan fod yr addewid wedi cael ei phwysleisio yn ystod y cyfnod trosi hwn. Bydd hyn yn achosi llawer iawn o drafferthion i deuluoedd ac yn fwy na dim yn adlewyrchu'n wael ar y Sir am newid trefniadau unwaith yn rhagor!

Gyda diolch,



Richard Thomas

Pennaeth / Head Teacher

Cyngor Caerdydd / Cardiff Council

Ysgol Pnecae, Highfields, Llandaf, Caerdydd, CF5 2QA

E-bost / Email: richthomas@cardiff.gov.uk

Ffôn / Phone: 02920 563851

www.ysgolpencae.cymru



28th January 2018

School Organisation Planning Team
Room 422
County Hall
Atlantic Wharf
Cardiff
CF10 4UW
Dear Sir

Response to draft Admissions Policy 2019-2020

I am writing on behalf of the governing body of Whitchurch High School regarding the authority's draft Admissions Policy 2019-2020. The governors' comments are as follows:

1. The Admissions Criteria Research Report (WISERD) commissioned by Cardiff Council makes several suggestions about making the existing criteria easier to understand and less complex whilst still meeting the necessary statutory requirements. However, the current proposals for primary and secondary schools are more complex and difficult to understand. Even though we are experienced in dealing with admissions criteria it took us some time to understand the meaning of the proposals.

Why hasn't the authority taken this opportunity to refine the criteria for admissions as suggested in their research report to make them easier to understand and more equitable and accessible as a result?

2. The Admissions Criteria Research Report recommends removing compelling medical or social grounds as a criterion. It indicates that only a 'very small number of places' are allocated as a result of this criterion yet it is hard to judge what is compelling medical or social grounds or who is best placed to give objective 'expert' advice on this matter.

This suggestion seemed a way to provide fewer and fairer criteria and as a result the governors of Whitchurch High School have now removed this criterion from their draft Admissions Policy 2019/20. It is not clear why Cardiff County Council continues to use 'compelling medical or social grounds' as a criterion. The governors do not support the continued use of this criterion.

3. The governors support the re-introduction of 'attendance of pupil at a feeder school' as a criterion. Whitchurch High (Foundation) School has always had this as a criterion recognising that it helps provide continuity within the local community particularly for more vulnerable students and families. With our transition programme, which operates throughout the year with Year 6 pupils, it also provides curriculum continuity through shared curriculum experiences.

Although there is some concern that this criteria could disadvantage families moving into the area; in oversubscribed secondary schools all places are likely to have been allocated prior to any move. In Whitchurch High we also find that some families move out of the

area after they have been awarded a place at the school; it is worth noting, therefore that in areas of greater mobility there is some possibility of places becoming available to families who move into the area.

4. It's not clear why FIHPs are being used as an admission criterion for secondary schools. The consultation document states 'FIHPs are assigned to children allocated nursery funding by the Early Years Assessment Panel or Case Advisory Panel'. Young children are usually assessed in nursery and early primary years and if appropriate in receipt of a Statement of Special Educational Needs during their primary years.

The governors do not support this admission criterion. It is to the benefit of pupils if they are in receipt of a Statement of Special Educational Needs when appropriate to enable them to have the most appropriate placement and levels of support.

Thank you for your consideration of our comments.

Yours sincerely

A handwritten signature in cursive script that reads "Slack". The signature is written in dark ink and is positioned above the printed name.

Joyce Slack
Chair

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr – Headteacher response

Mae Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr yn falch o weld cydnabyddiaeth i 'ysgolion bwydo' yn dychwelyd i'r meini prawf ar gyfer derbyn i addysg uwchradd. Teimlir er hynny nad oes digon o sylw wedi ei roi yn y ddogfen ymgynghori i'r sefyllfa unigryw sydd wedi wynebu addysg Gymraeg yn ddiweddar lle mae ysgolion newydd yn cael eu sefydlu a lle nad oes dalgylchoedd clir yn cael eu diffinio ar eu cyfer am gyfnod estynedig neu lle bo dalgylchoedd ysgolion yn cael eu addasu.

Credir y dylid cynnwys ystyriaeth ar wahân i ysgolion newydd yn y ddogfen fyddai'n cynnwys y cymal am 'brawd / chwaer' fel bo cefnogaeth i deuluoedd sydd yn awyddus i gefnogi ysgolion newydd ond am sicrhau bod eu plant yn cael mynychu'r ru'n ysgol yn enwedig yn y Sector Cynradd.

John Hayes

School Admission Arrangements 2019-20

We understand that the Council are currently giving consideration to amending the schools admissions arrangements for the academic year 2019/2020, with specific consideration to be given to a feeder school system for admission to Secondary education. We believe that this is to address over subscription in some particular schools in the Local Authority area.

We write as the largest legal firm representing asylum seekers, refugees and members of the BME communities across Cardiff. We wish to raise concerns about this proposal as we do not believe that it addresses the issue of over subscription and is in fact detrimental to particular communities. It is acknowledged that oversubscription in the Local Authority area is an issue, and has indeed been an issue for a number of years. It is noted that the Local Authority previously maintained a feeder school system but that this was changed over 15 years ago to the current system, in line with many local authorities across Wales and the rest of the UK. It is submitted that the re-introduction of the feeder system in Cardiff actively discriminates against sections of the community which are more mobile and hence are less likely to be on the school roll throughout the primary phase or move into catchment later in the primary phase. This may include BME communities, children of asylum seekers and refugees, and the traveller community.

The Local Authority may not be aware that children of Asylum Seekers are accommodated by the National Asylum Support Service (NASS) and as such have no choice in their accommodation location. Families are given little notice of a change of accommodation and that accommodation could be located in any catchment area in the city. There is no consideration by NASS as to the impact this would have on a child in accessing education in a Local Authority where a feeder school system has been implemented.

The proposed system prejudices vulnerable, low income families who do not maintain permanent, secure accommodation and as such yet seems to benefit wealthier parents who are able to move into a permanent home in a "desirable" catchment area whilst their children are pre-primary age. The feeder system clearly places BME communities, children of asylum seekers and refugees, and the traveller community at a significant disadvantage when seeking admission.

Given the fact that the above groups are more "mobile" then this is likely to lead to significant transport issues in both congestion on the city network, and the Local Authority having to fund the transportation of these pupils across the city to the specified Secondary School. The Local Authority encourages children to walk or cycle to school or use sustainable transport for the purposes of healthy living and mind-set but this would not be encouraged by the suggested proposals.

It is acknowledged that the oversubscription of some schools is problematic in the Local Authority area but it seems illogical to seek to introduce a feeder school system at this stage, without giving more detailed consideration to the implications of the size and locations of catchment boundaries. It would unreasonable to implement

a policy which appears to benefit a small section of the Local Authority area, and place other groups, in particular those from a less fortunate socio-economic background across the Local Authority area at significant disadvantage.

In addition, given the significant implications of the admissions policy change, should the local Authority seek to implement the proposed feeder school system it is submitted that children currently in the primary school system are not prejudiced by the change.

Finally, we confirm that we are happy to contribute any further information as might be needed by the Local Authority on the impact of admissions arrangements changes on Asylum Seeker, Refugee and Immigrant families if required.

Yours sincerely

Sara Chang Kee
Partner



Bristol
Park House Business Centre
10 Park Street
Bristol
BS1 5HX

T: (0117) 9154541
F: (0117) 9154542

Cardiff
16 Park Grove
Cardiff

CF10 3BN

(02920) 472728
(02920) 495096

sc@albanysolicitors.co.uk

www.albanysolicitors.co.uk | www.facebook.com/albanysolicitors

Marlborough Children's Action Group Response

Proposed Changes to the Community School Admission Arrangements 2019-20 – Consultation Response

We, as a parent campaign and support group, support the Council's proposed 2019/2020 Secondary school admissions arrangements with the Option B feeder school oversubscription criteria.

We refer to our letter dated 4/9/2017 to the Cabinet Member for Education & Skills and the Director of Education and Life Long Learning in which we set out our arguments regarding the unsuitability of the current school admissions arrangements and the need to change the oversubscription criteria to achieve a fairer system. We do not propose to repeat those arguments - that letter should be read in conjunction with this consultation response please.

In its consultation document, the Council acknowledges " a need for a fairer, more equitable system of allocating school places in Cardiff without impacting adversely on the community", and that with regard to social segregation the current arrangements have " done little to mitigate disadvantage". Whilst Option A does remove some criteria, only 7 out of 8618 applicants were allocated places under these criteria in 2017. With respect, Option A is a slightly revised regurgitated version of the current criteria. It therefore follows that Option A is neither suitable nor desirable. It does not have reasonable prospects of addressing the difficulties faced by pupils and their families embarking upon the application process in catchments for oversubscribed high schools. The mounting pressures upon secondary high school places in Cardiff for the next few years will further limit the options for those pupils who are unable to secure a place at their in catchment high school with their peers if a feeder school oversubscription criterion is not introduced.

Our reasons for supporting Option B which has the feeder school oversubscription criteria are as follows :

- Attendance at a feeder school criterion is clear and easily understood
- The proposed feeder schools are clear and transparent and made on reasonable grounds:
 - a) They consist of the primary schools nested in the high school's catchment, so Option B would help maintain close relationships between local primaries and their partner secondary
 - b) For the purpose of our local catchment secondary school, Cardiff High school (CHS), the feeder primaries are listed as Marlborough, Roath Park Lakeside, Rhydypennau and Howardian.
 - c) The intake numbers at the Primaries broadly equate to the current CHS intake. Howardian will not be producing an intake for approx. four years by which time the proposed expansion of CHS by an additional two form intake using Plan B funding will have occurred.
- If oversubscription criteria had included the Option B feeder school one last year then the following numbers of children attending the proposed feeder schools and living in catchment who were refused places at their partner catchment high school in 2017, and would have got them are:

Cardiff High School – 33
Fitzalan High School – 17
Llanishen High School – 23

A staggering 73 children would have been able to proceed with their peer group to their catchment high school if a feeder over subscription criteria had applied.

- The independent report commissioned by Cardiff Council to look at options for admissions arrangements **recommends it** - "consider adding designated feeder schools as an oversubscription criterion (after sibling and catchment criteria)."
- They offer the benefit of continuity of education for pupils and enables most children in the feeder schools to move as a cohesive peer group to their local catchment secondary school. This reinforces and continues community ties and peer support.
- They minimise issues of transition and encourage close cooperation between the primary and secondary school sectors. In Marlborough's case examples of this include:
 - A longstanding partnership with CHS – pupil visits, staff visits, regular meetings between key subject leaders and Heads to ensure continuity of education and standards and strategies, support to ensure smooth transition, compatible and shared resources, links between Primary School Councils and CHS School Parliament, shared governors, shared community ties.
 - Buying IT and software equipment compatible with CHS.
- The Equality Impact Assessment conducted on option B shows that overall there is no significant impact on protected characteristics such as disability or religion, with the exception of race. The assessment states that whilst there is not a significant difference between different ethnic groups, there could be a small disadvantage for Black / African / Caribbean / Black British pupils, and Traveller families. The ethnic group most likely to benefit from option B would be Asian/ Asian British pupils, followed by White British pupils. The difference is down to how likely pupils of different ethnicities are to stay at the same primary school until they move to secondary school. So, for example 92% of Asian / British Asian pupils are likely to stay at the same school, compared to 75% Black / African / Caribbean / Black British pupils.
- However, there is no Equality Impact Assessment for the proposed Option A so it is not possible to compare what impact the current proximity criteria has on different ethnic groups. Given the diverse makeup of Marlborough and Roath Park compared to areas closer to CHS, the current criteria are likely to adversely affect ethnic minority pupils more than the proposed option B. Approx 33% of Marlborough's children are from ethnic minorities. Currently Marlborough has 172 pupils on its roll from 33 ethnic minority groups, of which 22 are Black / African/Caribbean/Black British.
- In addition to this the Council accepts that the current criteria "have done little to mitigate disadvantage" and address segregation.
- CHS is based within one of the most affluent and expensive parts of Cardiff. The current criteria and Option A benefits those living in the more affluent

area closer to the school, and disadvantages those from the more diverse and less affluent parts of the catchment area as we have seen in recent years.

- Feeder school criterion would ensure a more diverse pupil intake and base – in terms of socio- economic factors, community and ethnicity.
- The admissions report confirms that the opportunity to ‘choose’ a school “privileges 2 key groups- high household income families and church goers” and that is what we are beginning to see at the 3-main oversubscribed secondary schools.
- It has no significant impact upon the Welsh language and faith who continue to have the benefit of multiple application options which most English medium pupils in reality do not have. There are no current issues with place availability in the Welsh Medium High Schools. Pupils attending Welsh medium and faith primary schools can continue to ‘feed’ into their Welsh Medium/ Faith High school. They are not prevented from applying to an English medium school, simply that in the event of oversubscription, those children at the English medium feeder schools will have priority.
- Enables better use of green sustainable transport options and encourages good habits and health.e.g. lift shares, pupils walking/ cycling together. The increased certainty should assist the Council in planning cycling routes with children in mind.

Yours faithfully

Marlborough Children's Action Group



Trefniadau Derbyn Ysgolion 2019- 2020

Dogfen ymgynghori

Cyngor Caerdydd

Cyswllt:

Ceri McEvoy

Rhieni dros Addysg Gymraeg

Tŷ Cymru

Greenwood Close

Parc Busnes Porth Caerdydd

Caerdydd

CF23 8RD

ceri@rhag.net

07912175403

Ionawr 2018

RHAG

- 1 Mudiad yw Rhieni dros Addysg Gymraeg sy'n cynrychioli rhieni sydd â phlant mewn ysgolion Cymraeg.
Nod RhAG fel mudiad yw cefnogi datblygiad addysg Gymraeg ledled Cymru.
- 2 Mae RhAG yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad dan sylw. Hyderwn y rhowch sylw dyladwy i'r ymateb canlynol. Bydd y sylwadau hyn yn ymdrin ag addysg Gymraeg, sef ein prif diddordeb fel mudiad.

Sylwadau cyffredinol

- 3 Rydym yn croesawu'r ymchwil a gynhaliwyd gan yr Athro Chris Taylor ac yn gwbl gefnogol o benderfyniadau a wneir ar sail tystiolaeth.
- 4 Serch hynny, roedd yn gryn siom i ddarllen yr adroddiad dan sylw, sy'n cynnig newidiadau pellgyrhaeddol i drefniadau Derbyn i Ysgolion yn 2019/10, a hynny ar sail dogfen sy'n ddiffygiol iawn.
- 5 Yn ei gyfanrwydd, mae'r diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yn yr adroddiad a'r argymhellion yn dorcalonnus, yn wir, arwynebol ar y gorau yw'r ymdriniaeth o'r sector cyfrwng Cymraeg, mewn unrhyw ystyr.
- 6 Mewn adroddiad sy'n ymdrin ag ystod eang o argymhellion ac awgrymiadau, byddai'n rhesymol disgwyl iddo osod y cyd-destun o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys polisiâu a strategaethau cenedlaethol a lleol, ymchwil perthnasol ayb. Mae methiant yr adroddiad i wneud hynny yn drawiadol.
- 7 Prin yw'r gyfeiriadaeth at bolisi cenedlaethol sydd bellach yn gosod disgwyliad bod ALL yn ysgogi a chreu'r twf yn hytrach na dim ond diwallu'r galw. Nid oes unrhyw drafodaeth yn yr adroddiad o'r berthynas rhwng dalgyloedd, polisi Derbyn Ysgolion a'r angen i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg. Nid oes ychwaith unrhyw gyfeiriad at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 Cyngor Caerdydd, sef y prif offeryn statudol o ran cynllunio ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.
- 8 Dyma enghraifft o'r perygl sy'n codi wrth hepgor ystyriaethau o'r Gymraeg mewn perthynas ag adroddiadau o'r fath. Daw'n amlwg bod prif bwyslais yr adroddiad ar addysg uwchradd, ond yn naturiol byddai gweithredu'r argymhellion yn effeithio ar addysg trwyddi draw. Mae llunio adroddiad sydd i bob pwrpas yn rhoi blaenoriaeth amlwg i anghenion ysgolion uwchradd Saesneg, yn gogwyddo'r holl adroddiad mewn ffordd sy'n diystyru ac yn methu amgyffred yr anghenion gwahanol sydd gan addysg gynradd Gymraeg yn arbennig, ond hefyd o safbwynt addysg gynradd cyfrwng Saesneg.
- 9 Ymhellach at hynny, nodwn bod holl ogwydd yr adroddiad wedi ei ysgrifennu o safbwynt a chyd-destun Seisnig, sy'n rhoi'r camagraff nad yw addysg wedi ei ddatganoli yng Nghymru. Mae ystyriaethau megis ysgolion bonedd, ysgolion gramadeg, ysgolion 'rhydd' (free schools), academiâu ayb yn gwbl

- amherthnasol. Collwyd cyfle i osod y cyd-destun Cymreig ac i wneud cymhariaethau ystyrion gyda pholisi Derbyn i Ysgolion ALI eraill yng Nghymru.
- 10 Yn wir, nid ydym yn ymwybodol bod y dogfennau hyn wedi mynd gerbron y Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso cynnydd mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Mae hynny'n fethiant sylfaenol ac yn tanseilio swyddogaeth a chyfraniad y grŵp ymgynghorol hwn. Pe bai'r Fforwm wedi cael bod yn rhan o'r broses o bennu briff yr adroddiad yn y lle cyntaf, yna mae'n bosib iawn y byddem wedi llwyddo i osgoi'r sefyllfa hon.
 - 11 Mae tirwedd y sector cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd wedi ei drawsnewid yn y blynyddoedd diwethaf, a hynny wedi arwain at newidiadau llawer mwy o ran dalgylchoedd na welwyd o safbwynt addysg cyfrwng Saesneg. Agorwyd 13 o ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ers 1979. Mae hyn wedi achosi llawer o newidiadau i ddalgylchoedd (gydag ysgol newydd yn agor ar gyfartaledd bob tair blynedd neu fwy). Er bod dalgylchoedd newidiol yn achosi aflonyddwch, fel y nodwyd yn yr adroddiad, rydym yn derbyn bod hynny'n rhan anorfod o ehangu'r sector cyfrwng Cymraeg. Mae angen ystyried yr effaith ar deuluoedd sydd â phlant sydd eisoes mewn ysgol, fodd bynnag, sy'n rhywbeth nad yw'r adroddiad yn llwyddo i'w wneud yn ddigon manwl.
 - 12 Rydym yn cytuno'n llwyr gyda'r pwynt a wneir yn yr adroddiad, sef yr effaith negyddol a geir wrth wahanu brodyr a chwiorydd (t.27) ar sail ymarferol, addysgol ac ariannol. Nodwn mai cyfeirio'n benodol at y sector uwchradd a wneir yma, ond byddem yn dadlau bod hynny hyd yn oed yn fwy perthnasol o ran y sector cynradd, lle mae dalgylchoedd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfartaledd yn fwy. Er nad yw'r adroddiad yn cyfeirio o gwbl at hynny.
 13. O ystyried hyn, mae'n ein taro'n rhyfedd bod yr union feini prawf a luniwyd i osgoi hynny - sef maen prawf 2a, 2b, 7 a 8 – yn cael eu diystyru heb fawr o drafodaeth.
 - 14 Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod gan Gyngor Caerdydd feini prawf derbyn i ysgolion sy'n 'gymharol unigryw'. Yn wir, mae RhAG wedi cyfeirio yn gyson at bolisi presennol Caerdydd fel un sy'n oleuedig mewn apeliadau derbyn ysgolion mewn siroedd eraill. Byddai'n siom gweld y Sir yn troi cefn ar agwedd flaengar y dylai bod siroedd eraill yn eu mabwysiadu.
 - 15 Pryderwn fod bwriad yma i wneud newidiadau pellgyrhaeddol ar sail cwbl adweithiol ac y bydd rheidwydd yn fuan iawn i gyflwyno newidiadau pellach wrth agor mwy o ysgolion. Mewn cyfnod newidiol o safbwynt addysg Gymraeg, lle mae polisi cenedlaethol yn pennu'r disgwyliad y bydd newidiadau sylweddol pellach dros y blynyddoedd nesaf, rhaid osgoi ymateb o'r fath.
 - 16 Byddai gweithredu ar y cynnig hwn yn cael effaith afresymol ar addysg Gymraeg oherwydd newidiadau cyson i ddalgylchoedd. Mae dalgychoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfartaledd yn fwy, a'r pellter ac amseroedd teithio yn uwch, felly byddai'n arwain at fabwysiadu polisi sy'n debygol o gael

effaith anghymesur ar deuluoedd sydd wedi neu'n bwriadu dewis addysg Gymraeg.

- 17 Rhaid tynnu sylw arbennig at y goblygiadau, o ran newid rheolau, i deuluoedd mewn dalgyloedd Cymraeg mawr, fel Grangetown. Mae'r argymhellid i hepgor y maen prawf sy'n blaenoriaethu brodyr a chwiorydd yn rhwym o greu problemau enbyd i rai teuluoedd, lle bydd gofyn mynd a phlant i wahanol ysgolion Cymraeg. Mae'r syniad o orfod teithio o ganol Grangetown i Dre-biwt i hebrwng un plentyn i'r ysgol, cyn dychwelyd i Ysgol Pwll Coch gyda phlentyn arall yn frawychus.
- 18 Awgrymwn felly nad yw'n ddoeth amcanu i greu polisi cyffredinol wrth geisio ateb anghenion un sector sydd ag anghenion cwbl wahanol i'r sector cyfrwng Cymraeg.
- 19 Nid yw amcanu i drin pawb yr un fath gyfystyr â thrin pawb yn deg. Mae llawer mwy o her (yn ddaearyddol ac ymarferol) i ddisgyblion i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly dylai polisiâu a strategaethau'r Cyngor adlewyrchu hyn.
- 20 Mae'n glir i ni y byddai gweithredu ar y newidiadau arfaethedig, yn benodol i waredu'r maen prawf brodyr a chwiorydd, yn arwain at y canlyniadau anfwriadol canlynol:
- Creu rhwystrau ychwanegol at addysg Gymraeg i lawer o deuluoedd, ac yn arbennig o ran grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, gan gynnwys teuluoedd o gefndiroedd llai breintiedig ac o gymunedau lleiafrifoedd ethnig;
 - Sefydlu polisi sy'n mynd yn groes i'r dyletswydd i hyrwyddo mynediad at addysg Gymraeg;
 - Creu sefyllfa lle na fydd cynnig rhagweithiol o Addysg Gymraeg i bob teulu;
 - Gwneud y dewis o addysg Gymraeg yn fwy o risg a chynyddu ansicrwydd a phoen meddwl i deuluoedd;
 - Rhieni ddim yn ystyried addysg Gymraeg o gwbl, yn arbennig mewn ardal lle mae ysgol newydd yn cael ei sefydlu a/neu gynnig i newid dalgyloedd yn yr arfaeth;
 - Colli plant o'r sector, h.y. brodyr neu chwiorydd hyn yn cael eu tynnu allan o ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd bod plant iau yn methu a chael lle yn yr un ysgol. Noder mai traffig un ffordd yw hyn. Pe bai plentyn yn methu cael lle mewn ysgol cyfrwng Saesneg, yna mae llawer mwy o opsiynau gan rieni a'r cyfan ohonynt trwy gyfrwng y Saesneg.
 - Colli ewyllys da tuag at addysg Gymraeg
- 21 Rhaid osgoi creu strwythurau sy'n atal neu lesteirio twf addysg Gymraeg yn y ddinas. Rhaid osgoi hefyd gosbi rhieni am sefyllfa sy'n ganlyniad uniongyrchol o ddiffyg cynllunio rhagweithiol a digonol i'r galw am addysg Gymraeg yn y ddinas. Nid oes modd dadlau fod teuluoedd wedi gorfod teithio allan o'u

cymuned leol i gael mynediad at addysg Gymraeg oherwydd diffyg darpariaeth mewn cymaint o ardaloedd.

- 22 O safbwynt addysg Gymraeg, ac yn wir o safbwynt unrhyw fath o addysg, sicrhau bod digon o ysgolion lleol, o fewn pellter rhesymol ac o ansawdd dda yw'r ffordd orau o osgoi sefyllfa lle mae rhieni a disgyblion yn teithio allan o'u dalgylch naturiol neu 'swyddogol'.
- 23 Nid yw'n glir inni pam fod y Cyngor yn bwriadu ymgynghori i gael gwared ar feini prawf 2a a 2b. Ar un llaw mae'r papurau ymgynghori yn nodi na ddefnyddwyd y rheolau hyn yn aml yn 2017 ond ar y llaw arall yn crybwyll fod eu bodolaeth yn 'achosi heriau o ran cynllunio adnoddau ar gyfer rhai ysgolion, ac mae effaith gronol ar y disgyblion hynny sy'n byw o fewn y dalgylch ac sydd, yn eu tro, yn methu â mynychu ysgol eu dalgylch'. Os felly, mae'r awgrym eu bod yn cael eu defnyddio yn gyson yn golygu y byddai nifer llawer uwch o deuluoedd yn y dyfodol yn gorfod wynebu'r canlyniadau negyddol ymarferol, ariannol ac addysgol y nodwyd uchod. Os nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, yna mae'n anhebygol y caiff y plant sy'n byw o fewn y dalgylch eu heffeithio. Byddai'n dda cael eglurder ar yr amwysedd o ran ysgogiad yr ymgynghoriad i waredu'r meini prawf hyn.
- 24 Mewn byd delfrydol wrth gwrs, ni fyddai angen defnyddio'r meini prawf o gwbl, ac mae eu pwysigrwydd yn fwy, er mwyn diogelu teuluoedd sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfa llai na delfrydol ac sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'n holl bwysig cynnal y rhwyd diogelwch i deuluoedd sydd am ddewis addysg Gymraeg.
- 25 Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod y polisi cynradd yn gywir er mwyn sicrhau bod y polisi uwchradd yn llifo'n iawn.

Sylwadau i gloi

- 26 Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid yw RhAG yn hyderus bod yr argymhellion yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddigonol o'u heffaith ar addysg Gymraeg. Oherwydd hynny, gofynnwn i chi oedi cyn gweithredu ar y cynigion dan sylw.
- 27 Yn ein barn ni, yr unig ymateb synhwyrol yw mynd ati i lunio adroddiad arall, ar sail ffeithiol gadarn, sy'n ystyried mynediad i ysgolion a dalgylchoedd o safbwynt Addysg Gymraeg, a hynny mewn ymgynghoriad llawn â chyrrff llywodraethol, Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a gaiff eu gweithredu yn y pen draw yn rhesymol a chymesur, ac yn gweithio er lles holl ysgolion y ddinas.
- 28 Byddai RhAG yn croesawu ymrwymiad gan y Cyngor i gynnal ymchwil o safbwynt yr heriau sy'n wynebu addysg Gymraeg, gan roi ystyriaeth lawn i faterion megis; lleoliadau'r ysgolion presennol, hygyrchedd y ddarpariaeth, maint dalgylchoedd, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chanfyddiadau cyffredinol am addysg Gymraeg ayb

- 29 Byddwch yn ymwybodol fod RhAG eisoes wedi bod yn galw am adolygu ac aildrefnu'r dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas, ac mae'r angen i wneud hynny yn Ne'r Ddinas yn fater o frys. Dylai hynny fod yn flaenoriaeth.
- 30 Mae'r papurau ymgynghori yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb, ac mewn perthynas a'r Gymraeg, yn nodi, 'Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a bydd yn sicrhau bod ysgolion yn cwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg'. Mae'r rhain yn ddyletswyddau statudol ac yn amherthnasol i'r cynigion arfaethedig. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, neu yn hytrach yng ngwyneb diffyg tystiolaeth, yn ogystal â'r ffaith na chyflwynwyd y briff gwreiddiol na'r cynigion gerbron y Fforwm Addysg Gymraeg, ofnwn nad ydym wedi ein bodloni fod unrhyw ystyriaeth ystyrion wedi ei roi i effaith gweithredu'r newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg. Dylai bod asesiad mesur effaith penodol wedi ei gynnal o ran y Gymraeg a hynny wedi ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad.
- 31 Mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i weithredu mewn modd sy'n ysgogi twf mewn addysg Gymraeg ac yn cyfrannu mewn modd ystyrion at darged Llywodraeth Lafur Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai gweithredu'r argymhellion dan sylw yn tansellio unrhyw ymdrechion i gyflawni hyn.

Atodiad 4

Dadansoddiad cryno o ymatebion yr ymgynghoriad

Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion meithrin

Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (92%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg feithrin (roedd 62% o'u plaid ac ni wnaeth 30% sylwadau amdanynt).


Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion cynradd

Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (87%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg gynradd (roedd 57% o'u plaid ac ni wnaeth 30% sylwadau amdanynt) ac eithrio'r cynnig i ddiddymu'r maen prawf cyfeirio brawd/chwaer.

Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion uwchradd


Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (88%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg uwchradd (roedd 80% o'u plaid ac ni wnaeth 8% sylwadau amdanynt).

O'r holl ymatebion, mae 8% o blaid Opsiwn A ac mae 79% o blaid Opsiwn B.




Roedd 83% o'r ymatebwyr y mae eu plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Saesneg yn ffafrio Opsiwn B, ond roedd 25% o'r ymatebwyr y mae eu plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg yn ffafrio Opsiwn A ac roedd 25% yn ffafrio Opsiwn B.

Dewis yr Ymatebwyr (a'u plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Saesneg)




Dewis yr Ymatebwyr (a'u plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg)



Dadansoddiad codau post – Opsw'n A

Mae dadansoddiad o'r codau post yn rhoi manylion yr ardaloedd lle cafwyd ymatebion o blaid Opsw'n A. Ardaloedd y codau post hyn yw: Cathays, Cyncoed, Llys-faen, Llanisien, Pen-y-lan, Plasnewydd a'r Rhath, sy'n cynnwys dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Uwchradd Llanisien.

Canran yr ymatebwyr sydd o blaid Opsiwn A




Dadansoddiad codau post – Opsiwn A

Mae'n werth sylwi bod 81% o'r ymatebwyr a oedd o blaid Opsiwn B yn byw yn ardaloedd codau post CF23 5, CF23 9, CF24 3 a CF24 4, sydd yn bennaf yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Roedd rhai o'r cyfeiriadau â'r codau post hyn yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Cathays a/neu Ysgol Uwchradd Llanisien.

Canran yr ymatebwyr sydd o blaid Opsiwn B



Dywedodd 184 o'r ymatebwyr a oedd o blaid Opsiwn B i ba ysgol yr aiff eu plentyn, ond 5 ymatebwr yn unig a oedd o blaid Opsiwn A a enwodd ysgol.

O'r 184 ymatebwr a oedd o blaid Opsiwn B, mae gan 52.2% ohonynt blentyn/plant yn Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac mae gan 46.2% blentyn/plant yn Ysgol Gynradd Marlborough.

Atodiad 5

Dadansoddiad cyffredinol o'r Arolwg Disgyblion

Rhannwyd arolwg disgyblion ym mhob ysgol yng Nghaerdydd er mwyn gofyn i ddisgyblion ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Gofynnwyd i ddisgyblion nodi sgôr i'r cwestiynau canlynol (o 0-10):

- Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol â'u brodyr/chwiorydd hŷn?
- Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol uwchradd â ffrindiau a disgyblion eraill o'u hysgol gynradd
- Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i ysgol sy'n agos at eu cartref?
- Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu derbyn o flaen plant eraill?

Cafwyd 413 o ymatebion ar-lein, gan gynnwys 158 o ymatebion gan ddisgyblion ysgol gynradd blwyddyn 4, 5, a 6, a 255 gan ddisgyblion ysgol uwchradd blwyddyn 7, 8, 9, a 10.


Disgyblion ysgol gynradd

Dyma sgorau disgyblion ysgol gynradd ar gyfartaledd:


Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol â'u brodyr/chwiorydd hŷn?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol uwchradd â ffrindiau a disgyblion eraill o'u hysgol gynradd?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i ysgol sy'n agos at eu cartref?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu derbyn o flaen plant eraill?
7.47	6.61	7.52	6.89

Dyma faint o ddisgyblion a nododd bob sgôr:


How important is it for pupils to attend the same school as their older brother/sister?




How important is it for pupils to attend the same Secondary school as friends and other pupils from their primary school?



How important is it for pupils to attend a school close to home









Disgyblion ysgol uwchradd

Dyma sgorau disgyblion ysgol gynradd ar gyfartaledd:

Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol â'u brodyr/chwiorydd hŷn?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i'r un ysgol uwchradd â ffrindiau a disgyblion eraill o'u hysgol gynradd?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn mynd i ysgol sy'n agos at eu cartref?	Pa mor bwysig yw hi bod disgyblion yn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu derbyn o flaen plant eraill?
6.73	6.13	6.86	6.71

Dyma faint o ddisgyblion a nododd bob sgôr:





Crynodeb o'r canfyddiadau:

Nododd disgyblion ysgol gynradd mai mynd i ysgol agos at y cartref oedd bwysicaf (sgôr pwysigrwydd o 7.52 ar gyfartaledd) ac mai mynd i'r un ysgol â ffrindiau a disgyblion eraill o'r ysgol gynradd oedd leiaf pwysig (sgôr pwysigrwydd o 6.61 ar gyfartaledd).

Nododd disgyblion ysgol uwchradd mai mynd i ysgol agos at y cartref oedd bwysicaf (sgôr bwysigrwydd o 6.86 ar gyfartaledd) ac mai mynd i'r un ysgol â ffrindiau a disgyblion eraill o'r ysgol gynradd oedd leiaf pwysig (sgôr bwysigrwydd o 6.13 ar gyfartaledd).

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Atodiad 6

Dadansoddiad Effaith: patrymau galw presennol trwy'r ddinas yng nghyd-destun dewis maen prawf derbyn ysgol fwydo (Dewis B).

Mae dadansoddiad o ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf wedi'i ddilysu wedi ei gwblhau er mwyn rhoi syniad o'r gydberthynas rhwng patrymau presennol y llefydd ysgol sydd ar gael a'r galw amdanynt, pe gweithredid maen prawf ysgol fwydo (Dewis B).

At ddibenion dadansoddi data, canolbwyntiwyd ar gohort Blwyddyn 4 oherwydd mai dyma'r grŵp a fyddai'n pontio i'r ysgol uwchradd yn y flwyddyn y byddai trefniant derbyn 2019/20 yn weithredol.

Gwnaed ymarferiad cymharu rhwng Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd (NDG) ar gyfer yr ysgolion uwchradd o'i gymharu â nifer y disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sydd hefyd yn mynd i ysgolion cynradd cymunedol yn nalgylch yr ysgol uwchradd. Canfuwyd, yn achos 4 o'r 13 ysgol, fod rhagor o ddisgyblion yn byw yn y dalgylch ac yn mynd i ysgolion bwydo na sydd o lefydd ar eu cyfer yn eu hysgolion uwchradd cysylltiedig.

- Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd (270 disgybl yn y dalgylch, 240 NDG)
- Ysgol Uwchradd y Dwyrain (343 disgybl, 240 NDG)
- Ysgol Uwchradd Fitzalan (386 disgybl, 300 NDG)
- Ysgol Uwchradd Llanisien (394 disgybl, 300 NDG)

Yn ogystal â'r dull hwn, dangosodd cymhariaeth o gyfanswm Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd gan yr ysgolion bwydo â'r ysgolion uwchradd cysylltiedig mai dim ond 6 o'r 13 ysgol uwchradd o bosib a allai dderbyn holl ddisgyblion eu hysgolion bwydo perthnasol gan fod cyfanswm y NDG yn yr ysgolion cynradd yn is na hwnnw yn yr ysgolion uwchradd:

- Ysgol Uwchradd Cantonian
- Ysgol Uwchradd Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Cathays
- Ysgol Uwchradd Willows
- Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd
- Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

Mae'n bosibl na allai'r ysgolion canlynol dderbyn holl ddisgyblion eu hysgolion bwydo oherwydd bod cyfanswm NDG yn yr ysgolion cynradd yn uwch na hwnnw yn yr ysgol uwchradd:

- Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd (NDG uwchradd 240, NDG cynradd 300)
- Ysgol Uwchradd y Dwyrain (NDG uwchradd 240, NDG cynradd 416)
- Ysgol Uwchradd Fitzalan (NDG uwchradd 300, NDG cynradd 435)
- Ysgol Uwchradd Llanisien (NDG uwchradd 300, NDG cynradd 465)
- Ysgol Gyfun Radur (NDG uwchradd 210, NDG cynradd 234)
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (NDG uwchradd 240, NDG cynradd 325)

- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (NDG uwchradd 180, NDG cynradd 265)

Dim ond un ysgol uwchradd yng Nghaerdydd sydd lle mae cyfanswm y nifer derbyn a gyhoeddwyd gan yr hysgolion bwydo yn cyfateb â nifer derbyn yr ysgol uwchradd gysylltiedig, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern.

Er mwyn cael cyd-destun dinas gyfan, dadansoddwyd cohort y flwyddyn ysgol gyfan mewn ysgolion cymunedol trwy'r ddinas. 76% yw'r ganran o gyfanswm disgyblion ysgolion cymunedol Caerdydd sydd ym Mlwyddyn 4 ac yn mynd i ysgol gymunedol o'r un cyfrwng, yn yr un dalgylch ysgol uwchradd. Golyga hyn na ellid ystyried tua chwarter yr holl ddisgyblion sy'n mynd i ysgol gymunedol ar hyn o bryd, ac a fydd yn pontio i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2019, ar gyfer ysgol uwchradd eu dalgylch dan y meini prawf ar sail rhoi blaenoriaeth uwch i'r ysgolion bwydo.

Bydd rhaglen fuddsoddi Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn arwain at newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth ysgol uwchradd trwy rannau eang o'r ddinas.. Byddai hyn yn gofyn am adolygu ac ail-lunio dalgylchoedd i gynrychioli'r newidiadau hyn a than y gwneir hynny, ni fydd yn bosibl asesu effaith meini prawf derbyn ar sail ysgol fwydo yn gywir yn y cyd-destun hwn.

Sylwer:

Nid yw cyfanswm NDG ysgolion bwydo Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, sef 315, yn cynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yn 2019/20. Aiff y flwyddyn ysgol gyntaf o Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad i'r ysgol uwchradd yn 2022/23. Byddai cyfanswm NDG yr ysgolion cynradd bwydo yn codi i 375 yn cynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad.

Nid yw cyfanswm NDG ysgolion bwydo Ysgol Uwchradd Caerdydd, sef 238, yn cynnwys Ysgol Gynradd Howardian yn 2019/20. Aiff y flwyddyn ysgol gyntaf o Ysgol Gynradd Howardian i'r ysgol uwchradd yn 2022/23. Byddai cyfanswm NDG yr ysgolion cynradd bwydo yn codi i 298 yn cynnwys Ysgol Gynradd Howardian.

Data yn dangos cydberthynas NDG yr ysgolion uwchradd â'r NDG a'r lleoedd a lenwir mewn ysgolion cynradd Cymraeg yn nalgylch yr ysgol uwchradd.

Tabl	Blwyddyn Cwricwlwm	DER	BLC1	BLC2	BLC3	BLC4	NDG
Ysgol:	Blwyddyn bontio i Ysgol Uwchradd:	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20	

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

							180
Ysgol Bro Eirwg		58	54	54	52	54	60
Ysgol Pen y Pil		30	26	24	27	24	30
Ysgol y Berllan Deg		58	48	58	55	53	60
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes		19	11	7	10	9	30
Cyfanswm		165	139	143	144	140	180

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

							240
Ysgol Glan Ceubal		20	15	19	9	7	30
Ysgol Glan Morfa		29	24	25	24	21	60
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd		60	58	58	54	59	60
Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad		17	17				60
Ysgol Mynydd Bychan		29	30	30	30	28	30
Ysgol Gymraeg Pwll Coch		42	38	48	34	52	60
Ysgol y Wern		74	71	70	68	66	75
Cyfanswm (2019/20 - 2021/22)				250	219	233	315
Cyfanswm (o 2022/23)		271	253				375

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

							180
Ysgol Gynradd Creigiau		21	23	21	20	23	29
Ysgol Gymraeg Treganna		82	75	72	69	43	90
Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof		55	55	52	45	42	60
Ysgol Gymraeg Nant Caerau		30	25	26	27	27	30
Ysgol Pencae		4	2	1	6	3	30
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth		27	28	19	24	24	26
Cyfanswm		219	208	191	191	162	265

Data yn dangos cydberthynas NDG yr ysgolion uwchradd â'r NDG a'r lleoedd a lenwir mewn ysgolion cynradd Saesneg yn nalgylch yr ysgol uwchradd.

Tabl Ysgol:	Blwyddyn	Cwricwlwm	DER	BLC1	BLC2	BLC3	BLC4	NDG
Blwyddyn bontio i Ysgol Uwchradd:			2023/24	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20	
<u>Ysgol Uwchradd Cantonian</u>								181
Ysgol Gynradd y Tyllgoed			29	17	26	24	19	40
Ysgol Gynradd Pentre-baen			21	29	24	18	23	30
Ysgol Gynradd Peter Lea			40	35	43	41	41	45
Cyfanswm			90	81	93	83	83	115
<u>Ysgol Uwchradd Caerdydd</u>								240
Ysgol Gynradd Howardian			28	37				60
Ysgol Gynradd Lakeside			60	52	53	51	68	60
Ysgol Gynradd Marlborough			58	56	74	56	53	60
Ysgol Gynradd Rhydypenau			59	58	56	71	47	60
Ysgol Gynradd Parc y Rhath			51	45	42	50	49	58
Cyfanswm (2019/20 - 2021/22)					225	228	217	238
Cyfanswm (o 2022/23 ymlaen)			256	248				298
<u>Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd</u>								240
Ysgol Gynradd Herbert Thompson			63	68	66	68	56	60
Ysgol Gynradd Hywel Dda			56	52	58	55	55	60
Ysgol Gynradd Millbank			26	29	28	29	23	30
Ysgol Gynradd Pencaerau			29	30	30	31	29	30
Ysgol Gynradd Trelái			46	59	54	46	54	60
Ysgol Gynradd Windsor Clive			58	57	53	50	53	60
Cyfanswm			278	295	289	279	270	300
<u>Ysgol Uwchradd Cathays</u>								165
Ysgol Gynradd Albany			34	35	30	39	30	60
Ysgol Gynradd Allensbank			15	31	21	24	24	45
Ysgol Gynradd Gladstone			22	25	21	22	25	30
Cyfanswm			71	91	72	85	79	135
<u>Ysgol Uwchradd y Dwyrain</u>								240
Ysgol Gynradd Bryn Hafod			39	42	42	38	41	60
Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon			19	24	14	27	20	41
Ysgol Gynradd Greenway			28	28	29	24	26	30
Ysgol Gynradd Meadowlane			33	40	33	44	37	45
Ysgol Gynradd Oakfield			47	48	54	57	53	60
Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn			32	27	29	26	31	30
Ysgol Gynradd Tredelerch			55	56	50	53	52	60
Ysgol Gynradd Trowbridge			28	28	25	26	28	30
Ysgol Gynradd Willowbrook			58	57	53	54	55	60

Cyfanswm	339	350	329	349	343	416
-----------------	------------	------------	------------	------------	------------	------------

Ysgol Uwchradd Fitzalan

300

Ysgol Gynradd Grangetown	58	61	59	55	56	60
Ysgol Gynradd Kitchener	57	58	49	55	53	60
Ysgol Gynradd Lansdowne	32	43	47	51	72	60
Ysgol Gynradd Mount Stuart	58	54	57	58	56	60
Ysgol Gynradd Parc Ninian	69	85	79	52	56	90
Ysgol Gynradd Radnor	43	46	35	45	39	45
Ysgol Gynradd Severn	55	54	50	54	54	60
Cyfanswm	372	401	376	370	386	435

Ysgol Uwchradd Llanisien

300

Ysgol Gynradd Bryn Celyn	17	27	21	26	28	30
Ysgol Gynradd Coed Glas	71	48	64	50	75	75
Ysgol Gynradd Glyncoed	35	49	50	49	49	60
Ysgol Gynradd Llanedern	38	45	41	42	32	55
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	16	23	27	32	24	5*
Ysgol Gynradd Llysfaen	57	48	50	50	53	60
Ysgol Gynradd Springwood	20	24	28	19	29	60
Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	59	43	54	52	58	60
Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen	54	53	55	57	46	60
Cyfanswm	367	360	390	377	394	465

Ysgol Gyfun Radur

210

Ysgol Gynradd Bryn Deri	29	30	27	29	27	30
Ysgol Gynradd Creigiau	20	22	20	19	22	29
Ysgol Gynradd Danescourt	27	22	36	34	22	60
Ysgol Gynradd Pentyrch	16	16	24	16	15	20
Ysgol Gynradd Tongwynlais	23	23	25	22	18	28
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth	8	8	8	8	8	7
Ysgol Gynradd Radur	55	60	52	56	53	60
Cyfanswm	178	181	192	184	165	234

Ysgol Uwchradd Willows

224

Ysgol Gynradd Adamsdown	45	48	33	36	43	60
Ysgol Gynradd Baden Powell	58	47	51	51	45	60
Ysgol Gynradd Moorland	57	51	53	50	46	60
Ysgol Gynradd Stacey	22	24	19	22	18	30
Cyfanswm	182	170	156	159	152	210

Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys**Newydd**

						390
Ysgol Gynradd Llwynbedw	46	51	37	43	41	58
Ysgol Gynradd Coryton	26	26	30	22	27	30
Ysgol Gynradd Gabalfa	26	35	23	32	26	30
Ysgol Gynradd Hawthorn	30	28	23	28	22	30
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	43	34	33	26	32	55*
Ysgol Gynradd Rhiwbeina	83	72	79	74	71	75
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd	85	80	77	81	78	90
Cyfanswm	339	326	302	306	297	368

Mae'r tabl isod yn crynhoi data cohort Blwyddyn 4 mewn tablau (yn cynrychioli'r cohort a fydd yn mynd i'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol 2019/20)

Crynodeb o ddsbarthiad y niferoedd Disgyblion a dderbynnir i'r Ysgolion Bwydo o'u cymharu â'r Ddarpariaeth Ysgol Uwchradd ar gyfer cohort pontio 2019/20

Dalgylch Ysgol Uwchradd	% y disgyblion yn mynd i Ysgolion Bwydo sy'n byw yn Nalgylch yr Ysgol Uwchradd	Cyfanswm NDG yr Ysgolion Bwydo Cynradd / NDG Uwchradd Cysylltiedig
Ysgol Uwchradd Cantonian	45.9%	63.5%
Ysgol Uwchradd Caerdydd	90.4%	99.2%
Ysgol Uwchradd Cathays	47.9%	81.8%
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	142.9%	173.3%
Ysgol Uwchradd Fitzalan	128.7%	145.0%
Ysgol Uwchradd Llanisien	131.3%	155.0%
Ysgol Gyfun Radur	78.6%	111.4%
Ysgol Uwchradd Willows	67.9%	93.8%
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	112.5%	125.0%
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	76.2%	94.4%
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern	77.8%	100.0%
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	97.1%	131.3%
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	90.0%	147.2%

Cyfanswm y disgyblion yn yr ysgolion bwydo sy'n byw yn y dalgylch	2921
Cyfanswm y disgyblion sy'n mynd i ysgolion cymunedol prif ffrwd.	3418
Cyfanswm disgyblion mewn ysgolion bwydo wedi eu capio i'r NDG uwchradd	2608
Canran mewn ysgolion bwydo wedi eu capio o'r cohort cyfan*	76.3%

*Mae hyn yn cynrychioli nifer y disgyblion sy'n byw mewn dalgylch ac yn mynd i ysgol fwydo ac a fydd o bosibl yn mynd ymlaen i'r ysgol uwchradd gysylltiedig yn 2019/20; mae'r ysgolion uwchradd a fyddai'n derbyn gormod o ddisgyblion gan eu hysgolion bwydo wedi eu capio ar y nifer disgyblion y mae eu niferoedd derbyn yn eu caniatáu.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



**POLISI
DERBYN I
YSGOLION
2019/2020**

**CYNGOR CAERDYDD
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

1. **CYFLWYNIAD**
 - 1.1 Derbyn i Ysgolion
 - 1.2 Maes Perthnasol i'w Ymgynghori
 - 1.3 Nifer Derbyn Cyhoeddedig
 - 1.4 Ardaloedd Dalgylch Ysgolion Cymunedol
 - 1.5 Plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
 - 1.6 Trefniadau Derbyn Cydlynol i Ysgolion Uwchradd
 - 1.7 Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE
2. **CYFLWYNO CAIS**
 - 2.1 Sut i Ymgeisio
 - 2.2 Cyn Ymgeisio
 - 2.3 Yr Ymgeisydd
 - 2.4 Ceisiadau ar amser (a gaiff eu hystyried yn ystod y 'cylch derbyn arferol')
 - 2.5 Ceisiadau hwyr (a gaiff eu hystyried yn tu allan i'r 'cylch derbyn arferol')
 - 2.6 Wrth ddyrannu lleoedd nid yw'r Cyngor yn ystyried
 - 2.7 Ceisiadau o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 11
3. **DERBYNIADAU I YSGOLION MEITHRIN CYMUNEDOL A DOSBARTHIAU MEITHRIN**
 - 3.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd
 - 3.2 Ceisiadau Hwyr
 - 3.3 Dim Hawl i gyflwyno Apêl Statudol
 - 3.4 Cyllid y Blynnyddoedd Cynnar (CBC)
4. **DERBYNIADAU I YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL**
 - 4.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd
 - 4.2 Ceisiadau Hwyr
 - 4.3 Apeliadau Statudol
 - 4.4 Mynediad Hwyr
 - 4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir
5. **DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL**
 - 5.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd – Opsiwn 1
 - 5.2 Ceisiadau Hwyr
 - 5.3 Apeliadau Statudol
6. **DERBYNIADAU I'R CHWECHED DOSBARTH**
7. **EGLURO'R MEINI PRAWF PAN FO MWY O GEISIADAU NA LLEOEDD**
 - 7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad
 - 7.2 Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) / Plant oedd yn Arfer Derbyn Gofal (PADG)
 - 7.3 Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir (CGIUA)
 - 7.4 Yn byw mewn dalgylch diffiniedig
 - 7.5 Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf
 - 7.6 Brodyr a chwiorydd
 - 7.7 Agosrwydd
8. **TYSTIOLAETH DDOGFENNOL ALL FOD EI HANGEN GAN YMGEISWYR**
 - 8.1 Cyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â phlentyn Personél Gwasanaeth y DU neu Weision eraill y Goron
 - 8.2 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Chyfeiriad Cartref Plentyn
 - 8.3 Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Rhesymau Meddygol Cryf neu Resymau Cymdeithasol Cryf
9. **Y BROSES GYNIGION**
 - 9.1 Cynigion Ysgol
 - 9.2 Dim Cynigion Ysgol
 - 9.3 Tynnu Cynnig i Ysgol yn ôl
 - 9.4 Rhestrau Aros

Atodiad 1 – Niferoedd Derbyn i Ysgolion 2019/20

1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyn i Ysgolion

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol lle y bo'n bosibl.

Mae gan rieni (y cyfeirir atynt hefyd fel 'ymgeiswyr' yn y ddogfen bolisi hon) yr hawl i fynegi dewis ysgol(ion) a fydd yn cael ei ystyried yn unigol a'i fodloni ati lle bo'n bosibl.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i gyfle cyfartal a diddymu gwahaniaethu. O ran derbyn i ysgolion, caiff pob disgybl a darpar ddisgybl ei drin yn deg, beth bynnag fo'i ryw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedligrwydd, iaith, gallu/anabledd neu gred grefyddol. Mae camau ar waith i sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn i ysgolion yn rhoi mantais annheg neu anfantais annheg i unrhyw grwpiau drwy weithredu rheolau neu amodau nad yw'n bosibl i bawb gydymffurfio â hwy.

Caiff yr holl dderbyniadau i ddsbarthiadau cymunedol ac ysgolion cymunedol eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Caerdydd.

1.2 Maes Perthnasol i'w Ymgynghori

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Ardaloedd Ymgynghori Perthnasol ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd yw ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor Sir).

1.3 Nifer Derbyn Cyhoeddedig

Yn y cylch derbyn arferol, mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion tan y byddant wedi cyrraedd eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Ni fydd cais derbyn i ysgol yn cael ei wrthod mewn unrhyw ysgol nes bydd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i gyrraedd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]). Cyfrifwyd y nifer derbyn cyhoeddedig yn unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" cylchlythyr 021/2011. Gan fod y nifer hwn yn seiliedig ar gapasiti ffisegol yr ysgol i dderbyn disgyblion, ni ddylid derbyn mwy na'r nifer hwn dan amgylchiadau arferol.

1.4 Ardaloedd Dalgylch Ysgolion Cymunedol

Mae gwybodaeth am ddalgylchoedd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o ddalgylchoedd ysgolion sydd ag ysgolion cynradd cymunedol a gynhelir wedi'u grwpio gyda'i gilydd i ffurfio dalgylchoedd ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghaerdydd.

Gall dalgylchoedd newid, a chynhelir ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau cyn eu gweithredu. Ni allwn warantu lle i blentyn yn ei ysgol ddalgylch.

- 1.5 Plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**
Pan fo ysgol gymunedol yn cael ei henwi mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi lle i'r plentyn yn yr ysgol.
- 1.6 Trefniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol**
Bydd y Cyngor yn dal i gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion uwchradd, sy'n berthnasol i'r holl ysgolion uwchradd cymunedol; Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi; Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ac Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd.
- 1.7 Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE**
Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu'n unol â Deddf Diogelu Data 1998.

DRAFT

2. CYFLWYNO CAIS

2.1 Sut i Ymgeisio

Mae'n rhaid cyflwyno cais i'r ysgol y mae rhiant yn dymuno i'w plentyn fynd iddi. Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau drwy Wasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy ffurflen ddewis wedi'i chwblhau a'i hanfon dros e-bost at derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk neu at Derbyniadau i Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Nid yw'r Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddata sy'n mynd ar goll o ganlyniad i'r dull y dewisodd yr ymgeisydd ei ddefnyddio i anfon y data.

2.2 Cyn Ymgeisio

Mae cyfleuster ar wefan Cyngor Caerdydd sy'n galluogi i rieni gyflwyno manylion eu plentyn a derbyn gwybodaeth ar sut i ymgeisio am le ysgol ar yr adeg gywir yn unol ag amserlen derbyniadau'r Cyngor.

Dylai rhieni sydd wedi cofrestru manylion y plentyn cyn iddynt gyrraedd oed meithrin gyda'r Cyngor ymgeisio am le meithrin cymunedol drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Dylai rhieni sydd wedi cofrestru manylion eu plentyn oed meithrin neu iau gyda'r Cyngor ymgeisio am le mewn dosbarth derbyn yn eu hysgol(ion) gynradd gymunedol ddewis yn ystod Tymor yr Hydref cyn derbyn, drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Yn ystod Tymor yr Hydref, cyn derbyn, gwahoddir rhieni plant yn ngrŵp oedran Blwyddyn 6 i enwebu eu hysgol(ion) uwchradd ddewis drwy ddefnyddio Gwasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy gwblhau ffurflen dewis.

Gall unrhyw riant sydd heb gofrestru ei blentyn ymlaen llaw dal wneud cais am le mewn ysgol.

2.3 Yr Ymgeisydd

Dim ond ceisiadau a gyflwynir gan 'riant' y plentyn (fel y'i diffinnir yn Adran 576 Deddf Addysg 1996) fydd yn cael eu hystyried gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant i'r plentyn neu berson ifanc ond sydd â chyfrifoldeb rhianta drosto neu'n gofalu amdano.

2.4 Ceisiadau ar amser (a gaiff eu hystyried yn ystod y 'cylich derbyn arferol')

Derbyn i'r Dosbarth Meithrin ar ôl dechrau'r Tymor:

Bydd rhieni a gyflwynodd gais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael gwybod canlyniad eu cais erbyn y dyddiad rhoi gwybod cyhoeddedig. Gweler paragraffau 3.1.1; 3.1.2 a 3.1.3 i gael rhagor o fanylion ar y dyddiadau cyhoeddedig.

Derbyn i Ddosbarth Derbyn o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, sef Dydd Llun, 7 Ionawr 2019, fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ar Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2019.

Trosglwyddo i Flwyddyn 7 o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, sef Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ar Dydd Gwener, 1 Mawrth 2019.

2.5 Ceisiadau hwyr (a gaiff eu hystyried yn tu allan i'r 'cylich derbyn arferol')

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â meini prawf cyhoeddedig y Cyngor.

Ar ôl y dyddiadau cau'r rownd cyntaf, mae'r dyddiadau cau nesaf fel a ganlyn:

- Derbyn i Addysg Feithrin – y diwrnod olaf o bob mis
- Derbyn i Addysg Gynradd (Dosbarth Derbyn o fis Medi) – 30 Ebrill 2019
- Trosglwyddo i Addysg Uwchradd (Blwyddyn 7 o fis Medi) – 15 Mawrth 2019

Y dyddiadau ar gyfer rowndiau dilynol fydd y diwrnod olaf o bob mis.

Bydd ceisiadau a wrthodwyd o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny, yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw leoedd allai godi wedi hynny.

2.6 Wrth ddyrannu lleoedd nid yw'r Cyngor yn ystyried

At ddibenion derbyn i Feithrinfa Gymunedol:

- Yr ysgol gynradd benodol y mae'r plentyn yn debygol i'w mynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol feithrin wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol feithrin;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored.

At ddibenion derbyn i Ysgol Gynradd Gymunedol:

- Yr ysgol uwchradd benodol y mae'r plentyn yn debygol i'w mynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol;
- Presenoldeb mewn Dosbarth Meithrin Cymunedol yn yr un ysgol – rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored/pontio.

At ddibenion derbyn i Ysgol Uwchradd Gymunedol:

- Y chweched dosbarth penodol y mae'r plentyn yn debygol i'w fynychu;
- Y cyfnod o amser y mae'r ysgol feithrin wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i ymgeisio am le yn yr ysgol;
- Gwahoddiad neu blentyn yn mynychu diwrnod agored/pontio.

2.7 Ceisiadau o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 11

Gall rhieni fynegi mwy nag un ysgol ddewis. Bydd dewis uchaf y rhiant yn cael ei gynnig os yw ar gael. Bydd dewisiadau is yn cael eu cynnig os nad yw dewis(iadau) uwch y rhieni ar gael.

3. DERBYNIADAU I YSGOLION MEITHRIN CYMUNEDOL A DOSBARTHADAU MEITHRIN

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Meithrin Cymunedol a gynhelir a Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion Cymunedol yn Ninas a Sir Caerdydd.

Mae gan blant yr hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Er bod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, mae'n rhaid i blant fynychu am bump hanner diwrnod os yw'r cynnig o le mewn ysgol feithrin cymunedol wedi'i dderbyn.

Gall plant gael eu derbyn neu eu trosglwyddo i ysgol feithrin gymunedol drwy gydol y flwyddyn academaidd yn dibynnu ar faint o leoedd sydd ar gael.

Pan mae llawer o leoedd ar ôl mewn ysgol feithrin gymunedol, bydd pob ymgeisydd yn cael lle meithrin.

3.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

Os oes mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol feithrin gymunedol, bydd ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn unol â meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1.(a) yr uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy:

1. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef Dydd Llun 18 Chwefror 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2016 (cynhwysol):
 - (a) Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
 - (b) Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
 - (c) Plant sydd â brawd neu chwaer (mewn unrhyw grŵp oedran rhwng Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 yn gynhwysol) fydd ar gofrestr yr ysgol y mae'r dosbarth meithrin ynddi pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (d) Plant y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (e) Plant sy'n byw agosaf at yr ysgol/dosbarth meithrin, wedi'i fesur gan y llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael.
2. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig sef Dydd Llun 01 Gorffennaf 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Rhagfyr 2016 (cynhwysol), mae meini prawf (a) i (e) [fel yr uchod] yn berthnasol.

*Pan fo nifer y dewisiadau a fynegwyd fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

3. Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau cyhoeddiedig sef Dydd Llun 01 Gorffennaf 2019 ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Mawrth 2017 (cynhwysol), mae meini prawf (a) i (e) [fel yr uchod] yn berthnasol.

3.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol feithrin gymunedol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor.

3.3 Dim Hawl i gyflwyno Apêl Statudol

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl statudol i apelio dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 os na fyddant yn llwyddo i gael lle meithrin.

Nid yw mynychu Dosbarth Meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

3.4 Cyllid y Blynnyddoedd Cynnar (CBC)

Pan nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir i gyfeiriad cartref plentyn (fel sydd wedi'i fesur ar y llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael), gall rhieni wneud cais am arian i sicrhau lle addysg feithrin (y cyfeirir ato hefyd fel CBC) gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd. Mae'n rhaid i'r disgyblion fod yn byw yng Nghaerdydd ac mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif geni plentyn gyda chais am CBC. Efallai bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o'u cyfeiriad.

Lle bo lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn, bydd y Cyngor ond yn cymeradwyo ceisiadau am CBC gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan Grŵp Plentynod Cynnar Caerdydd pan fo rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol sy'n ei gwneud yn amhriodol i'r plentyn fynychu'r ddarpariaeth feithrin sydd ar gael. Rhaid i argymhelliad ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol dyddiedig ddim mwy na thri (3) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais roi manylion yn egluro pam na all y plentyn fynychu unrhyw un o'r Ysgolion Meithrin Cymunedol sydd ar gael.

Dylid cyflwyno ceisiadau CBC yn ystod y tymor cyn y bydd y plentyn yn gymwys i gael cyllid neu os yw'r plentyn yn dechrau mewn ysgol feithrin gyda darparwr cydnabyddedig yn hwyrach ymlaen, dylid cyflwyno ceisiadau yn ystod y tymor y cafodd y plentyn ei dderbyn. Ni fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau ôl-weithredol am gyllid pan fyddai lle mewn Ysgol Feithrin Cymunedol wedi bod ar gael o fewn dwy (2) filltir i gyfeiriad cartref y plentyn (wedi'i fesur yn unol â'r llwybr byrraf a mwyaf diogel sydd ar gael), ond nid yw ar gael mwyach gan fod yr ymgeisydd wedi oedi wrth ymgeisio.

Yn ogystal, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo ceisiadau am CBC pan gynigiodd y Cyngor le mewn Ysgol neu Ddosbarth Meithrin Cymunedol ar adeg ymgeisio ond cafodd ei wrthod gan yr ymgeisydd.

4. DERBYNIADAU I YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Cynradd Cymunedol a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd.

Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn (y cyfeirir ato hefyd fel 'Blwyddyn 0') ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 yn ystod y rownd dderbyn arferol.

Gall plant gael eu derbyn neu drosglwyddo i ysgol gynradd gymunedol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn amodol ar argaeledd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

Pan nad yw'r holl leoedd mewn ysgol gynradd gymunedol wedi'u llenwi, mae modd cynnig lle i bob ymgeisydd (heblaw am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

4.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol gynradd gymunedol, bydd blaenoriaethau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a nodir gan y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1 yn uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy a fel arfer ni fydd yn uwch na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol na'n torri'r cyfyngiadau a osodwyd gan uchafswm maint dosbarth (3) lle bo hyn yn berthnasol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig ysgol **ac** y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
5. Plant sydd â brawd / chwaer yn mynychu'r ysgol, a gafodd eu derbyn cyn y newid i'r dalgylch
 - a) Lle derbyniwyd brawd neu chwaer hŷn i fynychu ysgol ac maent yn parhau i fynychu, lle'r oedd hyn yn flaenorol yn yr ysgol dalgylch, os bydd y riant yn dymuno, bydd y Cyngor felly'n derbyn brodyr a chwirydd iau i'r hen ysgol ddalgylch.

b) Lle derbyniwyd brawd neu chwaer hŷn ac maent yn parhau i fynychu ysgol gymunedol sydd newydd ei sefydlu heb ddalgylch penodedig, os bydd y rhiant yn dymuno, bydd y Cyngor yn derbyn brawd neu chworydd iau i'r ysgol hon.

6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chworydd genedigaeth luosog. *

*Pan fo mwy o ddewisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agoswydd'.

7. Disgyblion y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chworydd genedigaeth luosog. *

8. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chworydd genedigaeth luosog. *

9. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf.

4.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol gynradd gymunedol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor (fel yr uchod).

4.3 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn heb gael lle mewn ysgol gynradd gymunedol, gallwch gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Statudol Annibynnol.

4.4 Mynediad Hwyr

Nid oes rhaid i blentyn ddechrau mewn ysgol gynradd tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 5 oed, fodd bynnag, nid oes modd gohirio'r dyddiad dechrau tan ar ôl dechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 5 oed. Mae'r lle gohiriedig yn cael ei gadw i'r plentyn, a ni fydd ar gael i unrhyw blentyn arall. Argymhellir bod unrhyw ystyriaeth i ohirio'n cael ei drafod gyda Phennaeth yr ysgol gynradd benodol honno.

4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir

Yn achos Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg (ysgol gynradd wirfoddol a reolir), mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb dros dderbyniadau i'r Corff Llywodraethu. Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd yn uniongyrchol i'r ysgol.

Nid yw mynychu Dosbarth Meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

5. DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Uwchradd Cymunedol a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd.

Bydd disgyblion yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 yn ystod mis Medi ar ôl eu penblwydd yn 11 oed yn ystod y rownd dderbyn arferol.

Gall plant gael eu derbyn neu drosglwyddo i ysgol uwchradd cymunedol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn amodol ar argaeledd (oni bai am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

Pan nad yw'r holl leoedd mewn ysgol uwchradd gymunedol wedi'u llenwi, mae modd cynnig lle i bob ymgeisydd (heblaw am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith [cyfeirio at 3.48 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013]).

5.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol uwchradd gymunedol, bydd blaenoriaethau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a nodir gan y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1 yn uchaf] hyd at y capasiti cymeradwy a fel arfer ni fydd yn uwch na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr **neu** blant oedd yn arfer derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir. *
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig ysgol **ac** y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **a** sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *
6. Disgyblion y mae rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol, ym marn y Cyngor. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwirydd genedigaeth luosog. *

*Pan fo nifer y blaenoriaethau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.8 Agosrwydd'.

7. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer oed ysgol fydd ar gofrestr yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
8. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded ymarferol byrraf.

5.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr gydag ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus pan fo lleoedd gwag yn codi mewn ysgol uwchradd gymunedol a defnyddio'r meini prawf uchod a nodwyd gan y Cyngor (fel yr uchod).

5.3 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn heb gael lle mewn ysgol uwchradd gymunedol, gallwch gyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Statudol Annibynnol.

Nid yw bod ar gofrestr ysgol gynradd gymunedol yn yr un dalgylch ag ysgol uwchradd gymunedol yn awtomataidd yn gwneud plentyn yn gymwys i gael lle yn yr ysgol. Rhaid gwneud cais newydd i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

6. DERBYNIADAU I'R CHWECHED DOSBARTH

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am bennu trefniadau derbyn i chweched dosbarth i Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd Cymunedol. Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd yn uniongyrchol i'r ysgol.

7. EGLURO'R MEINI PRAWF PAN FO MWY O GEISIADAU NA LLEOEDD

7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad

Mae'n rhaid defnyddio cyfeiriad cartref y plentyn ar y cais; y lle y mae'r plentyn yn byw am fwyaf yr wythnos ysgol. Gweler 'Cyflwyno dogfennau'n ymwneud â Chyfeiriad Cartref Plentyn' (8.2). Efallai na fydd y Cyngor yn derbyn y cyfeiriad a roddir os nad oes tystiolaeth bod rhiant y plentyn yn byw yn yr eiddo.

Er mwyn bod yn gymwys fel 'cyfeiriad cartref plentyn', at ddibenion derbyn, rhaid nodi'r lle y mae'r plentyn yn byw ynddo ar ddyddiad cyflwyno'r cais. Os yw'r plentyn yn symud cyfeiriad ar ôl ymgeisio a chyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn derbyn yn yr ysgol, mae'n rhaid i'r rhiant roi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) gan nodi'r cyfeiriad newydd, fel arall bydd unrhyw gynnig ysgol a wnaed yn cael ei dynnu yn ôl a bydd angen cais newydd.

Os yw'r plentyn yn symud yn agosach at ysgol ddewis sydd â mwy o geisiadau na lleoedd (neu'n symud i'r dalgylch o'r tu allan i'r dalgylch) ar ôl ymgeisio, os roedd cynnig i'r ysgol â mwy o geisiadau na lleoedd eisoes wedi'i wneud, ni fydd hyn yn effeithio ar y cynnig.

Os yw'r plentyn yn symud ymhellach i ffwrdd o ysgol ddewis sydd â mwy o geisiadau na lleoedd (neu'n symud o'r dalgylch o'r tu mewn i'r dalgylch) ar ôl ymgeisio, os roedd cynnig i'r ysgol â mwy o geisiadau na lleoedd eisoes wedi'i wneud, efallai y bydd y cynnig hwn yn cael ei dynnu yn ôl a phenderfyniad ysgrifenedig newydd yn cael ei anfon (e-bost neu lythyr).

7.2 Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) / Plant oedd yn Arfer Derbyn Gofal (PADG)

Mewn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y'i diffinnir yn Rhan 22 Deddf Plant 1989 a Rhan 74 Deddf Gwasanaethau a Llesiant [Cymru] 2014), mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (y rhiant corfforaethol) wneud cais a chyflwyno tystiolaeth ategol (megis Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro) gyda'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae **dyletswydd** ar y Cyngor i **dderbyn** y plentyn i'r ysgol a rhoi blaenoriaeth uchaf yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Yn achos plentyn oedd yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y'i ddiffinnir gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru rhif dogfen 005/2013), rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol (llythyr gan yr Awdurdod Lleol perthnasol [cyn-rhiant corfforaethol]) gyda'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd o ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae **dyletswydd** ar y Cyngor i **roi blaenoriaeth uchaf** yn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

7.3 Cynllun Gofal Iechyd Unigol a Ariennir (CGIUA)

Mae CIUAau wedi eu neilltuo i blant y dyrannwyd cyllid meithrin ar eu cyfer gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion. Mae paneli aml-asiantaeth yn dyrannu cyllid i blentyn ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth, drwy Gynllun Datblygiad Unigol er mwyn sicrhau y gall y plentyn dderbyn cymorth i gael mynediad at eu hawl i ysgol.

7.4 **Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol**

Gallwch weld dalgylchoedd diffiniedig ysgolion cynradd ac uwchradd ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

7.5 **Rhesymau Meddygol/Rhesymau Cymdeithasol Cryf**

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol, rhaid i argymhelliad ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol dyddiedig ddim mwy na 6 (chwech) mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais roi resymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol.

7.6 **Brodyr a chwirydd**

Caiff cais ei ystyried dan y meini prawf brodyr a chwirydd os byddai'r brawd/chwaer, a'r ymgeisydd wrth gael ei dderbyn, yn mynychu'r un ysgol ar yr un pryd.

Bydd y Cyngor ond yn ystyried brodyr a chwirydd oed ysgol gofynnol (ar gyfer ceisiadau ysgol feithrin a chynradd mae hyn yn cyfeirio at Ddosbarth Derbyn tan Blwyddyn 6 ac ar gyfer ceisiadau i ysgolion uwchradd mae hyn yn golygu o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11):

- Sydd wedi'u henwi'n glir ar y cais **ac**
- Sy'n byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef **ac**
- Sy'n mynychu'r ysgol gynradd ddewis (nid meithrin) **neu**
- Sy'n mynychu'r ysgol uwchradd ddewis (nid y chweched dosbarth).

Diffinnir brawd neu chwaer, at ddibenion derbyn, fel a ganlyn: brawd/chwaer; hanner-brawd/hanner-chwaer (plant sydd ag un rhiant cyffredin); llys-frawd/llys-chwaer (pan fo plant yn perthyn gan fod eu rhieni wedi priodi, yn byw gyda'i gilydd neu mewn partneriaeth sifil); plentyn wedi'i fabwysiadu neu ei faethu.

7.7 **Ysgol Fwydo**

Byddai gweithredu Derbyn i Ysgol Uwchradd Gymunedol – Meini Prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd Opsiwn Dau (2), yn blaenoriaethu ymgeiswyr y mae eu plant yn mynd i ysgol gynradd benodol yn uwch na'r rheiny y mae eu plant yn mynd i ysgol gynradd nad yw'n cael ei hystyried yn ysgol fwydo. (Gweler atodiad 2 am fanylion ar ysgolion bwydo).

7.8 **Agosrwydd**

*Y maen prawf yma yw'r olaf fydd yn cael ei ddefnyddio o'r holl feini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Os yw nifer y blaenoriaethau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn unrhyw faen prawf uwch, bydd agosrwydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn penderfynu pa ddisgyblion fydd yn cael eu derbyn.

Mae'r Cyngor wedi datblygu System Wybodaeth Ddaearyddol (SWD), y cyfeirir ati fel 'Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig' (RTI), wedi'i greu yn unol â Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r meini prawf pennu llwybrau yn Narpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014. Bydd y llwybr mwyaf diogel byrraf sydd ar gael (fel y'i diffinnir yn 'Darpariaeth Statudol Teithio Dysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014' Llywodraeth Cymru) yn cael ei gyfrifo (i 4 pwynt degol) o gyfesurynnau cartref ymgeisydd (a gaiff ei bennu gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol [RhTELI] data pwynt cyfeiriad), i'r gât ysgol agored agosaf gan ddefnyddio data llwybr Arolwg Ordnans.

- a) Pan nad oes llwybr diogel ar gael, defnyddir y pwynt agosaf ar yr RTI i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyfrifo'r llwybr gyrru byrraf i'r gât ysgol agored agosaf.
- b) Dyrannu'r Lleoedd Olaf: Yn achos fflatiau penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

Ar gyfer ceisiadau i ddisgyblion sy'n byw o fewn tir mawr y DU ond y tu allan i ardal y rhwydwaith trafniadaeth integredig, caiff pellteroedd preswylfa i'r ysgol eu cyfrifo fel y pellter gyrru byrraf yn ôl mapiau google.

Pan fo ymgeiswyr yn y byw y tu allan i dir mawr Prydain, caiff pellteroedd llwybrau eu pennu fel y llwybr byrraf yn ôl mapiau google gan ddefnyddio'r mathau o drafnidiaeth sydd ar gael.

8. TYSTIOLAETH DDOGFENNOL ALL FOD EI HANGEN GAN YMGEISWYR

Efallai y bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno dogfennaeth **glir ac eglur** (e-bost: derbyniadauysgolion@caerdydd.gov.uk) fel prawf o'u cymhwysedd ar gyfer un neu fwy o feini prawf derbyn. Pan nad yw tystiolaeth ddogfennol foddhaol yn cael ei derbyn, ni fydd lle yn cael ei gynnig mewn ysgol sydd â mwy o geisiadau na lleoedd yn seiliedig ar y rhesymau derbyn.

Yn ddibynnol ar ganiatâd ymgeisydd wrth gyflwyno cais, gall asiantau llywodraeth eraill wirio'r dystiolaeth gan gynnwys (os yw'n briodol) ysgol bresennol y plentyn.

8.1 Cyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â phlentyn Personél Gwasanaeth y DU neu Weision eraill y Goron

